PERL MEWN ADFYD

neu,

Perl yspyrydawl, gwyrthfawrocaf,

yn dyſcu i bôb dyn garu, a chofleidio y groes, meis peth hyfryd angenrheidiawl ir enaid, pa gorfforddd ſy yw gael o honi, ple, ac ym ha fodd, y dylid ceiſiaw diddanwch, a chymorth ym hob adfyd: a thrachefn. pa wedd y dyle bawb i ym-ddwyn i hunain mewn blinder, yn ol gair duw. a eſcrifennwyd yn gyntaf mewn Dwitch gann bregethwr dyſcedig Otho Wermulerus, *ac a droed i'r Saeſonaeg gann D. Miles Coverdal, ac yrawrhon yn hwyr ir Gambraeg gann.*

H. L.

Gorau or perlau, geirwir purlan,
Gorau gem eurwedd, iawnwedd anian,
Gorau dau gorau gwirian hynn i gyd
Y perl mewn blinfyd adfyd vdfan.



Joseph Barnes ai Printiodd
yn Rhydychen. 1595.

Robertus Pricius.

R Price the [illegible]
of Jesus College

IR GWIR BARCHEDIC, AR ANRHYDEDDVSAF wr, RICHARD VYCHAN, Doctor o Ddiviniti, Archiagon o *Eydlesex*, r̃ad a thangneddyf Yng-*hrist Iesu*.



Rth ystig gofthau, a dilys ystyriaw, (Arderchawcaf wr) eiriaü, y pwyllawg a'r ymadroddus Rufeinwr, M. T. Cicero, rhwn a ddywaid, na enir neb iddaw ei hun, sef, er mwyn budd, a lles, iddaw ei hun yn vnic, (eythr er mwyn ei wlad, ei rieni, ei wra[illegible] ei blant, ei geraint, a[i] gyf[illegible] fieid,) mi a dybiais, fod yn [illegible] medig ddled arnaf am [illegible]

ol y gallu, ar rhodd fechan, a roddes duw y my, gwblhau, (neu or lleiaf wneuthur fyngoreu) ar gwblhau a chyflawni hynn yma: Ac wrth hir fyfyriaw yno fy hunan, pa wedd y gallwn yn oreu wneuthur hynn, ni fedrais ddychymig, na dyfeiſiaw vn modd gwell, nac wrth roddi allan, ryw draethiad dduwiol, neu lyfr dyſcedig, ymhwy vn y cae fy anwyl gydwladwyr, y Cymbru, yn ei tafodiaith ei hun, iachuſawl, ac yſprydawl athrawiaeth, a dyſceidiaeth. Ac yn y cyfamſer, fe a ddamweiniawdd i'r llyfr hvvnn ddyfod im llaw, 'rhwnn; pann graff ſynniais arnaw gann bwyll, a fernais i fod yn fuddiawl, ac yr angenrheidiawl i bobl fyngwlad, a phan gefais amſer, ac ennyd, mi [illegible]ois ir Gymbraeg.

[illegible]c er maint a fu fymhoen yn [illegible]maint oedd ofy chwant,

am

am awydd, i wneuthur, hyd y gallwn, les im gwlad, ac er bod y llyfr hwnn yn etifedd cyntaf-anedic ymy, ac yn ffrwyth cyntaf, om myfyrdawd, am llafur, eto, ni thybiais yn well, nac yn amgenach, o honaw, nac o erthyl anhymig, rhwnn a enid cynn ei amser. Ac am hynn myfi a ddechreuais i esclusaw, ai ddifrawu ef, gann i dafiu ymaith yn ddiymgeledd.

Yno y dechreuawdd rhai om cydnabod (a rhai ni allwn yn dda i gomedd) ymbil, ac ymnhedd a myfi, er i ddiwgio, ai addurniaw, ai osod allan yn berffaith: myfi ai gwrthsefais, ac a ddoedais yw erbyn hwy tros amser, can's y ddoeddwn, ac y ddwyf byth, o feddwl Marcus Antonius, Areithiwr hyawdl dysccedig o Rufain, rhwnn pan ofynnawdd yn [illegible]aw efvnywaith, paham nad ydoe[illegible] yn rhoddi ei waith m[illegible]

meis y gwnae eraill, gann fod mor felys, ac mor flasus gann bawb i clywed: a attebawdd yn ddigrif, ac eto yn wir, fal hynn: sef, os damweiniai iddaw ef ddoedyd dim ar draethiad yn anfedrus, yn anweddus, ne yn amhwyllawg, y galle ef i wadu drachefn, ne i droi ffordd arall, ond o rhoe ef ddim allan ar gyhoedd mewn print, ar a fydde eniweidiawl, fe a ddelid arnaw, ac e fydde raid iddaw sefyll wrthaw. Er fy mod yn gwybod, ac yn gweled, fod hynn i gyd yn wir, ac yn debig i ddigwyddaw i mineu, eto mi a fum fodlon or diwedd, i ymroi fy hunan i ewyllys a damuniad, fyngharedigion am ewyllyswyr da, gann ddewis yn hytrach, ddangos ir byd fy anwybodaeth, drwy ro... hwnn mewn print, na naghau, ...oeddynt mor gu, ac mor ...am beth cynn duw... ...ided,

ioled, a chan rhejymoled.

Ond yrawrhon, fe alle ond antur fod yn chwith, ac yn rhyfedd gennych, paham y bum cyn hyfed, ac mor llefaſus, ach trwbliaw chwi a ffeth cynn vvaeled, ac yw 'r llyfr hwnn, ac yn envvedig o wr anghy dnabyddus, dau achos am cymelleſont i hynn. yn gyntaf, am i mi glyvved, (a hynny yn gyffredinawl gann bawb,) yn gyſtal, ac mor ddaionus o hanoch: ac ymyſc llawer o rinvveddae a chyneddfae da, fod arnoch yr vn gamp honn yn hyſpyſawl, ſef, bod yn greugar, yn dirion, yn dyner, ac yn naturiol tu-ac at eich gwlad, gann garu, hoffi, perchi, a mavvrygu ych iaith gyſſefin eich hun: i bwy, gann hynny, yr oedd iawnach, na chymeſurach, roddi hwnn, (pe i tale i gael) nac i chwi? ofer fydde i mi, i roddi ef, i [illegible] ddirmygus, a diyſtyr ganthaw,

yr iaith, can's ni ffrisieu ef ynthaw, ni bydde gantho fater amdanaw, ac ni fedre farnu o honaw: ac wrth hynny, mi a wnawn yr hynn y mae ein iachawdwr Crist,
Mat. 7.6. yn i wahardd, yn yr efangyl, sef, taflu perlau ne fain gwyrthfawr o flaen moch, yw sathru dann draed.

Yr ail achos, yw, am i mi wybod, fod rhai segurwyr, dyngas maleisus, y rhain ni wnant ddim ond hynny, yn barod i feiaw arnaf yn ddiachos, ac heb ystyr, rhai y dynt mor atgas, mor ddrwg ewyllyscar, ac mor ddrygionus a chi Aesop, rhwnn a orweddai yn y presep, heb na phori y gwair i hun, nac eto gadel irr ych i bori chwaith.

Yr awron os bydd y llyfr hwn gymeradwy genych, ac yn rhynon eich bodd, ni feiddia vn coegfeiwr, chwrnu, na chyfarth yw erbyn, fe a ddarlleuir mewn Croni-

Cronicłau awduredic pa wedd y gorchmynnawdd y Brenin Edvvard, y cyntaf, o bydde i'r Scotieid vn amſer yn ol i farvvolaeth ef gyfodi, neu wrthryfela, yn erbyn y deyrnas honn, gymeryd i eſcyrn ef, ai dwyn ir maes, ac yn ebrwydd, hwy a ffoent ymaith. yn yr vn modd, cablwyr, a drwg abſenwyr a gaeant ei ſafnau, ac a ffoant ymaith yn ollawl, pann glywant eich henwi vnvvaith o fewn fy llyfr, ac ni feiddiant ddoedyd gair ymhellach yn ferbyn.

Fe a darllea nir hefyd y cyff.lyb o Ziſca Capten y Boemieit. Fox yn llyfr y Merthyron dalen. 1557.

Erwydd paham, mal y gwnae Aiax Oileus, ne Aiax leiaf gynt yn rhyfel Droia, ſef ffo dann darian ſaith-ddyblyg Aiax fab Telamō, pan i gortrechid ac i'r amgylchid gann ei elynnion, felly ydd wy finneu yn diainc atoch gan obeithaw fy mod yn ddiāgol, oddiwrth dafodeu gwenwynic, (rhai

ynt lymmach i enllibiaw eraill na chleddyf daw finiog) os y llyfr hwnn a gaiff fyned ir print, dann eich nodded, ach ymddeffynfa chvvi.

Yr awrhon, gann hynny, fy vfudd ddysyfiad, am damuniant yw, bod i chwi dderbyn y llyfr hwnn yn ddehevig, a bod y galennic wael hon, yn gymeradwy gennych. ac os hynn a wnewch, chwi am gwnevvch, nid yn vnic yn rhvvymedig, ac yn ddiolchgar, i chwi, eythr chwi am cynhyrfvvch hefyd o hynn allan (os duw ai mynn) o osod allann bethau mvvy defnyddfawr, er lles, a budd ein gvvlad, ac er gogoniant i dduw. Ond yr wyf yn ofni fy mod yn rhyhir, ac yn rhy drwblus i chwi, am hynny [illegible] af ymhellach, eythr eich gorchymyn chwi, ar eiddoch, i dduw, yr hvvnn, a helaetho ei ddoni-

eu

na
yfr
nn
ıfa

v-
nt
fr
a-
y
ı,
v-
i-
n
n
n
r
r
f

eu ynoch, ac ach cynyſcaeddo, a chvvaneg o vrddas, ac anrhydedd hyd eich dydd diweddaf. die calan.

Eich vfudd, ach goſtyngedicaf weddiwr, ac ewyllyſiwr da, hyd ei elawr,

HVW LEWYS.

Mae 'n ddefod,hynod i hanian,rwyddwych,
o roddi y Kalan,
beirdd roddion glenigion glan
oreu gair,aur ag arian.

Rho finnau i chwithau , wych ieuthydd,glan-
galennig iawn ddefnydd, (waith,
o rann ffawd i euraw 'n ffydd,
purlan yw,perl o newydd.

Pur dryfor rhagor,rhowiogwych hanes,
perl hynod goleuwych,
perl enwog gyfoethog gwych
pur oleuni p erl iawnwych.

Or perlau gorau,gwiriwn hynn yma
iawn amod a welwn,
goreu vn perl a garwn,
purloew hap, yw y perl hwnn.

Perl yw hwn,didwn,odidawg,wythoes
perl weithion cyfoethawg
perl iawn rhwydd,pur lan y rhawg,
pa air lanach perl enwawg.

Ceisiwn o galiwn i gyd,o rann budd,
yr iawn berl mewn adfyd
llawenychol llawn iechyd,
llyna berl yn llenwi byd.

Cair

Cair beunydd gynnydd, a digonawl ddawn
gwir ddonieu ysprydawl,
a ffob peth difeth dwyfawl,
a gair yn hwnn gwir iawn hawl.

Er amled gweled, a gwlia y peth,
e wyr pawb hynn ymma,
cynnwch purwch er para,
y llew doeth, hwnn yn lle da.

HV: LEWYS.

... 142.
modus leniendi et vincendi afflic[tiones]
perfectissimum remedium a deo in 151
exempla divini auxilii 163.
spes in deo collocanda 170
orationis fructus in afflictione 175.
opus in premia fine 180
– exhortatio fact. ad ... et exempl.
exempla ex scripturis ... 196.
et similibus ...
modus patientiam acquirendi et confirmandi 213.
mortis, patientia et utilitas in corpore et anima 228.

IR DARLLENNYDD Christnogaidd rhad a thangneddyf *Yngbrist*.



MAE yn scrifennedic mewn amryw Hystoriau, o wirionedd ac awdurdot gwarantedic, pa wedd yr arfere yr Emerodr mawr, Dioclesian (pann gae ef ddim seibiant a llonyddwch gann ryfel oedd) o wau rhwydau manyl-faisc plethedic, i faglu ac i ddala gwybeid, ac ednogieid, ac eraill or cyfryw fan bryfed, rhag bod yn segur. Caius Caligula, y pedwerydd Cæsar, ac Emerodr mawr ynteu, pann ddychwelodd o ryfela yn erbyn y Germanieit, a gasclai blisc a chregin ynglann y mor, gann orchymyn yw holl filwyr wneuthyr y cyffelyb, rhag bod yn segur. Os oedd (gann hynny) y rhagddoededig Emrodrwyr hyn (gwyr synhwyrawl ardderchawg, pennaethicit pwyllawg, Concwerwyr galluawg, a llywodraethwyr godidawg) mor ddirfawr yn ffieiddiaw, ac yn cas-hau buchedd segurllyd, (yn vnic trwy ddirgel-waith natur, ac anian) fal y dewisent yn hy-

trach wneuthur pob siapri, ac arabedd,
na bod yn segur,pa faint mwy y dylem ni
(set oll wir Gristnogion) 'rhai sy gen-
nym,nid natur yn vnic,a rhesymmae na-
turiol, eythr gwir, a bywiol air duw he-
fyd,in dyscu,in cynghori,ac in rhybuddi-
aw, rhag cwympaw,a digwyddaw o ho-
Gen.19. nom,i'r cyfryw:fe a ddarlleuir yn Gene-
sis,pa wedd y glawiodd duw dan or ne-
foedd i ddinistriaw Sodom a Gomorha,
o herwydd i pechodae: ar pennaf o be-
Ezech.16. chodae 'rhain, ydoedd diogi, a segurydd
fal y trystia y Prophwyd Ezechiel.

Tra ydoedd Dafydd i hun yn rhyfela
yn erbyn y Philystieit,ef a wnae yr hynn
oedd gymeradwy, a da, yngolwg yr
Arglwydd,ond pann dariodd ef garrref,
2.Sam.11.1. fe gafes Sathan wall arnaw, gann i an-
2.3.&c. nog i wneuthyr yr hynn oedd ddrwg a
ffiaidd garbron duw: ac felly y digwy-
ddawdd i'r vn a orfygodd y llew, yr
2.Sam.17. arth, a Goliah y Philystiad mawr, ie,ac
34.35.36. a orchfygodd ddeg mil o wyr i hunan,
37.50. yn y maes, mal y tystia yr scrythur lan
2.Sa.18.7. am danaw, (Sawl a Laddodd i fil, a Da-
1.Sa.21.11. fydd i ddengmil ne isyrddiwn) adaw yn
ei segurydd i orchfygu gann ei drachwan-
tae ai bechodae i hunan. ystyrieth o
hynn, ac o eraill or cyffelyb siampleu a
hynn, am cymhellawdd i Gambraegu y

llyfr

llyfr hwnn; gann ym dybied yn anifyr, ac yn anuwiol fod yn segur, o'r pryd y rhodde yr haul ei byst goleuadfawr, ai belydr disclaerwiw, i oleuo yr dydd hirddydd haf, nes i fachludaw eilwaith, gan roddi lle i'r goleuadon lleiaf.

Yr achos cyntaf.

Ac er bod hynn yn achos mawr, eto mae achosion dwysach o lawer, am cymhellasont i gymeryd hynn arnaf. Yn gyntaf, ardderchowgrwydd y gwneuthurwr cyntaf, yr hwnn sy ddiau gennyfi fod, yn Awdur duwiol, yn Athro rhinweddol, yn wr defosionol, yn bregethwr rhagorol, ac yn weithwr grymus nerthol, yn y winllan ysprydol, (sef yw hynny, yn yr Eglwys Gristnogaidd gyffredinol) mal y mae eglur, nid yn vnic wrth ei boen ai lafur ef yn y llyfr presennol hwnn, eythr hefyd mewn llaweroedd o llyfreu eraill, 'rhain a scrifennodd ef, drwy fawr boen a diwydrwydd, er lles i lawer, er moliant i dduw, ac er gosod allan ac eglurhau, ei sanctawl ewyllys ef: y rhain oll a dystiant o honaw ef, i fod yn ffyddlawn, ac yn caru duw. ond ni safa i yn rhy hir, ar y pwnc hwnn, canys fal y mae 'r ddihareb, *vino vendibili suspensa hædera non est opus*, ac fal y canodd Pendefig pencerddiaidd o'n gwlad ni ein hun.

Nid

Nid rhaid rhoi clod braunod bro
iawn oll, i un ai nillo.

Yr ail achos — Yr ail achos am gwthiodd i hynn, yw
godidawgrwydd a daioni y llyfr, canys
os ystyriwn, sylwedd y ddysceidiaeth
gynwysedic oddifewn y llyfr, fe a gai
ynthaw faterion defnyddfawr, dyscybli-
aeth wyrthfawr, athrawiaeth fuddiol, ac
angentheidiol i bob dyn. canys os yw
angentheidiol i bob dyn fod yn Gristion,
ac os yw angentheidiol i bob Cristion
oddef croes ac adfyd yn y byd hwnn, fal
y rhagordeiniawdd ein Iachawdwr
Crist, yn ei Efangyl, gann ddoedyd, os e-
wyllysia neb ddyfod ar fy ol i gwaded ef
Luc.9.23. Matt.16.24. — hun a choded ei groes, &c. Ac fal yr escri-
Marc.8.34. — fennir yngweithredoed yr Apostolion,
Act.14.22. — trwy lawer o gystudd mae yn rhaid my-
ned i deyrnas dduw: ac mal i tystia Saint
Paul, Pawb ar a ewyllysiant fyw yn ddu-
2.Tim.3.12. — wiol ynghrist Iesu, a oddefant erlid:
Pwy a ddichon ne a eill wadu, nad yw
y peth sydd in fforddio, ac in confforddio
yn ein croes, a'n ing, ac in cynorthwyaw
megys i ddwyn ein baich yn fuddiol ac
yn angentheidiol hefyd? Ac yn ddiau or
cyfryw ddiddanwch, mae yr llyfr hwn
yn llawn. hwnn a ddysc i ni wybod, pwy
sydd in ceryddu, neu yn rhoddi ein croes
a'n adfyd arnom; sef duw: am ba beth;

am

am ein pechodae:i ba beth; In dwyn i edifeirwch a gwell-hant buchedd: drwy ba fodd: Drwy ein darostwng a'n vfudddau,a'n dyscu drwy ymynedd a goddefgarwch,i gyd-oddef gida Christ,fal y gallom hefyd,gyd-teyrnasu gidac ef.Hwnn 2.Tim. 2.12.
a'n dysc i gymerryd ein clefyd, ein tlodi, ein carchar, a ffob croes arall a gofyd,yn 1.Pet.5.6.
llawen,ac yn orfoleddus, gann ein darostwng ein hunain tan alluawg law dduw, fal y gallo ef ein derchafu pann ddel amser ein gofwy: a chann feddiannu ein eneidieu drwy ymynedd. Luc.21.19.

Y 3 achos yw, tlodi ac eisieu gwlad Gymbru o lyfreu yn i hiaith ei hun,ir diwedd ar defnydd hwnn, sef, er rhoddi iachusawl, ac ysprydawl ddiddanwch, ir sawl sydd glwyfus, ne mewn rhyw fodd arall yn orthrymedic. A chyd bae bob gwlad a theyrnas o'n hamgylch,a llyfreu duwiol,daionus ganthynt, yw dyscu yn ffordd yr Arglwydd,ac yn ffydd Grist,yn ddigonawl, eto prin y cawsom ni lyfreu, (yr hynn sydd drwm a gofidus gennyf) yn ein iaith ein hun, in athrawy yngwyddorion, ac ymhyncieu cyntaf y ffydd. Ac er bod y Beibl, ynawrhon yn ddiweddar, wedi i gyfieuthu, ai droi i'r Gambraeg,drwy boen a dyfal ddiwydrwydd,y gwir ardderchawg, ddyscedicaf Wr, D. Y trydydd achos.

Morgan

Morgan, (i bwy yn mae holl Gymbru
byth yn rhwymedic, nid yn vnic am ei
boen ai drau!, yn hynn, cyd bae hynny
clodfawr ac addas oddiolch, eythr hefyd
am iddaw ddwyn y cyfryw dryſawr, ſef
gwir a phurlan air duw, i oleuni yn gy-
ffredinawl i bawb, 'rhwn ydoedd or bla-
en guddiedic rhag llawer, gann adferu
eilwaith yw pharch ai braint, iaith gy-
forgolledic, ac agos wedi darfod am da-
ni) er bod hwn (meddaf) gennym, ac o
honaw i hun yn ddigonawl, i roddi cy-
morth a chyſur, ymhob gwrthwyneb, e-
to, drwy fod hwn, mal y mae gweddaidd,
a chymwys, yn gloedic yn yr Eglwyſi, lle
nid oes cyrchfa atto namyn vnwaith yn
yr wythnos (a hynny ſywaeth yn ddiog
gann lawer) mae llaweroedd yn ymddi-
faid o gyngor, yn amſer i ymweliad, ac
heb wybod pa wedd y mae yddynt i ym-
ddwyn ei hunain, yn ei hadfyd, ai cle-
di. Ac heb law hynn mae holl leoedd yr
Scrythur lan, 'rhain ydynt yn perthynu
i'r diwedd, ac i'r pwrpas hwnn, megys ar
dayn, ac yn waſcaredic, ac am hynn yn
flin ac yn anhawdd i neb, ac yn amhoſibl
i'r anyſcedic wybod, pa le y cais hwy er
i ddiddanu ai gonfforddio ei hun: Eythr
pa beth bynac a eſcrifennir drwy holl
gorff y Beibl, er y perwyl hwnn, hynny
oll

oll a gynhwysir, a grynhoir, ac a gesclir ynghyd ir vnlle, mewn trefn, ac ordr dda, yn y llyfr bychan hwn, mal y dichon gwr pann i mynno i caffael, yn hawdd ac yn ddiboen, mewn parodrwydd, i fyfyriaw arnynt, yn amser i adfyd ai ofwy.

Yrawrhon, y diffig hwnn o lyfreu sy in mysc (gida bod y Preladieit ar gwyr eglwysig hwythau yrhann fwyaf yn ddiog yn ei swydd ai galwedigaeth, heb ymarddel a phregethu ac a deongl, dirgelwch gair duw i'r bobl, eythr byw yn fudion, ac ya aflafar, fal cwn heb gyfarth, clych heb dafodeu, ne gannwyll dann lestr) yw yr achos paham y mae cymeint o anwybodaeth mewn pethau ysprydawl in mysc: mal y digwydd yn fynych, fod mewn amryw leoedd, henafgwyr briglwydion, trigeinmlwydd oed, ne fwy, mor ddeillion, ac mor anyscedic, ac na fedrant roi cyfri o bynciau yr ffydd, a'r crefydd Cristnogaidd, mwy na phlant bychain newydd eni. Esa, 56. 10. 11

Hynn yw yr achos pam y tyfodd cymeint o chwynn, gwyg, ac efrac, yngwenithfaes yr Arglwydd, sef cymeint o draddodiadae, a dynawl ddychmygion a gosodigaethae, yn yr Eglwys, yn gymysccedic a gwir, ac a phurlan air duw.

Hynn

Hyn ywyr achos pam y mae cymeint o
gauddnwiaeth, delw-addoliant, pereryn-
dod, gweddio ar Sainct meirwon, at cy-
fryw ddiwres argoelion in mysc. Hyn yw
yr achos, pa ham y mae cymeint, o falch-
der, a rhodres (a hynny heb droed) ie y-
mysc rhai gwael, iselradd. Pa saint yw
rhwysc cybydd-dod, vsuriaeth, chwant,
trais, lledrat ac ysbel, in mysc, fe wy
pawb sy yn dal ac yn craffu, ar gwrs y
byd. Puteindra, ac anlladrwydd ni bu eri
oeod fwy: glothineb, brwysc, a medd-do
sy gyffredin; casineb, llid, gelynniaeth, di
gofaint, ymrysonau, ymgyfreithiaw, ang
hariadoldeb ac anudonau sy ry aml, ac a
gos a gorescyn ein gwlad. Ac ni wn
beth yw yr achos o hyn, ond (gida bod y
Eglwyswyr mal y doedais vchod, rhain
ddylent fod yn siampl ar air a gweithre
i eraill, yn ddifraw, ac yn ddiddarbod) ei
eisieu o lyfreu, in twysaw, ac in llwybra
yn y ffordd iawn. Ond bellach i bwysa
at ddiwedd: na sid rhyfedd, na chwith
genyt, paham yr henwais y llyfr hwn y
berl, (gann mae gair Saesonaeg yw perl)
nid wyf yn gwneuthyr yn hynn ond fal y
gwnaeth syngwell om blaen, canys da
llain y trydydd pennod ar ddeg o Efan
gyl Sainct Mathew, yn y 45. ar chweche
wers a deugain, a thi a gai yr vn gair. He

la

aw hynn, oni chanlhynais, fy Awdur air ngair, na feddwl wneuthyr o honof ar i: canys weithieu (yr wyf yn cyfaddef) ni a rois lai, weithieu eraill, mi a rois fwy ac sydd yn y llyfr Saesonaeg, ond cofia eth o ddywaid y Bardd lladin *non verbum reddere verbo, Curabit fidus interpres.* my-fi a wneuthym yr hyn a dybiais fod yn oreu ar dy les.

Na feia am nad oes (y) ymhob mann flaen (n) ne (r) lle i dyle fod, canys ni lle y printiwr wneuthyr amgen, am nad oedd ganthaw cymaint ac oedd angenheidiol or llythrennae hynny: ac felly ymer y (d') yn lle y (dd) ac (l') yn lle (ll) c os damwainiodd i vn llythyren ne i ir fod allan oi le, meddwl mae Saeson i printiodd, 'rhai oeddynt anghyfarwydd yn yr iaith. cymer bob peth mewn rhann dda, a thi am anogi i, ag eraill hefyd, i gymeryd poen mewn pethau eraill o hyn allan, drosot. yn iach.

Index capit.

1 afflictiones a deo [illegible] 25
et procedere [illegible] p 5.

3 minus patimur quam meremur p [illegible]

4 castigat deus quos amat. 20 [illegible]
[illegible] 32 [illegible]

7 afflic. probant 52.

8 affl. dei et [illegible] nobilis [illegible]

9 patientia ostendit [illegible] 65

10 fidem confirmat auget 69

11 ad orandum fideles provocat [illegible]

12 ad virtutem et pietatem invitat [illegible]

13 dei [illegible] et [illegible] officio [illegible]

14 patientia obedientia [illegible]
15 [illegible] compass. c alios 105
16 sobrietate et [illegible] 109
17 [illegible] 111
18 humilitate [illegible] 117
19 ad vitae coelestis [illegible] 13[illegible]
20 [illegible] 136

Pennod cyntaf.

Pob trwbleth ag adfyd sydd yn dyfod oddiwrth ddüw



HYnny oll a gyfriaf yn adfyd, nev flinder, a'r y syd' yngwrthwyneb e wyllys, ne ddysyfiad dyn, megys, aflonyd' ruthrae y cnawd, profedigaeth y cythraul, clefyd corfforawl, cymar cildynnus, anuwiol, mewn priodas, plant anufuddgar, cymdeithion annaturiol, neu anniolchgar, colled o dda, caethiwed o ryw hen fraint, ne rydid, colliant o enw da, malais neu anfod' dynion, newyn, drudaniaeth, nodeu, rhyfel, carchar, ag angeu: ag yn y rhol honn i henwir hefyd, bob bath ar adfyd a chlefi, pwy vn bynnag fyd'o, ai perthyn attom ni ein hunain, ai att ein cyfeillion a'n cyfnesafieit, ai cyffredin, ai anghyffredin, ai dirgel a chuddi-

 edig.

edig, ai goleu ag eglur, ai rhyglyddus, ai anrhyglyddus: yn'r hol' bethau hynn (meddaf) fe ddyle bob dyn Christnogaid' ystyried yn gyntaf y gwreiddin, r achos, ar dechreuad, fal hynn: sef, y dylem ni gymryd a derbyn yn ddioddefgar pa beth bynac, y mae duw yn i anfon: erwyd' hynn sy wir, mae düw yw ein creawdr, an gwneuthurwr, a ninnau, ym waith i ddwylaw ef; e[...] yw ein brenin, ein arglwyd', an tad ag fal nad yw weddus ir crochā, fāson yn erbyn y chrochenid', felly mae 'n anweddeiddiach o lawer [...] ni, furmur, ne rwgnach yn erbyn e[...] wyllys, a barnedigaeth ein duw.

Ge.12.2.
Dihar.17.5.
Eccle.2.24.
Esa.9.16.
Esa.45.9.
Esa.64.8.
Ierem.18.6.
Ier.19.11.
Mat.19.17.
Mar.10.18.
2.Tim.2.19.

Ag er bod gorthrymder ag ing yn codi, ag yn dyfod yn fynych, drwy ddrygioni ein gelynion, annogiad y cythraul, ne drwy ryw fod' aral', etto ni ddylē ni feddwl i bod yn dyfod o ddamwain, heb oddefiad, ordeiniad ag ewyl'ys duw, onid trwy

i rag-

i ragwybodaeth, i ragordeiniad, ai Eccle. 11.14.
bwyntmāt ef: ag i ddoedyd ngym- Esa.45 4. &c
wys, yr un mod' yw, tu ac att am Ez.28.2.
ein diogelwch pwy un bynac fyddō 2. Chro.20.6
yn byw, ai mewn tlodi, ai mewn cy- Iudith.9.11.
foeth, yn y tan, ai yn y dwfr, ymyſc Iob.1.11.
yn gelynion, ai ymyſc yn cyfneſafi- Mat 10.29.
eit, canys mae duw 'n gweled, yn Luc.12.6.
gwybod, yn doſparthu, ag yn llywo Doeth.17.2.
draethu pob peth, mal i tyſtia llyfr
1. o Samuel: yr Arglwyd' ſyd' yn 1. Sam.2.6.
marwhau, ac yn bywhau, ef ſyd' yn Deut.32.39.
dwyn i wared ir bed', ac ef a ddwg 1. Sam.16.23
i fynu, &c. Tob.13.2.
A Job hefyd a deſtiolaetha yn i Iob.1 21.
druení, yr arglwyd' ai rhoes, yr ar- Iob.2. 10.
glwyd' ai dyg: a Christ i hun a ddy Eccl.5.14.
weid, na ddeſcyn un o adar y to, ar 1. Tim.6.7.
y ddayar; heb ewyllys ych tad, ie, Mat. 10.29.
mae gwallt ych penn y gyfriſe- Luc.12.6.
dig.

Gā' fod wrth hynny pob trwbleth
a blinfyd yn dyfod oddiwrth dduw
ni a ddylē ddaroſtwng ac ufud' hau

ein calonneu a'n meddylieu, iddaw ef, gann oddef iddaw ef wneuthyr a ni, fal i gwelo i sanctawl ewyllys ef fod yn iawn: pa bryd bynac gann hynny, y byd' i dowyd' stormus, niweidio ne lad' yd, a ffrwyth y ddaear, ne pān in difenwir gān dorwgddynion, gann godi gwradwyd', ne gabl in erbyn, pam y dylem in rwgnach, ne furmur yn erbyn yr elfynae ne geisio ein dial ar ein gelynnion? erwyd', oni dderchafwn ein meddylie, ag ystyriaw mae duw syd' yn go fod i law arnom, ag mae efe syd' in ceryddu, cyffelib ydym i gwn (eb ddim gwell) rhain pann i tafler a cherig, a gnoant y garreg, heb ystyr pwy sy yn taflu attynt. Ac hefyd ni ddyle neb fod yn anfoddgar, neu 'n

Mat. 25. 14. Luc. 19. 13.

anewyllyscar i ailddalu y dalent ne 'r gwystl, 'rhwn a roddwyd iddaw 'n unic er i gadw. Duw sy yn rhodd bowyd, iechyd corfforawl, nerth gwraig, plant, cymdeithion, cyfoet

anrhydedd, gallu, awdurdod, heddwch, esmwythdra, a diogelwch dros amser, tra ryngo bodd iddo ef: yr awrhon, os yr unrhyw dduw yma, a ddwg drachefn rai o'r pethau hynn, neu r cwbl, nid yw ef yn dwyn dim onid yr eiddaw i hun, ar peth yr ym yn d'ledus iddaw o honaw. Erwydd pahā, y mae yn bechod anfeidrawl, dialeddus, furmur yn erbyn ewyllys duw, neu wrthrysefla yn erbyn i farnedigaethau ef.

Pen. 2.

Pob trwbleth, gorthrymder, ag adfyd, a ddanfonir arnom ni gann ddüw, er cospedigaeth am ein pechodae.

YR awrhon beth yw'r achos sy yn peri i ddüw anfon adref hyd attom, ac ymweled a ni drwy orthrymder, ing, a gofyd? am y pwnc yma, ystyr hynn yn dda: pa beth bynac

 nac

nac a haudđod', neu a ryglyddawd' dyn, hynny oll a ddyle ef i d'er byn, ai ddioddef yn llawen, ac yn ewyllyscar: Holed, ag ecsamnied, pob dyn i hunan, oni ryglyddawd' ef i gospi, ai gerydđu gan dduw, naill ai am ryw bechod yspysol, yr hwn a wnaeth ef yn bresennol, ne am bechodau a wnaeth ef ar amseroed' eraill: yr awrhon, yr arglwyd' ein duw ni, ymhob bath ar gosbedigaeth, ac ymweliad, a ddengys ac a fanega, drefn, ne ordr i gyfiawnder ai anfeidrawl ddicllloned', a digofaint, yn er byn pechod ag anwired': can's ef a ddyweid yn yr ail gorchymyn, mysi'r arglwyd' dy dduw di, wyf d'uw eid'igus, yr hwn a ymwel a phechodae y tadau ar y plant hyd y dryded' ar bedwared' genedlaeth, os hwy am casant, &c. Ac yn y pumed llyfr o Foeses: i rhifir yr ol ddialeddau ar ol i gilyd', rhain a dywelltir ar yr anwir, ar anuwiol

Ruf. 5. 2.

Ex. 20. 5.
Ex. 34. 7.
Deut. 5. 9.
Deut. 7. 9.
Num. 14. 18.
Nah. 1. 2.

Deut. 28. 16.

ac yn y trydydd-ar-ddeg o Luc, i Luc.13.5.
doedir fal hynn, oni wellewch ych
buched' fe ach cyfergellir chwi oll.

Ag fal i gallech weled yn eglur-
ach, ac megys o flaen ych llygaid,
pa fod' y mae cospedigaeth, a phla,
yn ddyledus am bechodau, mae
duw yn gosod, ac yn rhoddi y cospe
digaeth, yn gyffelyb ir pechod, fal i
gallo'r ddau gydgordio, yn gystal
mewn ffurf a chyfflybrwyd', ac 2.Sa.11.4.
mewn llun a chyneddf: er ecsampl:
mal ir halogod' Dafyd' wraig Uri-
as felly ir halogwyd i wraged' yn- 2.Sa.11.17.
teu drachefn: ef a barod' lad', Urias, 2.Sam.13.29
ac am hynny y lladdod' i fab ynteu 2.Sa.15.11.
ei frawd ei hun, ag a gedod' gyndd 2.Sa.16.6.
rygyd', a digased' yn erbyn ei dad, 2.Sa.17.1.
gann i hel ai ymlid allã oi deyrnas, 2 Sa.20.1.
fal na ddichon neb ddatgan yn ddi 2 Sa.24.15.
gonol, y dialed', ar trueni, 'rhain, a 1.Chro.22.8
fu ar ddafyd', ai bobl, am y cwyly-
ddgar anwired', ar ffieidd-dra,
rhain a wnathe ef.

Y rhawdron ystyrria, a ffwysa, megys mewn cowir gloriau, yr union-der yr hwn y mae duw or naill du yn i erfyn arnom, a hol' gwyr ein bu-
Doeth.2.23. Eccles.17.2. ched' nineu, or tu aral': pe i buase hi-liogaeth dyn, yn ufu' dol i gyfreithie duw, ac heb ymgogi oddiarnynt, e fu-asse yn ollawl yn gwbl ddedwyd', fendigedig, yn drugowyd': ag ni ly-grase, ag ni wyfase ymaith, fal ffrwych, ne lyssieu y meusyd': euthr ef a yscogod', ag a gwympod' y tro cyntaf or dechreuad: yn rhieni, 'an henafieid cyntaf, a ddifrawasont, ag a wnaethont yn ddiystyr, o orch-mynnion duw, ac felly nineu trwy i cwymp hwy, ydym lygredic, a chlwyfedig, an holl reswm, synn-wyr, an deuall a ddallwyd, an ewyl-ys a wenwynwyd: i ddym yn cly-wed, ag yn cael ynom ein hun, an-wireddus wnniae, a thrachwantau gan geisio ein chwant, an pleser yn y byd hwnn, yn erbyn sancteiddio-

ai

air duw: ac ſal pe i bae i aſſyn ym-
wiſco ai ad'urnio i hun mewn croen
llew, a mynnu bod yn llew, etto i
hir gluſtieu ſythion yn bryſſur
ai datguddie, ag ai gwnae ef yn hy-
nod: yn yr vn mod', er i nineu yn
trwſiadu, an goſod ein hunain allan,
ag y chydig brydferth, a gogonedd-
us weithredoed', fal na ddichon neb
d'oedyd na bom ni yn gwbl wirion,
ag yn ddifeius mewn llawer o byn-
ciau, er hynn i gyd, mae y nom ga-
loneu budron, aflan, anwireddus, yn
llawn diofalwch, a dirmig o dduw,
gwedi ein rhoddi yn ollawl, in caru
ein hunain a phob difrawch. yr awr
hon, os ni a ymgylchir, ne os ym-
welir a ni, a chlefyd, tlodi, rhyfel, ne
gyfryſedd, ni ddylem ni roddi y bai
o hynn, vn, ar ſwyd'og, arall ar bre-
gethwr ne wenidog gair duw, ne ar
yffyd' ar crefyd', ne ar yr elfynab ar
ſer, ne ar dduw i hun, fal pe i bae vn
o rhain yn achos or cyfryw ddia-

 leddau.

leddau: megys ag na ddyle neb fei aw ar y Physygwr, (fal pe i bae ef yr unic achos, o ddwfrhaintieu llygredig o fewn y corff,) er i fod ef yn i dwyn ac yn i gyrru allā or cnawd fal i galler yn eglur i gweled, eithr drwg ymwreddiad, ac anghymedrawl ddeiad y gwr i hun, yw'r iawn achos, ar gwreiddyn o hynn, felly ni ddylem ninneu roddi bai ar dduw, o dēfyn ef arnom ni, drifswch, penyd, a thrwbleth, eythr medwl fod hynn, yn feddeginiaeth, ac yn help addas, in pechodae ni: a ffob dyn a ddyle roddi'r achos o hynn, arno i hun, ai bechodau i hun, ac nid ar ddim arall. Ar ecsampl hwnn a ddarfu ir gwyr sanctaidd', ar duwiol henafieit yn y cynfyd, i ddāgos, i ddatclario, ai adel i ninneu, gān roddi 'r achos bob amser, o orthrwinderae, ac or cyfryw orthrwm ofydiae, 'rhain a ddigwyddent yn i hāser hwy, ar i pechodae i hunain:

mal i llefarod Daniel y prophwyd: Dani.9.5.
o herwyd ein pechodae ni, ag anwi
reddau ein tadau ni, i dinistriwyd
Caersalē ai phobl gān y sawl syd
amgylch ogylch iddi: erwyd paham
ny ni a ddylē wylo, ag alaru, a chrio
allā, och och, 'n hyttrach 'n erbyn ein
pechodau, a'n anwireddau ein hu-
nain, nag yn erbyn y gwendid, y cle
fyd, ne 'r adfyd arall ar trwbleth, Bar.1.13.
'rhain i ddym ni yn i diodef, o her
wyd ein pechodae. Cans os wylē
ne os tristaē eb fesur, a rheswm, pan
fo duw ddim ond gwneuthur cyfi-
awnder, ag uniondeb ar i elyniō, pa
beth fydde hyn ond bod yn anfod
lō i gyfiawnder duw a charu y peth
'rhwn y mae ef 'n i gasau? a beth yw
hyn, eythr gwir gyfiāwder, a daoni
duw, pann fo ef yn ceryddu, yn mar
thyru, yn darostwng, ac yn gores-
cyn 'n ollawl ynō, y gelyniō pennaf
iddaw ef, a ninneu, hynny yw, ein
pechodeu ni? Gann hynny tristhau,
ag

ag alaru heb fesur ynghanol ein ing an trwblerh, yw, yn dangos ein hunain yn gymdeithion i bechod, yr hwnn yw y gelyn mwyaf i ddduw, a ninneu: erwydd' paham, ni a ddylem yn hytrach foliannu duw, ac ymlawenychu yn ddirfawr, nid yn unic 'n ein adfyd an blinder, ond yng hyfiawn, a grasslawn ewyllys duw, cyfion (meddaf) am iddaw gospi pechod, grasslawn, a thrigarog, am iddaw i gospi yn esmwythach o lawer, nac o gyfiawnder yr heuddasom.

Pen. 3.

Mae ein oll orthrymderae an blinfyd, yn llai, ac yn esmwythach o lawer, nag i mae ein pechodae ni yn heuddu.

PA bryd bynac y byddo gwr yn rhoddi yscafn, ac esmwyth gospedigaeth, ar un a haeddod' a fae drymach, y mae 'n rheswm iddaw i ddoi-

ddioddef, ai dderbyn drwy ymynedd: mal, vn a fo lladdwr celain, os caiff ef ddiainc er i guro, ne i fflangellu allan o'r dinas neu'r dref, mae efyn cymryd hynny mewn rhann dda, gann iddaw wybod yn dda ddigon, i fod yn hauddu crog.

Y sancteidd-ferch Iudith, a dybiai fod holl gospedigaethae trancedig, yn esmwythach, ac yn llai nac yw ein pechodae an anwiredd au ni. Erwydd paham, o goddefi dlodi, glefyd, ne ryw wrthwyneb arall ystyria, a meddwl ynot dy hun fall hynn. Iud.8.17.

Dy amryw bechodae a haeddasont fil filioedd o weithiau, mwy dialeddus cospedigaeth, trymach dolur, mwy ofnadwy rhyfeloedd, carchar mwy aneirif i oddef: ac pe i doe oll flinderoedd y byd, ar vnwaith yn vn penclwr arnat, etto rhyglyddaist waeth o lawer. Ti a haeddaist yn dda oddef gwbl allu a

chreulondeb diawl, a dānedigaeth tragwyddol,'rhain er hynny a attaliodd, ac a dynnod' duw oddiwrth yt, oi wir drigared', yn unic er mwyn Iesu Christ: Hefyd, y neb a gafes bob amser bethau da, llwyddiannus, ni ddyl ef ryfeddu, er derbyn o honaw weithiau, anffawd, ac adfyd: ie, plant y byd hwnn a ddoedant'n ddiharebawl.

Ni wn ddyll iawn ddehellwch
i ddewr draw na ddaw awr drwch.

Prawrhon, mor drigarog yw duw, ac na ad ef neb heb i obrwyo a rhyw wobr, ne arall, yn gystal o flaē gorthrymder, ac wedi, ie, ac ynghanol ein blinfyd, mae ef yn rhoddi llawer rhod' ardderchawg, ac arbenigion ddonieu, yn gystal ar les ein eneidieu ni a'n cyrff, ysprydawl a chorfforawl.

Ac am i ddonieu ef o flaen adfyd, a gorthrymder, mae i ni siampl odi-
Iob. 2. 10 dog o flaen ein llygaid, o Iob, gann

ddoe-

ddrwg: gan i ni dderbyn cymeint o lesaut, oddi-ar law Dduw, pam na fyddwn ni fodlon hefyd, i dderbyn y drwg? Hefyd Plinius yr ail, gwr cenedlig, wrth ddiddanu, vn oi gymdeithion a fuase farw i anwylwraig ...rion, ymhlith pethau eraill, a escrifenna fal hynn.

Hyn' a ddyle fod yn ddiddanwch mawr ici (sef) cael, a mwynhau o honot, berl mor wrthfawr, cyd o ā-ser: can's pedair blyned' a deugain y bu hi gida thi, ac ni bu erioed ymrafael, ymsennu, nac ymrysson rhyngoch: ar naill, ni ddigiod' y llall, eried: ie, ond yr awrhon ti a ddoedi, mae o hynny y mae yn drymach ac yn anawss genyt fod hebddi, am i chwi fyw ynghyd, cyd o amser, mor heddychol: can's pryssur irr anghofwn y pleser', ar cymwynase, rhain ni chowsson 'ond tros fyrr o amser. Ond i atteb hynn ymagochel, a gwilia, rhag dy gael

yn

yn aniolchgar, os yſtyri yn unic pa beth a gollaiſt, heb feddwl pa hyd cefaiſt hi yw mwynhau.

Ag hefyd mewn amſer ac yng-hanol ein blinfid, 'an trwbleth, mae duw yn rhoddi i ni ras i yſtyried, dawnus, a llwyddiannus bethau e-raill, 'rhain ſy genym a rhain ydd-ym yn oeſtadol yn i mwynhau: fal drwy goffadwriaeth ag yſtyrieth o rheini, ir eſmwytheir, y lleiheir, ag ir anchwanegir ein goſid 'an poen.

Er eſampl: bwrw dy fod yn wann, yn ddirym, ac yn wr clwy-fus o gorff, etto fe roddes duw i gyfoeth yn ddigonol, a da yn rhe-ſymol ichgadw: ne os oes arna brinder ag eiſieu da, a chyfoeth, ni oes arnat er hynn ddiffig o iechyd corfforawl.

Yrawrhon oni oſodwn y naill o hyn yn erbyn y llall, tebig ym blant bychain, 'rhain os damwain wr ychydig rwyſtrs, ne dorri ar

chwa

chareu, ne ddwyn rhywbeth oddiar-
nynt, yn ebrwydd, hwy a esclusant y
cwbl, ac a gwympant i wylo: felly i
byddem ninne debygol i wneuthur,
pann ddigwydd rhyw anffawd ini, o
digiwn ne o byddwn anfodlon, heb
gennym na chwant, nac ewllys i
gymryd ac i fwynhau, y da rhwnn
syd gennym.

Bwrw dy fod n ymddifad, ne 'n
ysbailedig, o bob diddanwch corffo-
rawl, etto yn dy ddwyfron ath galō,
mae genyt wybodaeth o Iesu
Christ, yr hwn, ath ryddhaod di o
uffern, ac o ddamnedigaeth, rhain
oeddynt ddledus iti: i bwy vn, nid
yw r ol' ddialeddae ar y ddayar fwy
mewn cyfflybrwydd, nag yw vn def
nyn o ddwfr wrth 'r oll for.

Heb law hynn hefyd, trwy ffydd i
ddwyd yn clywed ynot, obaith, a sicr
wydd o lawenydd didranc, tragwydd-
ol, Fal i scrifenna S. Paul o hynn, Ruf. 8. 18.
gan ddoedyd: barnu irr wyf nad yw
gosi-

Luc. 15. 19. gwsidiae 'r amser hynn, yw cystadlu
irr gogoniant, a ddangosir i ni: mae
i ni siampl o hyn, o flaen ein llygaid,
or mab treilgar, anobeithiedic, y
hwn, ai vfuddhaod', ac ai darostyn-
god' i hunan, fal na ddysyfai ef mwy
ach i gyfri yn lle mab, eythr i droi
Io. 8. 12. weithiaw, fal gwenidog ne was cy
flog, os yn unic, e gae aros, ynhuy ei
dad. Felly beth bynag y mae duw
yn i anfon, ni a ddylem i gymryd,
yn ddioddefgar, os yn unic i cenad-
heir, i ni breswylio ynhuy dduw, yn
y nefoed', gidac ef'n bragwyddawl.
Yr awrhon, o tybia neb fal hynn,
nid yw duw yn ceryddu eraill, a
wnaethont anwireddau mwy dia-
leddus, a chymeint o blae echrys, a
doluriae, ag i cerydda ef ni: amar-
chus, ag anghristnogaid' yw ei fed-
dwl ef o dduw: can's beth os wyd
di dy hun yn fwy anwireddus, na
neb arall? Ond bwrw fod eraill
yn byw yn fwy anwireddus, ac

yn

yn waethna thi, a wyddost di pa wed' y mae duw, yn i cospi hwy? Mwyaf, a gwaethaf poen, a chosb, a ddichon fod, yw, cystud' oddimewn, a dirgel gosbedigaethae y meddwl, rhain ni welir ar golwg oddiallan. Ag, er na byddo vn tristwch, na dialed' ysprysol yn eglur yn ymddāgos iti, ag er nas gwyddost ba beth y mae duw yn i feddwl yn hynny, etto ti a ddylit, (mal plentyn yw dad) roddi iddaw ef anrhyded', clod, a moliant, am iddaw ef ddosparthu pob peth a chyfryw ddoethineb, ac mewn cyfryw drefn ac ordr: a phann welo ef i amser, ef a obrwya, ag a ystyria'r holl gyfryw bethae, 'rhain a wnaethwyd ymlaen llaw, yn erbyn i gyfion, ai vnion gyfreithiau ef, megys ac ir haeddasont.

Pen.

Pen. 4.

Pob bath ar adfyd a ddanfonir, ac sydd yn dyfod oddiwrth dduw, o feddwl cariadus, tadawl tuac attom.

NId yw ddigon i ni wybod fod pob bath ar flinfyd, yn dyfod drwy ymyned', a dioddefiad duw, oi gyfiawn farnedigaeth ef am ein pechodae ni: erwyd' yn eithawed' y profedigaethae, ag yn yr angenion mwyaf, fal hynn i bydd y meddylie, ar dychmygion cyntaf ynom. Yn gymenir ac i mi yn ddialeddus ddigio duw, drwy fymhechodau, am hynny i llidiod' ef wrthyf, ag aeth yn elynn imi, ac a droes i ffafr od' iwrthyf: ac oni byd' i ni ragflaenu, a thaflu ymaith mewn amser, y cyfryw wag feddylieu, a bwriadae ofer, hwy a wnant i ni ymwrthod, ac ymadael a duw, gann i gasau ef, a gryngan yw erbyn; megys i gwnaeth Sawl,'rhwn a gwbl feddyliod'

ynthaw

yntho i hun, fod duw yn i geryddu ef, o lid a digofaint yw erbyn: am hynny calon Sawl a drod' oddiwrth dduw, ac ai gadawod' ef, ac a ddechreuod' i gasau ai ffieiddio ef, megys vn creulon. Gan hynny mae y rhybyd' hwnn hefyd yn perthynu, irr cyfryw byncian, in dyscwyd hyd hynn: sef, y dylent ni dderbyn yn ddiolchgar beth bynag i mae duw o feddwl tadawl, cariadus, ac nid o ddim digofaint tu-ac attom, yn i anfon ini, pwy vn bynac fyddo ai hyfrydlawn, ai dialeddus i'r cnawd. Yr arglwyd' dduw, a ymwel a ni ac amserawl, a thrancedic boenau, o dadawl a gofalus galon, rhon sy ganthaw tu-ac attom, ac nid o ddigased' a digllone d' in erbyn. Canys duw a gymodir, ac a gytunir a ffob Cristion drwy i fab, ac ef ai car hwy o ddyfnder, ac o eigiawn ei galon: erwyd' paham pa fut bynac, ne pa fod' bynac, i mae duw

Tob. 12.
Iob. 5. 17. 11 &c.
Dihar. 3. 12.
Hose. 6. 1.
1. Pet. 4. 9.
Iaco. 1. 2.
Hebr. 12. 1. 2. &c.
gwel. 3. 19.

duw in ceryddu, ac in cospi, nid yw ef yn gwneuthur hynny o gasineb arnom, fal pe i gwrthode ef ni, gan ein taflu ymaith yn ollawl, eythr oi fawr dosturi, a thrigared, er 'n dervyn fal ei blant, er yn cadw, an ymddiffyn, er yn meithrin an arfer, er yn vfuddhau, a'n darostwng, er yn fymbylu, a'n gwthio rhag ein blae, fal y byddai i weddi, ffyd', ofn duw, vfud'-dod, a rhinweddae erail' dyfu, a chynyddu ynō, er anrhydedd' iddaw ef, ag iechydwriaeth i ninne. Testiolaethae o hynu: yn gyntaf Ezechiel. 33.

Ezech. 33. 11. Cynn wiried mae byw fi med' yr arglwyd', nid oes gennyf bleser ymarwolaeth pechadur eythr troi o honaw, a bod yn gadwedig. Yma mae duw yn tyngu, nad yw ef yn cosbi er 'n difa, ond er yn llithio, yn denu, a'n dwyn i edifeirwch.

Dihar. 3. 12. Hefyd, y fawl a gar duw, ef ai cerydda, ac er hynny mae ganthe bleser

ſer ynthynt megys tad yn i blentyn. Hynn ſy' deſtiolaeth eglur, nad yw adfyd, trwbleth, a blinfyd, yn arwyddion o lid, a digllonedd' duw, eythr yn hytrach arwyddion ſicr, oi rad, oi drigaredd', ai ffafr, drwy bwy rai, y mae duw yn ſicr-hau i ni, i drigarog ewyllys, ai dadawl galon, tuac attom. Drachefn fe a ddoedir, ni a wyddō fod pob peth 'n cydweithio irr hynn goreu, irr ſawl a garant dduw. Ac hefyd, fe a'n cosbir, ac a'n ceryddir gann yr arglwydd, rhac yn barnu yn euog gida'r byd. Rhu.8.28. i.Cor.11.32.

Hynn hefyd i gyd a greſſi, ag a yſtyrri drwy holl ſtori Job.

Yn yr un modd', Joſeph a werthwyd gā ei frodur, ac a rodd'wyd yn-wylaw'r anffyddloneit, o dwyll, a chenfigen, drwy annog, a chyngor y cythraul: eythr y ffyddlonaf dduw a droes hynn er budd', a lles, yn gyſtal i duy yr Iſrael, ac i holl frenhiniaeth yr Aipht. Cans felly y darfu i Gen.37.28. Act.7.9.10.11.&c.

Joſeph

Joseph i hun ddeongl hynny.

Hefyd eglwys Ghrist, (sef yw hynny) y gynelleidfa Ghristnogaid' yr hon yw priodasferch crist, sy raid iddi ddioddef adfyd a blinder, ar y ddaear honn, ond yn gymeint a'bod düw yn hoffi priodasferch i anwyl fab, ('r honn yw cynelleidfa y rhai ffyddlon) mae ef yn bwriadu i chon-ffordio hi, a bod yn ddaionus iddi; gann hynny, megys ag i cyfodod' ef i fynyd' o angau, Grist i gwr priod, i ffenn, ai brenin, felly hefyd i gwa-red ef hithau o bob adfyd, gān roddi iddi lawenychol fuddigoliaeth, ar bob peth syd' yw gorthrymu: eythr cyfryw yw gwaeled', a gwendid n golwc ni, ac nas gallwn graffu, a gweled drigarog, a charedigol dda-ioni düw, dann i wialen ai scwrs.

Pa bryd bynac gann hynny i'r ymwelir a ni a blinder ne adfyd, yn wir ein dled yw, yn gyntaf gydna-bod a chofio ein pechodae, ac ystyri

aw

aw hefyd iau, a gefynnae diawl am bechod, ond ni ddylem ni farnu, na meddwl or cyfryw flinderoed', yn ol meddwl, ac ewyllys diawl (rhwn o frad, a meddwl maleisus, tu-ac attom, ni chais ddim oll, onid dinistriad ollawl, a chyfan wradwyd' pob rhyw ddyn) ond yn hytrach ni a ddylem farnu ac ystyriaw or oll flinderoed' ar gofydiau hynny, ar ol meddwl duw, (ac felly i derbyn) rhwnn oi fawr ddaioni, sy'n i troi hwy oll, er bud' a llesant i ni, gann weithiaw drwydddynt hwy, ein perffaith iechydwriaeth ni.

A phle bynac ni ddichon y galon, dderbyn y diddanwch hwnn (sef bod duw yn ceryddu, ac yn cosbi, o wir drigarog ffafr, a chariad arnō) yna yn angenrheidiol, mae'r profedigaeth, ar dialed' yn drymach, ac yn fwy, ar dyn hwnnw or diwed' a gwympa, ac a syrth i ddirfawr anobaith.

Pen. 5.

Duw yn vnic er mwyn Iesu Grist, a hynny oi fawr drigaredd, cariad, a ffafr, sydd in cosbi ac in ceryddu.

YR iawn ar vnic achos, o drigarog a thadawl wllys duw, yw, yn, vnic rhyglyddiadae Iesu Grist, at hwy vn, ni a ddylem dderchafu ein calonnau tuar nefoed', gann fe- ddwl, ac ystyriaw yn ein meddyli- eu, yn oestadol, fal hynn: yn pechod a'n anwired' ni, sy 'n haeddu newyn drudaniaeth, rhyfel, nodeu, a ffob rhyw blaee eraill: yr awrhon, Crist a wnaeth ariansiwm a chyflawn da- ledigaeth, am yr oll bechodae rhain a wnaethō ni, ef a ailbrynnod', a da- lod', a ddigostod', ac a wnaeth n ddi- neweidiol ins, yn oll gamweddau, drwy i chwerw angeu, i fuddygoli- aethae, ai ailgyfodiad, ac a ddigono- lod' gyfiawnder ei dad fal i testiol- aetha

Es.53.4.5. &c.
Io.1.29.
Io 3.16.
Ruf.5.6.7.
Ruf 6.7.
Ruf.8.1.
2.Cor.5.7
Eph.2.5.

aetha S. Paul, yn gonffordduus, gān ddoedyd: Iesu Grist a wnaethwyd gān dduw i ni yn ddoethineb, a chyfiawnder, a sancteiddrwydd, a ffrynedigaeth: felly os blinderae an gorthrymāt o erwydd ein pechodae, a'n oll bechodae gwedi i digonoli, ai difgosti, trwy angeu a dioddefaint Iesu, mae'n angērhaid addef, fod yn ol' flinderoed' yn ddinewidiol ini, ac na allant ein briwo: ie, Crist trwy i ddioddefaint ai adfyd, a fendithiod' ac a sancteiddiod' bob rhyw adfyd, fal i gnafnaethent, ac fal i byddent, i oll wir ffyddloniett Gristnogion, yn lle bud' gwyrthfawr, drwy ordeiniad a rhagweledlad duw i nefawl dad: ef yw y gwir Physygwr, 'rhwnn pann ddehallod', fod adfyd yn arswydus gennym, a gymerod' arnaw i hun, ddioddef pob bach ar adfyd, blinderoed', a gofydiae mwyaf dialeddus, er rhoddi, a golod terfyn, a ffenn, in 1. Cor. 1. 30.

 blin-

blinderoed' nineu, ac hefyd i bendithiaw, ai sancteiddiaw, ie, a gwneuthur angeu i hun yn brydferth ac yn felus i ni. Ohna allem deimlaw, gweled, ac ystyriaw, ewyllys, a meddwl Crist, pan oed' ef yn ewyllysgar yn dioddef ar y groes, gann oddef i d' ryllio, ai ferthyru mor greulawn, ag mor boenus, er vn achos, ond fal i galle ef yn ollawl ddirymmio oll nerth ein pechodeu ni, gorthrymder ac angeu, ac hefyd dinistrio vffern, fal na alle vn o honynt hyth wneuthur niwed ini. ymhellach (o) na allem ystyriaw pa wed' i chwaethod', ac irr yfod' ef or cwpan on blaen ni, fal y gallem nineu, rhain ym weinied, yfed a chwaethu 'n well o honaw ar i ol ef, yn gymeint ac na ddamweiniod' iddaw ef ddim drwg o hynny, eythr yn'y mann cyfodi o honaw o angeu: oh nas galle wybodaeth, a chyffadwriaeth o hyn aros yn iawn ymoestad yn ein ca-

lonnae

lonnae ni, a llewychu bob amser om blaen ni: yno bych ni syfllem, ac ni ddyffygiem, ac ni byddem anobeithiol, o drigared', a daioni duw, er i ni ymlad' mewn bateloed' enbydus, a mwyaf dialeddus: ac er i ni 'n hunain brofi a theimlaw, y cyfiawn gosbedigaethae, haeddedic am ein pechodae ni. yno y gallem sefyll 'n wrawl, ac yn nerthawg yn erbyn pyrth vffern, a phob bath ar dristyd, trymder, profedigaeth, ofn, ac anffawd, yn ollawl a ddiserthid ac a lyncid i fyny.

A hynny yw y diddanwch pennaf, a mwyaf, a glowyd, ne a ddarllenwid o honaw, er dechreuad y byd. duw i hun yn vnic a ddichon (os ystyriwn o honaw, ac os gafael wn arnaw, mal y dylem) blannu, ac impio, y cyfryw feddwl ynom, fal y gallom nid yn vnic na christhaom, eythr gorfoleddu a llawenychu yn ein blinder a'n cledi:, fal i gorfole-

ddod' S. Paul yn odiaeth lle i dy-
waid ef: os duw nid arbedod', i vnic
genedig fab, eythr i roddi ef drossō
ni oll, pa wed'na ryd' ef i ni bob peth
gidac ef? Beth gann hynny a wna-
wn a'n ofer ofn, a'n gofal, a'n trist-
wch, a'n trymder? Erwyd' pa ham,
o byddwn Gristnogion, rhaid i ni 'n
ddiolchgar osod allan, ganmol , a
mawrygu 'r ardderchawg , anfei-
drawl, a nefawl ras, a daoni duw,
a'r vchel ddiddanwch rhwn sy gen-
nym drwy Grist. cans pawb oll ar
y syd' ddeffygiawl mewn gwybo-
daeth, or daioni rhwnn yddym yn i
gael trwy Grist, ac a wrthodant y
mawr, ar ardderchawc drysor hwn,
pwy vn bynac fyddāt, ai Iddewō, ai
Cēhedloed', ai Mahometiaid, ai Pa
byddion, ni fedrant roddi gwir, per-
ffaith, ac iachusawl gyssur, iddynt i
hun, nac i eraill chwaith, mewn ofn-
awg, ac amheus gydwybod , neu
mewn adfyd a chledi arall. Tra ga-

ffont heddwch a llonydd wch, heb glowed nac ystyr ddim poenau angeu, nac cyfryw flinder, a chledi, hwy a allant fyw yn ddiogel, ac yn hyderus, heb ofn: eythr pann ddelo'r awr ddrwg ynwaith, ac ychydic dro ar y towyd', mal naill ai trwy weledigaeth, ac eglurhad or gyfraith i clywant, ac i dehallant, ddigofaint duw tu-ac attynt, ne drwy ystys ac eglur arwyddion, a chyhoeddiad o gyfiawn gospedigaeth a dial duw, ne drwy brofiad, o ryw blaee presennol, nes i cynhyrfu yn ddyfyfyd gan ofn, yna i ol' ddoethineb, ei cyngor, ai synnwyr i wrth nebu y cyfryw ddrwg, a ballant yn ollawl, ac ai somant 'n ddiatreg: yna i ffoant oddiwrth dduw, ac ni wyddant i ba le i rhedant, ne ple ir ymguddiant: ac er bychaned fyddo i profedigaeth, ai plaee, ei caloneu er hynny a gynhyrfir, ac a ofnir mor ddirfawr (mal i tyfti a

Lev.26.6. Dihar.28.1. Moeses) gann chwthiad deilien, ac yr i bae dyrwod taran.

Ac ir cyfryw ddynion, oll gwyrs i bywyd or blaen, i oll lafur, ai trafael, ai gogliud oll, yn ei argoeledig wasnaethu duw, ac yn ei dirwestawl fuchedd, yn ollawl a gollir ac a fernir yn ofer: a ffa ddiddanwch bynac a geisiasant heb Grist, nid yw ddim oll, ond chwanegiad oi dialeddus ofn, a brise, yw tywys i anobaith ac felly heb law yr Arglwydd Iesu, nid oes dim diddanwch, help na chymorth i edrych amdano.

Pen. 6.

Tebygoliaethae, a chyfflybon yn dangos, pa fodd y mae duw in cospi, ac in ceryddu, o fawr gariad, trigaredd, a ffafr tuac attoni.

PAn fo 'r ollalluog dduw, er rhyglyddiadae

glyddiadae i fab, nid o feddwl di-gofus, ne o ddigter, eythr o ewyllys da, ac o galon gariadlawn tu-ac at-tom, in cospi ac in ceryddu, ef a ellir i gyfflybu, ai alw'n debyg, i dad, i fam, i feistr, i physygwr, i lafur-wr, i Eurwr, ac ir cyffelyb, fal hynn.

Mal y mae tad naturiol, yn gyn-taf yn dyscu i anwyl blentyn, ac yn ail yn i rybuddio, ac yn i gynghori, ac yn y diwedd yn i geryddu, felly, y mae y tad tragwyddol, yn prost pob ffordd' gida nineu, rhai ym gwedi cynyddu mewn oedran, ac etto, ifanic a meddalion yn y ffyd'. yn gyntaf, ef a ddysc i ni ei ewyllys, drwy bregethiad ei air, ac a'n rhy-buddia. ywrawrhon os nyni nis canlhynwn ef, yno ef ychydic a'n tur, ac a'n chwystringa ni a gwia-len, fal weithieu a thlodi, weithieu a chlefydon, ne ddoluriau, ne ryw wrthwyneb arall, rhwn nis dylid

 i farnu

ryw wrthwyneb arall’, rhwn nis dy-
lid i farnu, nai alw, ’n ddim oll, ond
gwialen ne fachgennaidd’ gospedi-
gaeth. Os y cyfryw wielyn ni hel-
pia, ac ni wnaiff ddim lles, yno i cy-
mer y tad ffonn, ne fflangell, mal os
i fab a bēgleda, ne a dreilia i ariā, ai
ſmōnaeth yn drythyllgar, ac yn a-
fradlon, mewn ſocandai ynghyd a
a chymdeithion diffaith, yna y daw
y tad, ac ai tynn erbyn gwallt i
benn, ef a twym i draed, ai ddwy-
law, ac ai cerydda nes dryllio i eſ-
tyrn, ac ai denfyn i garchar, ne ef ai
gyrr ymaith ymhell oi wlad. Yn
r un mod’ pan elom ninneu ’n gildyn-
us, ’n afrowiog, ac yn ddibris ge-
genym am eirieu, a gwialennodau,
yna i denfyn duw attom blae try-
mach, a chyffredinolach: mal, no-
deu, diudaniaeth, cyfryſſed’, cyndd-
ryged’, trychineb gann dan, llaw-
ruddiad, rhyfel, colliant or druw-
chaſiech, fal pan’ in dalier gā ein ge-
lyni.

lynion, yn caethgludo yn garcharwyr. Hynny ol' a wnaiff ef, er 'n osiui a'n dofi ni ac niegys wrth nerth er yn cymell, a'n gwchio i edifeirwch, a gwellāt buched'. Yr awrhō, gwir yw, fod yn erbyn ewyllys y tad, fal hyn geryddu i fab, namyn gwneuthur id' aw cymeint o les, ac a alle ef fwyaf: eythr y plant, trwy oddefgatwch a gorniod niwytheu, a ant yn anhywed', ac a angofiant bob dysc. Ac am hynny mae ef yn i ceryddu, etto ynghanol i ddig ai geryd', i dadawl galō a ymddēgys: fal, o rhyd' ef i blentyn ymaith oddiwrtho, am tyw fai dialeddus, etto ni enfyn ef ddim o honaw, 'n ollawl yn ddigyssur, eythr ef a ryd' iddaw beth dillad, a geirieu conffordus, ac felly ef ai enfyn nid i aros dros byth allā oi wlad ond er i alw ef adref drachefn, pann i gostynger, ir vfuddhaer; ac i gwellhaer y-chydic: a hynn yn unic yw meddwl y

tad, sef, tynnu ymaith, a chadw oddiwrth ei etifedd' 'r oll gyfryw bethau a fyddēt eniweidiol iddaw, ne ai dinistreint, ac nid gwrthod, a chaslu ymaith i blentyn dros byth: felly yn ddiau, pann fo duw 'n anfon trueni, a blinfyd ar ein gyddfe nineu, mae rued', a chalon dadawl, dann i wialē yn guddiedic: can's naturiol, ag iawn briodoldeb duw, yw, bod yn gariadlawn ac yn garedigawl, i iachau, cynorthwyo, a gwneuthur dai oni ym blant, sef, i hiliogaeth dyn.

Ge.2.15. Adda ag Efa pan i cyfleuwyd ym-
haradwys, oni chynyscaeddwyd
Gen.3.6. hwy yn ddigonawl, a ffob peth da:
Eccle 15.14. eto ni fedrēt hwy (ac ni fedr un o ho-
nō ni) i ordrio ai iawn arferu: eythr cyn gynted ac i caffom bob peth a chwenychom heb arnom eisieu dim ar a fedrwn i ddyfysu, yna yn ddisymwch irr awn yn ddifraw ac yn ddiddarbodus: ac am hynny i dēfyn duw i ni ddrwg, fal i gallo wneu-

thur

chur i ni Adda, ac etto ynghanol ein oll flinfyd, a'n cospedigaeth, ef a ennyn bech esmwythdra, di-ddāwch, a chyrwrzch: ac ni a al'wn gymryd siā pl, on rhagddoeedevig rieni, Adda ag Efa: pann ydoed' duw yn cwbl fwriadu, ac ar acl i bwrw ai taflu allā o Baradwys, yn gyntaf ef ai dilladod', rag rhew, ac angerd' y towyd', Gen.3.15.
ac ef ai diddanod' hefyd a gaddewid oz bendigedic had, 'rhwn a wnaiff bob adfyd, nid yn vnic yn esmwyth, ac yn ddinewidiol ini, eythz yn iachus ac yn fuddiol hefyd.

Ar natur honnni newidia'r anewidiol dduw byth, eythz ef ai ceidw yn oestadol, ni wzthyd ef ny ni yn gwbl, ond yn vnic ef a oddef i ni ferwino ychydig, am y pechodae a wnaethom, ac felly ef an ceidw rhag pechu drachefn, rhag digwyddo o honom, i enbydzwyd' poenau tragwyddol. 1.Cor 11.32.

Heb law hynn, bwzier fod i wyr

ddau

ddau o feibion, vn drwg anwiredd-
us, ac etto i dad ni chosbiff, ac ni
cheryddiff ddim o honaw, ar llall a
godir i fyny, ac yn brysur a gerydd-
ir am y bai lleiaf: beth yw'r achos
o hyn, ond bod y tad yn ddiobaith,
o wellhad y naill vn amser, ai fod
n bwriadu am hyny i ddietifeddu
ef'n llwyr ac na roddo ef ddim idd-
aw? Can's yr etifeddiaeth yn gwbl
a berthyn i'r mab a geryddir, ac a
gosbir: etto y plentyn truan a gos-
bir fal hynn, a dybia yn i feddwl, fod
ei frawd yn ddedwydd'ach, nac yw
ef, am na churir, ac am na cheryddir
ef vn amser. Ac am hyny, ef a ochnei
deidia, ac a gwynfan wrthaw i hun
ag a fed'wl fal hyn: wele, fymrawd
a wnaiff yr hynn a ewyllysiff yn er-
byn ewyllys fynhad, ac heb i gen-
nad, ac ni ryd' fynhad air hagr idd-
aw: ef a ad id'aw gael ei bleser a rho
dio lle i mynno, ond tuac att yfi nid
edrych ef vnwaith yn rhowiog onid
bod

byth ni fynhep, os edrychaf vnwaith ar gam. Llyma i gelli weled ffolineb, ac anwybodaeth y plentyn, yr hwnn a ystyr yn vnic y gofyd presennol, heb gofio nac ystyr vn amser yr hynn a gedwir iddaw ef yn istor.

Cyffelyb feddylieu a bwriadau, a fyd' mewn cristnogion, pann oddefont slinder lawer, a gweled pa fod' or tu arall y llwydda'r annuwiol ar anwir. Hwy a ddylent yn hytrach i strio a hunain, gann gofio yr etifed'iaeth'rhon' a gedwir yddynt hwy n y nefoed', ac a berthyn yd'yn hwy megys i blant da rhinweddol: am y llaill'rhain a lammant, ac a neidiant, a wnant yn llawen, ac a gymerant ei pleser prawron dros ennyd, hwy a ddeolir or etifeddiaeth yn dragowyd', megys dieithrieit, ac ni chant, rann na chyd, o honi. A hynn a brwfia Sanct Pawl, pann ddywaid ef: Fy mab, nac esclusa gosbedigaeth yr arglwydd, ac Heb. 12. 5. 6, 7. &c.

na

na lausa pann ith gerydder di gan-
tho: canys y neb a garo 'r arglwyd'
ef ai cosba, a ffiangellu a wna ef bob
mab a dderbynio: os goddefwch gos
bedigaeth, megys i feibion y mae
duw yn ymgynig i chwi: canys pa
fab fyd' nis cosba i dad ef? Eyr h, os
heb gospedigaeth yddych, o'r honn y
mae pawb n gyfrannog, meibon or-
derch ydych ac nid o briod. yn y gei-
rieu hynn, mae S. Pawl yn eglur
yn cyffly bu cosbedigaeth yr argl-
wyd' i geryd' tad cnawdol, ac i bwy
ni wnaiffy geirieu hyn' ofni, a chryn
nu, lle i dowaid ef, fod yr oll rai ni
cheryddir yn fastardieit, ac nid plāt
cyfraithlon? Ag eilwaith pwy nis
llawenheiff, pann ddowaid ef, fod y
sawl a geryddir, yn blant o briod?
Erwyd' paham, er bod yr ollallwog
arglwyd', yn i ddangos i hū yn ddig
llon wrthym, nid yw hyn ddim, ond
anwes tad naturiol, caredigaid', yr
hwn' ni chais ein dinistr, a'n cwymp

eythr

eythr yn unic, ein gwellau, an hud-ymddyro dy hun gann hynny drwy ymyned, i ewyllys duw dy dad ffyddlon, byd orfoleddus ynghofbe-digaeth 'r arglwyd, gann dy fod yn sicer drwy hynny, i fod ef yn dwyn calō, med wl, ac ewyllys grasslawn, tadawl tuac attat.

Heb law hynn, duw a gyffelybir i fam: y famm a fwyddiff, ag a fegiff i etifed, ar oll ddaioni a ddichon hi, hi ai gnaiff iddaw, a hynn o galon fammawl rowiogaid: ac etto drwy anhyweithder ag afrwolder y plen-tyn, hi a gythruddir, ac weithiau hi a gynhyrfir i ddigio wrthaw, yw ddwrdio, yw gerydau, ag yw guro ef: felly i mae gwir natur a fferiodol-deb duw, na ddioddefe ef i auffawd yn y byd ddigwyddo ini, etto ein amryw bechodae ni, ai cymellant ef in cospi ag in ceryddu: yr awrhō, fal nad ywyfam, yn gwadu: yn gwrthod, nac yn rhoi ymaith i eti-fed,

fed', er i bod n ddicllō wrthaw felly duw ni wrthyd ac ni wediff ddim o honom ninneu, yn ein ing, angen, an cle di mwyaf, er iddaw gymryd ar-naw, fod yn ddigofus aruthr wrth-ym: yr scrythur lan yw yn awdur-
Esa. 49.15. dod am hynn: a anghofia gwraig ei phlentyn sugno fal na thosturio wrth fab ei chroth? pe anghofie y rhai hynn, etto myfi nid angho-fiwn di.

Nid oes un athro, na gwr o gel-fyddyd, a gymmer scolhaig, ne bren-tis yw ddyscu, heb wneuthur yr a-modau hynn ac ef yn bendifaddef, sef na byddo ir llanc fod yn opinion-gar, ne yn gildynus, ac na chanlly-no ef i synnwyr ai feddwl ei hun, eythr gofalu yn ddiwyd ac yn dyfal, am yr hynn irr addyscer gann i a-thro, ac o byd' ef difraw, ac yn chwa-re'r gwas diofal, bod yn fodlon ganthaw i geryddu gann i feistr. Yr awrhon, nid yw y meistr yn ce-
ryddu

rydddu ei scolaig, neu ei was er meddwl i friwo ef, ne o falais a drwg ewyllys iddaw, ond er dyscu o honaw yn well o hynny allan, bod yn fwy dilys, a chymeryd mwy gofal.

Felly yn'r vn mod' ni dderbyn Christ vn scolaig, na dyscybl attaw heb wneuthur amodau ag efo, angenrheidiol i bob cristion, 'rhain a yspysir yn Efeugil Sainct Mathew. Mat, 16. 24.

Ac yn ddiau gair duw yw y rhwol wrth ba vn i dylem ni, yn llywodraethu ein hunain eythr gwell gennym o lawer, galyn ein dyfais an synwyr ein hun, rhain yn fynych an twysant ar gam, allan or iawn ffordd': am hynny y nefawl athro, an cur ni (rhyd ein bysséd') hyd oni ddehallom ac oni ddyscom i ewyllys ef yn berffeidddiach.

Mal y mae yn rhaid ir physygwr, ne 'r meddig, dorri ymaith, a llosci, ymarwgiry pydredig ai hayarn,

ne ai offer, rhag llygru a gwenwy, no'r oll gorff, ai gyfergolli, felly duw sy weithiau yn cosbi ein cyrff ninneu yn dost, ac yn ofidus, er cadw, ac iachau ein eneidiau ni. Ac er dysned i gwchio duw 'r hayarn i fewn in cnawd, a'n cyrff ni, ef ai gwnaiff yn vnic, er yn helpio an iachau: ac os damwain iddaw yn llad' yno ef an dwg ir iawn fywyd. Y Physygwr wrth wneuthur y triagl a gafel y Seirff ar nadroed', fef, i orchfygu vn gwenwyn drwy y rym y llall: felly, duw pann in cerydddiff, ac in cofpiff ninneu fy yn fynych yn codi ac yn gofod Diawl, a ffobl anwir in herbyn, a hynn oll a wnaiff ef, er daioni i ni.

Tra fyddo gann y Physygwr ddim gobaith o wellad yn y claf, ef a braw bob ffordd' a ffob meddeginiaeth, yn gyftal y fur ar toft, ar melys ar hyfryd: ond pan amheuo ef fod dim gwellad yn agos, ef a ad iddaw

iddaw gael i rydyd ar bob peth, ar y mae ef yn i flysio: felly y nefawl physygwr tra gymero ef ni, ghwitt-nogion, yn lle 'r eiddaw i hun, a chanthaw obaith o'n iechyd, ef a rwystr ac a wahard' i ni ein ewyllys, ac ni ad i ni gael y peth i ddym yn i chwantu fwyaf: eythr pan fytho ef anobaithol o honom ni a ffan in rhoddo ef ni i fyny yno i gediff ef i ni cros amser, gael a mwynhau ein chwant, an pleser. y cyffelybrwyd' hwn a dynnwyd allan, or pumed llith o Iob: os yr arglwyd' dduw a archolliff, i law ef eilchwel a iacheiff. Iob. 5.

Pann roddo marchog ceffyl, i farch ifanc, boew, nwyfus, ormod or ffrwyn, e fyd' gwyllo a thrythyll, ac ni cherd' fal i dyle: ac ond odid pann doel i le gwlyb llithrig, ef a fyrth i lawr bendro mwnwgl: felly yn 'r un mod', os yn creawdr, a'n gwneuthurwr, a oddefe i ni or mod

gann

ordned rhwysc a rhydid, yn ebrwydd ni aem yn wyllton, ac a falchiem o hynny, ac ond antur ni a'n drygem ac a'n difethem n hunain, am hynny e' ryd' hayarn llym yn n safnau ni, ac a'n helpia i ffrwyno, ac i ddofi y cnawd, rhag cyfergolli 'r ardderchawg, ar gwyrthfawr enaid.

Drachefn: fal i mae Certweiniwr yn curo i feirch, ai chwip ne i fflangell, ac n i baeddu 'n dost, pryd na thynant, a phann nad ant yn i blaē, ac er hynny ef ai herbyd hwy hefyd, ac a wnaiff yn fawr o honynt, er mwyn i caffael yw mwynhau a fo hwy, felly duw a'n curiff, ag a'n fflangeliff ninneu, pann na wnelom 'r hyn a ddylom, yn iawn: ac er hyn i gyd ef a'n erbyd, ac ni wnaiff ddiwed' yn gwbl o honom.

Fal y mae y bugail, pann gyfeiliorno i ddefaid ef, yn y gwyllcoed', ar anialwch ymlihith bleiddieid, yn i gyrru drwy lwyrau dieithr irr

iawn

sawn ffordd', ac yn i hel yw corlann-au, lle i gallant fod yn ddiofal: felly yn'r un modd' (yn gymeint a'u bod ni yn fynych yn gymyscedig a rhai bydol, ag yn gymdeithion irr sawl syd' elynnion in crefyd' gwir Grist-nogaid') fe ddaw duw attom, ag an didol drwy drisswch ac edifeirwch oddiwrthynt, rhag yn difetha a'n cyfergolli gidac hwynt. Bugeil y gwartheg a ad irr cyfryw loie a or-deiniwyd ir lladdfa, redeg, a llāmu ffordd' a fynnant o amgylch y borfa: eythr y rhai a gedwir i lafurio, a fei-thrinir, ac a arferir dā yr iau: felly r ollalluog d'uw, sy 'n goddef ac 'n ga-dael ir annwolion (rhai syd' ai dinys-tr gar llaw) fwynhau ei chwant, ai pleser ar y ddayar hō, a chyflawni, a chwplau, i wllys ai damuniant: ey-thr y rhai duwiol, rhain a feithrin ef-er i anrhyded', ai ogoniāt, a geidw ef dān r iau, gān i gwahard' ai attal oddiwrth oll chwantae bydol.

Y

Y llafurwr synhwyrol, celfyd ni cheisi, ac ni hauiff i had, mewn maes, ne dir, ni bydd o gwedi i dorri, i aredig, ai lafurio yn iawn mal i dyle, ond ef a ddeil ei ychen, ac aiff ir maes, ef a dry ac a eird y tir, gann i ffaethu ai raglyfnu, ac yno ef ai hauiff, ag ai llyfnu, fal pann ddescyno'r glaw, i cadwer yr had, ag i gyrrer irr ddaear, fal i gwreiddio, ac i cynyddo ynchi: cyffelyb lafurwr yn

1. Cor. 1. 7. Doeth. 1. 5. duw, a nineu ym i lafur ef: ac nid yw ef yn rhoddi ei yspryd ai wirioned', i'r rhai syd' wylldion, ac heb ofn duw arnynt.

Heb law hynn, fal i mae garddwr yn cau i ard' oi hamgylch, ac yn i chadw a drain a mieri, fal na ddichon yr anifeilieit i drygu, felly mae duw yn ein ymdyffyn, yn ein gwilio, ac yn ein cadw nineu oddiwrth bob drwg cyfeillach, ac oddiwrth bob pechod, drwy ddrain a mieri, (sef yw hynny) drwy y groes ac

adfyd, fal i dywaid Oseas: mi a gavaf i fyny dy ffordd' di a drain, ac a furiaf fur fal na chefych dy lwybrau. os y garddwr a scythra ymaith, y cnyckieu ar ceincieu ceimion o'r prennie yn'yr ard', gann i difrigo ychydig: etto cyd biddo'r gwreid'in n ddifriw, nid gwaeth y prennieu, eythr cynyddu a wnant, a ffrwytho: felly mae duw yn torri ac yn cymynu'r hen Adda gnykus, drwy y groes, nid er meddwl ein briwo ne wnethur eniwed ini, ond er ein cadw mewn ofn, ac er yn cadw mewn duwiol arferau. Ac yn ddiau cyd byddo gwreiddin ffyd' yn aros ynom, er ein bod yn ysbailedig ac yn ddiddim o olud, a ffob bath ar ddiddanwch bydol a chorfforawl, eto ni a ddygwn ffrwythau daionus, er mwy anrhyded', a gogoniant i sancteiddlan enw duw. Osc.2.6.

Cristnogion heb y groes a gyffybir ir grawnwin, 'rhain sy yn tyfu

 ar

ar y gwinwyd', ac yn cael mwyniant yr wybren egored, ac etto, n oestad ydynt ar ei gwyd' yn anffrwythlawn, eb neb yn well erddyn: Erwyd' paham y nefawl winllanwr, ai dwg hwy irr gwinwryf, yw curo, yw sigio ag yw dryllio, nid er i difa, eythr er i gwaredu oddiwrth lygredigaeth, a halogiad trachwantae bydol, ag fal i gallāt ddwyn allan win melys, a ffrwythau hyfrydlawn. Eurwr, a deifl ddryll o aur, ir ffwrn danllyd, nid yw yssu gan y tan, ond yw burhau oddiwrth lygredigeth sy yntbaw, ac fal i bydd i bob peth syd' ynthaw, (rhwn nid yw aur) losci ymaith gann y tan, a myned yn lludw: felly, duw yw gof yr aur, y byd yw'r ffwrnais, adfyd yw'r tan, y ffyddlonieit Gristnogiō yw'r aur, yr amhured' ar llwgr yw pechod. yr awrhon, duw a buriff ac a lanheiff y rheini a berthynant iddaw ef, oddiwrth bob brychē, a lly-
gredi-

gredigaeth, ac ai gwnaiff yn ogo-
neddus, ac yn brydferth iddaw i
hun. Y Saer maen a dyrr y cerrig
cledion, ac ai nadd, peth yma, peth
acw, peth ffordd arall, oni wneler
hwy, yn gyfleus ac yn gymwys irr
man lle i gosoder: felly yn'r un
modd, duw'r hwn yw'r saer maen
nefawl, sy'n adeilad eglwys ghrist
nogaidd, ac ef a'n gweithia ac a'n
addurniff ni rhai ym gerrig costus,
gwrthfawr drwy y groes ag adfyd,
fal i tynner ymaith pob ffieiddra
ac anwiredd, 'rhain ni chydgordiãt,
ar adeilad ogoneddus honn. Dra-
chefn: mal i mae y lliwydd, ar un sy
yn cannu lliain, ar olchwraig, yn
golchi, yn curo, ac yn gwascu y bu-
dron ar aflan ddillad, fal i gwneler
yn wnnion, yn lan, ag yn gannaid,
felly i gwnaiff duw yn fynych o am-
ser a ninneu, er yn gwneuthur yn
bur, yn lan, ac yn ddifeius.

ador
nabit

Pen. 7.

Trwbleth ac adfyd, a wasnaethnat in treio, ac in profi ni.

Gorthrymder ac adfyd, sy yn profi, yn addyscu, yn sicrhau, ac yn cadarnhau y ffyd', yn ein cymell, ac yn ein annog i weddiaw: yn ein gwthiaw ac yn ein cynhyrfu i wellant buched', i ofni duw, i vfud'dod, ymyned', dianwadalwch, tiriondeb, sobrwed', cymedroldeb, ac i ddylyn bob rhinwed': ac ydynt achosion o lawer o ddaioni, yn gystal trancedic, a thragwyddol, yn y byd hwn, ac yn byd a ddaw. drwy orthrymder ac adfyd, i prawf duw, i crassfa, ac ir edrych ddysfudwr dy galon tuac atto ef: pa gymeint a ddichō dy ffyd' di i ddioddef ai dderbyn: ac a elli di ymwrthod a thi dy hunā, a oll greadurieit y byd, er i swyn ef. ac, i ddoedyd mewn byrr eirieu: e fynn wybod, pa fod' ir ymwreddi di dy hun,

hun,pann ddygo ef yn ollawl oddi-
arnaf,ac allan oth olwg yr hynn i
ddoeddyt ti yn ymddigrifhau fwyaf
ynthaw,ac yn i hoffi yn bēnaf ar y-
ddayar: fe wyr duw yn ddigon da
ymlaē llaw pa wed' i cymeri di hyn
ny,a beth a fyd' dy oddef: ond er hyn
ef a ddengys ac a eglurheiff i,ti,ac ir
byd hefyd, beth sy ynot:cans yn fy-
nych,pobl ā gāmolāt wr, ac a wnāt
y fath ffrost o honaw ef,(sef)i fod ef,
yn ddoethaf,yn gallaf,yn wrolaf,ac
yn onestaf gwr mewn gwlad , &c.
ond pā d'elo 'r amser yw brofi ef,nid
oes dim or fath beth ynthaw,a'r a
oeddyd yn tybied fod, ne ar a oedd-
yd yn i ddiscwyl am dano:ni ddichō
gwr adnabod y milwr cryf calon-
nawg,yn āser heddwch, ond mewn
amser rhyfel,pann fyddo y creulon
elyn, yn gorthrymu ac yn rhuthro i
gaptē ef.pā gyfodo temestl aruthrol
ar y mor,yno i gwelir,a fyd' meistr
y llōg gyfarwyd' i lywio'r llyw, ai

tentier
tento
as.

Antichrist

na bo y rheini sy onestaf a diweiriaf wragedd, rhain pan i temptier, pan i dener, ne pann i llithier i anwiredd, a gadwant er hynn i gyd i cred bri-odas yw gwyr yn ddihalog: yn'r vn modd ni ddichō neb wybod yn gwbl pa fodd y mae yr eglwys Gristno-gaidd yn cadw i chred ai ffyddlon-deb tuac at i gwr priod Crist Iesu, nes i Antechrist i hāgylchu, ai thēp-tio, a gau-ddysceidiaeth, creulōdeb ag erlid. Ni ddichon angerddol wres yr haul friwo, na niweidio y prennieu sy ai gwraidd yn gryfiō ac yn ddyfnion yn y ddayar, ag a di-gon ynthynt o sugn naturiol, ond y rhai a gymynwyd ac a dorrwyd i lawr, a wyfant yn fuan, gan wres'r haul, fal y gwelltyn hefyd, yr hwn a fedir i lawr, ac yn brysur a ddi-flanna.

Felly, yn yr vn modd, ni ddichon trwblaethae, nac adfydau eraill, wneuthur niwed irr rhai ffyddlon, rhain

'rhain a wreiddiwyd ynghrist Iesu: Hwy a dyfant ac a flagurant yn iraidd bob amser: ond yr anffyddlonieit, ai bradychant i hunain, ac a ddangosant beth ydynt, cynn gyflymed ac i gwelont wres ne angerdd trwbl, ac erlid yn dyfod.

Ar vn ffust i curir y cyrs ar tywys, ac i dyrnir, yr Yd: yn yr vn modd, drwy yr vnrhyw drwbleth ac adfyd, i glanheir, y ffyddlonieit, ac irr anogir i weddio duw, yw foli, ac yw fawrygu ef: ar anffyddlonieit i'furmur, ac yw felldithio ef, ac felly i profir ac irr adwaenir y ddau.

Pann ddyrnir yr yd, y gronyn syd' ynghymysc ar vs, a gwedi hynny i nailldu-ir hwy ar gwagr ne ar gwyntell: felly y bobl yn yr eglwys, yn gyntaf a glywant bregethu gair duw, yr awrhonn rhai a dramgwyddir, ac a rwystrir oi blegyt, ac eraill ni rwystrir, ac etto

 hwy

hwy a drigant ynghyd, y naill gida 'r llall: ond pan nithir ne pan wyntellir y ddau, a ffann ddechreuo awel o drwbleth, ne erlid chwythu, yno i byd 'hawd' adnabod y naill, rhagor y llall, ſef, y ffyddlō rhagor 'r anffyddlon. A wyd ti yd pur? Pam gā hynny irr ofni y ſtuſt, ne 'r gwynt? Wrth dy ddyrnu ath nithio, ith dynnir ac ith naill du-ir, oddiwrth yr us, ag ith wnair yn burach nac oed'it or blaē: ofned y ſawl ſy us, rhain ni allāt oddef y gwynt, rhag i chwthu ai ſaflu ymaith 'n dragowyd'.

Henn duy, ſerfyll a ſai dros āſer, ond cyn gynted ac i del gwynt a chwthu, e ſyd' eglur i bawb, mor wael oed' i rowndwal ai afael, felly, mae criſtnogion rai, heb ſylfain a growndwal, rhai tra ſyddo pob peth yn dda a cyn llwyddiannus, ydynt griſtnogion da, ond pann ddel gwythē o ſtinfyd a chledi, fe ymddegys ei ffuāt, ac a dyrr allā yn eglur.

Fal

Fal i profir 'r aur yn y ffwrnais, llei toddir, felly i praw ac i pura duw hwy, ac ai derbyn fal perffaith ffrwyth aberth. yr awrhō os ydwyd aur, pam mae rhaid i ti ofni 'r tan, rhwn a wnaiff i ti fwy lles, nac afles a niwed? Doeth.3.6.

Irr perwyl hwn hefyd i perthyn y ddihareb wir hon: cymdeithion a adweinir mewn adfyd. siāple o hyn.

Yr ollalluog dduw a dēptiod' ac a brofod' Abraham, gan erchi iddaw ef offrymmu a llad' i vnic genedic fab: yno irr oed' Abrahā mewn cledi, cyfyngdra a thrymder mawr, gwell oed' gantho golli i hol' dda, ai feddianeu, a chwbl oll ar a fedde ef ar y ddayar, na llad' i anwyl fab: etto er bod hynn yn erbyn natur, ac yn beth anioddefus, ef a ddyg i fab allan, ymddaith tridiau yw lad' ai law i hun: ef a orchfygod' i gnawd trwy ffyd', ac a vfuddhaod' dduw: yna i doedawd' duw wrthaw, yr- Gen.22.2.

awdurdod i gwnn dy fod yn ofni duw, ac nad arbedaist dy vnic ath anwyl fab er fymwyn i. cofia (medd Moeses.) yr holl ffordd, yn yr hon yr arweiniodd yr Arglwydd dy dduw di y deugain mlhynedd hyn, trwy'r anialwch er mwyn dy gystuddio di, gann dy brofi, i wybod yr hyn oedd yn dy galon, a gedwit ti ei orchymynnion ef, ai nas cedwit.

Deu.8.2.

Gosod Pharao a Dafydd yngbyd, y naill yn erbyn y llall: dau o frenhinoedd ardderchawc: Pharao yn sefyll, ac yn parhau, yn gildynnus, yn wrthryfelgar, ac yn wrthnysig, yn ei fwrdd anfwiol, er yr oll ddialeddae, a syrthient ac a ddescynent arnaw.

Ex 7.3.
Ex.8.32.
Ex.7.1.

Ac yngwrthwyneb i hynn: mor fuan i'r ymrodd Dafydd, gann dorri allan mewn vfudd-dod, a gostyngeiddrwydd, ymyneddo, a chydnabod ei bechodau, pann ffoadd ef rhag Absalon, a Shimei ddrygionus

2.Sa.16.10

nus yn i wradwyddo ac yn ddilorni ef, yn gwylyddgar.

Iob a drawyd a llawer o ddialeddae gofidus, fal nad oedd vn fann iach diddolur arnaw o wadn i droed hyd yngwastadedd i benn, nid am iddaw haudda y cyfryw gosbedigaeth, mwy na gwyr eraill, ond fal i galle dduw eglurhau irr byd, ei ymynedd ai ffyddlondeb ef, eythr i wraig ef a ddangosodd y pryd hynny i gwann ffydd ai natur lygredig. Iob.2.7.

Pwy ffyddlonach na brytach mewn zel na Phetr? Etto ef a wadodd ac a wrthododd Ghrist, i feistr ai athro o flaen morwynig ehud. Ma.26.70. Mar.14.68. Luc.22.57. Io.18.25.

Pwy gann hynny ni ddyl ofni am danaw i hun, oddiethr i brofi ai gaffael ef ymlaen llaw yn ffyddlon, yn ddisigl ac yn safadwy?

Yn yr vn mod' mae arfer beunyd' in dyscu, i adnabod y ffyddlon, oddiwrth yr anffyddlon, mewn erlid ac adfyd:

adfyd: rhai a lynant wrth yr Efangyl dros amser, ond pan welant na allant gael, y peth ir oeddynt yn edrych am dano, yna hwy ai gadawant, ac a gwympant oddiwrthi drachefn: ie yn amser profedigaeth hwy a gablant y sancteiddlan Efangyl: ond y rhai duwiol, rhai ai plannasont hi yn ei calonnau, a safant yn ddiyscog trwy ddiuw mewn bowyd ag angeu.

Pen. 8.

Gorthrymder ac adfyd, an helpiant, ac a'n cynorthwyant, in adnabod ein hunain, a duw hefyd, ac yn anwedic a ddyscant ddoethineb.

HEb law hynn, mae yn fuddiol ac n ddaionus i wr, i adnabod i hun yn dda. llwyddiant a dedwydd' wch a ddallant wr, eythr pan fyddo ef dan y groes, ef a ddechreu ystyr,

gwaeled'

gwaeled' ei gorff, ansiccrwydd i hoedl, gwendid i ddeall, methiant-rwyd' a muscrellwch i nerth, ai allu i hunan. Ef a gaiff weled a deuall pa bellder ir aeth ef, mewn fford rinwed', a ffa fod' i sai pob peth, rhwng duw, ag ef, a ffwy vn yw ef ai milwr i dduw ai i ddiawl: cans dyn yn fynych ai tybia i hun 'n gryf, ac yn gadarn, ond yn amser profedigaeth ef a wel mor hawd' ac mor ddiboen i chwthir ac ir escydwir gann bob awel o wynt.

Hefyd trwy orchrymder ac adfyd, y rhyd' duw di, mewn cof, pasawl mil o beryglon sy yn crogi vwch dy benn', rhain a ddigwyddent, ac a ddescynent arnat, oni bae i fod ef 'n dy gadw ac yn dy ymddyffyn oddiwrthynt. ar vnrhyw dduw yma a ddywaid wrthyd fal hynn: y gelyn anwir ath amgylcha ac a wilia am danat, ith orchfygu ag ith lyncku i fynyd' a lliaws, ac a

ffen-

ffentwr anfeidrol o ddrygau a drallaeddau, ond mysi a osodais iddaw ef i derfynau, dros hwy rai ni ddichon ef fyned.

Pwy hwyaf i byddych dann y groes wellwell i dysci oll rinweddae a daioni duw; ai iawn farnedigaethau, ai wir gyfiawnder ef, drwy hwy rai i dengys ef i ddicllondeb, ai ddigofaint, yn erbyn yr anwir, ar pechadurus, gann anfon plaee ofnadwy, a'r ei gyddfe hwy; ar gwrthrysfelgar ar anydifeiriol, ef ai cyfergolliff 'n dragwyddol.

Hefyd mewn adfyd i dysci ei anfeidrol fawredd ef, drwy hwy yn y dichon ef dy helpio, ath gynorthwyo, yn y trueni ar angheniou mwyaf.

Hefyd mewn adfyd i dysci ei annewidiol wirioned' ef, drwy hwy yn i cyflawna ef i oll addewidion 'n ffyddlawn, ag i cwpleiff ef i fygythiadae. Hefyd ti a ddysci ei anfeidrol

dri-

drigared', ai fawr ras ef, drwy hwy rai i rhagflaena ef bob drwg a ddigwydd tu-ac attom, ac ni ddde ef yn dala, ne 'n gorthymmu, gan afrifed, ac aflwyd':

Hefyd ti a ddysci ei ddidranc, ai dragwyddol ragordeiniad ef; drwy rhwnn megys tad i gofala ef trosom, ac i llywodraetha ef bob peth yn synhwyrol.

Hefyd i ogoniant, ei fawredd, ai fawl, am y rhagddoededic rinweddau, rhain a lewychant yn ddisclaer, mewn ing ac adfyd: erwyd' paham S. Bernard a escrifenna fal hynn: Pa fodd i gwyddom fod 'r hwnn sy 'n preswylio yn y nefoedd yn ein mysc yma ar y ddayar? Yn ddiau wrth hynn, am yn bod mewn blinder, ac adfyd; can's heb dduw pwy a alle i goddef ai derbyn.

Mae 'n angenrhaid i wr bob amser wrth ddocthineb, gofal, synwyr

a sobrwydd: ac fal i mae llwyddiant 'n cau, ac 'n dallu golwg gwyr, felly i mae adfyd a blinder yn i egoryd hwy eilwaith.

Megys, ac i mae 'r eli rhwnn sy 'n iachau 'r llygaid, yn gyntaf yn merwino, ac yn llosci y golwg, ac yn peri yddynt ddyfrhau, eythr gwedy hynny ef a wnaiff y golwg yn ddisclairiach, ac yn llonnach nac ydoedd or blaen, felly blinder ac adfyd a boenant ac a flinant wyr yn aruthr y tro cyntaf, ond yn y diwedd hwy a gynorthwyant ac a lewychât olwg y meddwl, gann i wneuthur yn rhesymolach, 'n ddoethach, ac yn fwy gofalus: can's adfyd a ddwg wybodaeth, a gwybodaeth ddoethineb.

Eccle. 34.9. Dihar. 29.15. Gwialen a chosbedigaeth a fagant ddoethineb, ac ar hynny y tyfodd y diharebion hynn gyntaf: pwy llawna 'r tir gwaetha 'r bobl ac hefyd, adfyd a wnaiff i wyr edrychoi

deuthy ymhell ac 'n agos. Hefyd: nid yw gall onid a gollo.

Hefyd: pann fo 'r dwr hyd 'r en, fe ddyscir nofio.

Ar Prophwyd Dauydd a ddywaid: O Arglwyd' mor ddaionus, ac mor fuddiol, yw i mi, gaffael fyngheryddu, am dorastwng genyt, fal i gallwn ddyscu dy gyfiawnder ath orchmynion.

Pen. 9.

Gorthrymder ac adfyd, an cynorthyant, ac an helpiant, i iawn adnabod ein pechodae, ac i fod 'n edifeiriawl arostynt.

MAe duw yn erfyn ac yn wyllysio, gynyddu a thyfu ynō, wybodaeth o'n gwenwynig a'n llygredic naturiaeth, ac oi ddigofaint ef yn erbyn pechod, fal i gallom alaru ac edifarhau, yn ein caloneu tros ein pechodae, ac gwellau, beunyd'

yr awrhon gwir yw, fod o naturi-
aeth 'n aros yn ein caloneu ormod
diofalwch, a difrawch, o herwydd
pwy rai, nid ym yn ystyr nac 'n pri-
sio ond ychydic aflendid ein calo-
neu oddifewn: yn anwedic, pryd
na wyddom, beth yw adfyd, a chle-
di, nid ystyriwn faintioli ein diale-
ddus bechodae, na chyfiawn farne-
digaeth duw, ai aruthrol ofna-
dwy gerydd' ef, dledus oi plegit: Ey-
thr pann fo duw 'n darostwng neu
'n tynny i lawr, rhyw rai espy-
sol, ne oll gynplleidfa, yno i co-
fiwn, faintioli a thrymder ein pe-
chod, ac nad yw digofaint a dic-
llonder duw 'n rhydrwm, nac
heb yspysawl a chyfraithlawn a-
chosion.

Yno i torrwn allan ir' cyfryw
eirieu a rhain, O Arglwydd' ni a hae-
ddasom y place hynn fil o fydd',
O ddaionus a chyfiownaf dduw, ti a
obrwyi gamweddau a throsedau

y tadau ar y plant, os hwy a gan-lhynant lwybrau i tadau, hyd y drydedd ar bedwaredd genedlaeth. Exod. 20. 5. Exod. 34. 7. Deut. 5. 9. Deut. 7. 9.

Mal i mae y copr caled ar elydn yn toddi yn y tan, felly mewn adfyd, ing, a blinder, calonau caled, geirwon, afrowiog, a doddant: gann gashau a ffieiddio, ei pechodae.

Troseddwr y ddeddf, a gydnebyd' i feieu, pān i dyger irr farn yw gosbi, a phann i barner ac i bwrier yn euog o angeu.

Ac yn gystal cyffredinol ac anghyffredinol blaee a dialeddae, a ellir i galw, yn rhann o gyfraith dduw, neu megys pregethae duw, 'rhain a dystiant ac a fanegant i ni, fod duw 'n ddigofus aruthr, wrth bob bath ar anwired' a ffieidd-dra, a deyrnasant yn y byd: fal i bydde i bawb i ufuddhau ai darostwng i hunain i

dduw,

dduw, nadu ac vdo am ei pechodae, a chystuddiedic a gwir edifeiriol ga lon, gann ddisyf i ras ai drigared' ef.

Gen.42.6. Ac er ecsampl, Brodur Ioseph yn gyntaf amser a welsont ei beien 'rhain a wnaethẽt 'n erbyn i brawd, pann i gorthrymwyd gann wir au gen a chledi mewn gwlad estron.

Pann anfonodd 'r Arglwyd' ir a-
Num.21.6. nialwch ymhlith 'r Israelicit, Seirff gwenwynig, yw brathu, ac yw gwenwyno, yno i daethant gyntaf at Foeses, gann ddoedyd, ni a bechasom am i ni ddoydyd yn erbyn yr Arglwyd' ac 'n derbyn di theu.

1.Cro.21.17 Pann ydoed' y nodau 'n difa ac 'n ysu 'r cwbl, yno i doeded' Dafydd wrth yr Arglwyd': mysi a bechais eythr beth a wnaeth y defaid hyn Os yw gann hynny yn fuddiol a yn angenrheidiol i ni gydnabod ein pechodae, a'n anwired' a bod y

ediſeiriol oi plegyd, ni allwn ni yn dda heb°oz trwbleth ac adfyd.

Pen. 10.

Trwbleth ac adfyd an helpiant ac an cynorthwyant i feithrin ac i chwanegu 'n ffydd.

FE ddangoſwyd ymlaen, i broſi 'n ffyd' ni drwy 'r groes, ac adfyd: yr awrhon fe broſir yn eglur, mae cyntaf amſer i cadarnheir, i meithrinir, ac i chwanegir 'n ffyd' ni, pann ddel adfyd in gorthrymu. yr iawn ar wir ffyd' Grists nogaid' a ſylfaenir yn unic, ar ras, trigared', gallu, a help dduw trwy Grist, rhwnn beth ni ellir i ymgyffred drwy ofer feddyliau, gwag ſwrias dae, ne uwcheld dyſc ddynol, cythr duw a dywallt bentwr o ddialeddae ar bechadurieit.

Pa beth bynac a ſwriadant, a ymcanant, ne a gymerant mewn

llaw,

llaw, nid aiff ragddo ganthynt, ai holl fywyd, a wnair 'n chwerwach yddynt nar bustyl ; fal na allant gael dim esmwythdra: a ffa ham? 'n ddiau er y perwyl hwnn : sef er yddynt hwy 'n ollawl ddirmygu, a distryw pob cyngor, cymorth, a chysur gann ddyn, ac fal i tynnid hwy oddiwrth bob gobaith, mewn dichellion, a gallu bydol, ac fal na obeithient help mewn vn creadur, yn y byd.

Ac yn lle hynn, er yddynt osod a roddi i caloneu, 'n vnic ar dduw, ac fal na byddo dim oll 'n aros ynthynt ond vwchneidieu a dagreu an-t-raethawl att dduw, 'n deilliaw o wir ffyd, ynghymorth pwy vn 'n vnic mae trigared 'n sefyll 'n gwbl.

Deut. 8, 2. Testimoniae o hynn allan or Scrythur lan. Moses a destiolei thiff, fod duw 'n goddef, dwyn 'r Israelieit, i amryw drallodae, ac

i gyfyngderae mawrion, ac etto i fod ef 'n i gwaredu hwy 'n rhyfeddol, er hynn, sef pann ddelent i dir y gaddewid na allent ddoedyd, fyngallu i fy hun, a nerth fynwyplaw i a ddygasont hynn i benn: eythr meddwl o honynt am yr Arglwydd' i duw, cans ef a rydd y cyfryw allu, fal i galler cyflowni a gwneuthur pob peth: ac felly i gwnaeth duw gwedi hynny a phlant 'r Israel, rhain oi dyfais ac oi fynwyr i hun, a geisient help a chymorth gann frenin 'r Assirieid, a brenin 'r Aipht, rhain gwedi hynn, ai amgylchynasant hwy, ai lladdasont, ac ai caethgludasont ymaith 'n garcharwyr. yno i gwelsont ag gwybuont hwy, nad oed' vn a alle i helpu ai cynorthwyo, ond yn vnic 'r Arglwyd', i bwy vn irr vfuddhasont, ac irr ymroesont or diwedd, gân ddoedyd: nid oedde'n edrycham dim oll, ond marwolaeth. Eythr Iere.10.6. Ose.6.2.

hynn

hyn i gyd a wnaethwyd er y perwyl hwnn, ſef er i ni na obeithom ynom ein hun, eythr ynnuw, 'r hwnn a gyfyd i ſyny y meirw eilwaith.

Hefyd beth bynac a gynhyrfiff ac a faethdriniff ein ffyd' ni, ni ddylem ni ofni, eythr n hytrach gorfoleddu yn hwnnw. Tra fyddom yn byw mewn ſeguryd, ymhob trachwant a ffleſer, mae diawl yn cael gwal arnom, ac yn dallu ein gwen did, fal y tybiwn nad yw duw y priſio ynom, a bod holl bethau y byd yn digwyddo heb i ordeiniad, a ragwelediad ef. ond ymhob rhy gledi yngyſtal anghyffredinol, chyffredinol, mae i ni fwy a dwy ſach achoſion i faethdrino, ac i a ſeru ein ffyd'.

Duw ſy 'n goddef i ti gwymp mewn tlodi, ne i angeu ddwyn odd arnat dy anwyl gymdeithion, ne ryw aflonyddwch arall ddamwa

i

ict, ar pryd hynny hefyd, mae i ti achos mawr i feichrin ac i arferu dy ffydd. Ac 'n gyntaf i gofio gaddewidion duw, a ysbyswyd yn i air ef, ac yno i alw arnaw am i ras ai help, ac felly gwrthnebu a sefyll 'n erbyn pob rhyw angrediniaeth ac anobaith, 'rhwn sy o naturieth yn y cnawd, er maint fyddo dy angen, ac er pelled i tybia pob dyn droi o dduw i wyneb oddiwrthyt, ac na chynorthwya ef ddim o honot. yn 'r vn mod', mewn oll angenion cyffredinol, hynn yw 'r iawn arfer o ffyd', a sancteiddiaf wasnaethu duw, sef, bod i ni 'n gyntaf feddwl ac ystyriaw yn d dilys, oll beryglon a gorthrymderae a ddigwyddant i'r eglwys, neu i'r wlad: gwedi hynny gweddio ar dduw a ffyd' fywiol, ddiyscog, ar iddaw ef waredu, a chadw, 'r eglwys oddiwrth gauddysceidiaeth, gwag argoelion a ffu-

ant: Ac, ar iddaw ef i rhwoli ai llywodraethu, yn rasusol. Ac hefyd ar iddaw ef gadw'r wlad mewn rhwol dda, ac mewn heddwch gann roddi wybren iachus, towyd' rhesymol, a hefyd dofi a rhwystro, anystywalld ac anosparthus amcanion a bwriadau y gwerin bobl: gann ganiadhau hefyd, mantimio, a chadw, crefyd' Cristnogaid', iawn ymwreddiad, a gonestrwyd', fal i mawryger, ac i molianner, i dduwiol a sanctawl enw ef, ac i chwaneger, i'r helaether ac i siccraer i deyrnas ef: ac fal i diwraiddier ac i gwradwydder teyrnas y cythraul.

A chofia hynn hefyd: pa bryd bynnac i'r ystyri dy adfyd, na Anghofi ach erfyn gan Dduw obaith, oi ddidanwch, help, a chymorth: gann ymlad' ac ymdrech 'n nerthoc a 'n wrawl, yn erbyn pob angredini aeth: a dod ymaith hefyd, bob ano

bait

baith, er maint y chwanega dy ad-
fyd ach gledi ac fal hynn i'r iawn
arferi ac i maethorini dy ffyd': Er
ecsampl.

Oddi ar y Sainctaid' wr Iob, Iob.1.13.
y dygwyd cwbl oll a alle ddiddanu,
a chonfforddio gwr: gwraig, plant,
da, cyfeillion, ac vn trwbl, tristwch,
a drwg newyd' a ddoe ar vwchaf
y llall: ac nid ydoed' defnyn o waed
ofewn i gorff ef heb fychu a dar-
fod: ac ef a eisteddc yngolwg'r oll
fyd, ac ef oed' 'n wattorgerd' ydd-
ynt, ac felly i'r arfereu ef i ffydd,
gann ymroi i hun 'n vnic, ac 'n gwbl
i dduw.

I Abraham i gaddawyd had, Gen.12.2.
mewn rhif megys tywod y mor, a Gen.15.18.
megys fer y nefoed', ac etto i wraig Gen.18.18.
ef ydoed' amhlantadwy ac an- Gen.22.17.
ffrwythlawn, ac yntef hefyd, oed' Eccl.44.21.
hen ac mewn oedran, fal wrth re-
swm naturiol, nad oed' possibl gy-
flawni a dwyn 'r addewid hynny i

 blenn,

benn, ai wirhau ynthaw ef: etto Abraham drwy hynn a faethrinod' a arferod' ac a brafod' i ffyd'.

Ac fal hynn i bu Joseph, Davyd' Daniel yr holl Patriarchiaid, Proffwydi ac Apostolion, yn gystal mewn cyffredinol adfyd 'r eglwys, ac yn i blinderoed' i hunain, yn arferu, ac yn meithrin i ffyd'.

A hynn ydoedd i gwasanaeth mwyaf tu-ac at dduw, drwy bwy yn ir anrhydeddent, ac i gwasnaethent ef: Erwyd' paham, yn ein amser ninneu, mae duw 'n rhoddi i ni achosion mawrion, rhyfeddol, drwy drwbl ac adfyd, i ddeffroi, i gynhyrfu, ag i arfer ein ffyd': A thrwy y cyfryw arfer, i chwanegir ac i cadarnheir y ffyd', ie, ac i tewyniff yn ddisclairiach, ac i gwnair 'n brydferthach ac 'n fwy gogoneddus canys pa beth bynag a brofod' ac a dreiod' gwr i hun ymlaen llaw, hynny a grediff ef yn ddiamau:

amau: yr awrhon y neb sydd Gristion yn fab, ne 'n ferch, a braw, ac a wybydd yn ddiau, i rhwolir, ir ynnddeffynnir, i cysurir ac i cedwir ef gann duw, ynghanol i drisstwch ai adfyd: can's gobaith ni chwilwyddia. Rus. 5. 5.

Ac am hynny y Christion, ar ffyddlō ddyn drwy adfyd a gorthrymder, a wnair 'n hyfach, ac yn fwy hyderus, ac a gred ynthaw i hun fod duw 'n prisio ac yn gofalu yn enwedic am y sawl sydd mewn adfyd, a thrueni, ac i cynorthwyiff, ac i gwarediff ef hwy, allan yn rasusol.

Megys ac i mae gwr 'rhwn a fynych hwyliodd ar y mor, ac a siglwyd gann forgymladd y tonneu, ac a ddiangodd rhag llawer o demestloedd rhyferthawc, enbydus, yn fwy hyderus, ac n hyfach eilchwel, i fyned irr mor, yn gymeint ac iddaw ddiainc unwaith, a chael thyde teg ymlaenllaw; felly, y gwr Cristnogaidd,

gaid', 'rhwn a fynych flinwyd ac a figlwyd gann y groes, yn gymenit ac iddaw gael diddanwch, help, a chymorth gān dduw bob amser, yn ol hynny a obeithist dduw 'n dda, (ac y 'n wellwell pwy hwyaf i maethdrinir dān y groes) er i'r cyfryw adfyd 'rhwnn a fu vnwaith arnaw, ddyfod drachefn: ac i'r pwrpas yma gwrando ac ystyr ddau ecsampl odidawg, arbennig, vn or hen, arall or testament newyd'.

1.Sa.17.37. Pann ydoed' Dafyd' yn i barotoi i hun i ymlad' 'n erbyn y nerthoc gawr Goliah ef a ddywod fal hyn: 'r Arglwyd' 'rhwnn am achubod' i, o grafanc y llew, ac o dalf yr Arth, ef am hachub i o law y Philistiad hwn.
2.Cor.1.10. a thrachefn, Paul a ddywaid: yr hwn a'n gwaredod' ni oddiwrth gyfryw ddirfawr angeu, ac sy yn ein gwaredu ; yn 'r hwn yr ydym yn gobeitho y gwared ef rhag llaw.

Ac i'r vnrhyw berwyl, i perthyn

hynn

hynn hefyd; sef ystyriaw fod y groes 'n sicrhau y sawl ai dygant yn 'r Arglwyd', o ras, a ffafr gann dduw drwy bwy rai i gwyddont 'n ddiameu, i bod o neirif yr etholedigion ac yn blant i dduw, yn gymeint ac iddaw ef edrych arnynt yn dadawl, er i gwellau ai ceryddu hwy: can's fal hynn i scrifennir. Yr oll rai, a ryngasont fod' i dduw, a brofwyd, ac a dreiwyd drwy amryw flinderoed', ac a gaed yn safadwy ac yn ddiyscog yn y ffyd': hefyd.

Iob.5.17.
Ose.6.1.
Dihar.3.11.
Tob.12.13.
1.Pet.4.14.
Heb.12.1.
Gwel.3.19.

Pawb oll ar a chwenychant fyw 'n dduwiol ynghrist Iesu, sy raid yddynt oddef erlid lawer ac adfyd.

2.Tim.3.12.
Eccl.2.4.5.
Psal.33.19.

Pen. 11.

Trwbl, a chledi, sy 'n rhoddi i ni achosion, i weddio duw, yw foli, ac yw fawrygu ef.

POb Cristion a wyr yn dda, fod yn angenrheidiol, ac yn fuddiol

iddaw, weddio a galw ar dduw 'n ddyfal ac 'n ddefosionol. yr awron, pan fyddo gwr yn byw mewn llwyddiāt, ni weddia ef ond ychydig, neu hynny, yn oer, ac yn araf, nid oes gātho fawr dued 'na meddwl ar i weddi. y weddi rhon ni yrer, ac ni wthier allan gān y groes nid yw 'n dyfod, o ddyfnder ac o eigiawn y galō: eythr trystyd, trymder a chledi a fywhant, ac a enynnāt y meddwl, ai gwthiant, ai heliant, ac ai ymlidiant at dduw, ie, hwy ai cymhellant i alw arnaw yn daer, ac 'n ddyfal.

Can 's pann welom a phann ddehallom yn dda, na allwn wneuthur dim o honom ein hunain, a ffa faint yw ein eisieu o dduw, ar fod yn wiw gantho ein llywodraethu, ein cynorthwyo, a 'n amddeffynu.

Megys ac nad yw y dwfr, cyd y byddo 'n llenwi, ac yn rhedeg rhyd llydan, faith, wastadfaes, yn torri allan yn rhyfferthawg, eythr

yn

yn ymwascaru, ac yn ymdaenellu, rhyd pob mann yn gyffelyb, ond pann i crynhoer ynhgyd drwy synwyr, a cyfrwyddyd, ai ddwyn i vn lle cyfing, megys i bistill, i bibell, ne i gwndit, yna i pistilliff ac i saethiff ef allan yn vchel: felly meddwl dyn, cyd i byddo 'n llonyd', segur, ac heb flinder nac adfyd, sy 'n rhodio ac yn brwydro oddiā gylch, lle i mynno, wrth i gwrs hun: ond pann i dyger i mewn, pann i gwthier, ne pann i llockier i ryw gyfing gilfach, drwy drwbleth neu adfyd, yna i tyr ef allan 'n vwchel at dduw, tuar nefoed', drwy ddyfal, hyderus a thaer weddiaw, am i ras, i help, ai gymorth. Eccl. 35. 13. 14. 15. &c. Act. 10. 4.

Ar hynn y tyfod' y ddihareb gyffredin, angen ac eisieu a ddyscāt weddiaw. O Arglwyd' mewn adfyd i'r ymwelsont a thi, tywalltasont weddi, pann oed' dy gospedigaeth arnynt. Esai. 26. 16. Ecsampl o hynn. Pann glybu

 plant

plant 'r Israel o ddyfodiad i gely-
nion y Philistieit, hwy a ofnesont,
ac a ddoedasont, wrth Samuel: na
1.Sam.7.8. thaw di a gweiddi drosom at yr Ar-
glwyd' ein duw, ar iddaw ef ein gwa
2.Bre.16. red o ddwylaw y Philisticit: Ma-
nasses rhwn oll ddyddieu i fywyd,
ydoed' fathueitgi gwaedlyd, a chre-
ulon, a rwymwyd mewn cadwynt,
2.Cro.33.11. ac a arweiniwyd i Fabilon, a ffan
ydoed' ef yn i gledi, ai ingeithaf, ef
a wnaeth vfud' weddi, ac erfyn o
2.Cro.33.13. flaen 'r Arglwyd' i dduw, a duw a
wrandawod' i weddi ef ac ai dyg eil
waith i Gaersalem.

Mat.8.23. Mar.4.37. Luc.8.23. Pann godod' Temestl ar y mor,
fal i gorchguddid y llong gan donn-
eu, a Christ 'n cyscu, yno i prysureu
i ddyscyblion atto ef yw ddeffrei,
gann ddoedyd, cymorth Arglwyd'
cans mae 'n darfod am danom.

Ma.15.28. Siampl y wraig o Ganaan, a
ddysc i ni pa fod' y mae duw n' oedi,
ac yn hwyrhau roddi help a chy-
morth

morth weithiau, o wir gythgoddef
fal in cynhyrfer yn fwy dirfawr i
alw arnaw, ac i barhau'n ddaerach
yn ein gweddiau.

S. Austin a scrifenna fal hynn:
Y duwiol a orthrymir ac a gystu-
ddir, yn'r eylwys ne'r gynelleid-
fa, er y perwyl hwnn: sef, pann i
gorthrymer i galwant, pann al-
want i clywid, pān i clywid, i maw-
rygent ac i moliannent dduw.

Ac fal y mae y groes, ac adfyd, yn
ein gwthio ac yn ein tanbigo yn ein
blaen [illegible] rhan gyntaf o weddi, sef i
erfyn, [illegible] ymbil a duw, felly hefyd,
in helpiff, ac in annogiff i'r rhann
arall o weddi, rhonn yw, moli duw,
a bod'n ddiolchgar iddaw. Ollall-
uog allu, doethineb, cyfiawnder, tru-
gared' a gwirioned' duw (yr uchel
ar arderchawg, rinweddae hynny,
addas o bob mawl ac anrhydded')
a ymddangosant mewn croes, gor-
thrymder, a chledi Cristnogion, pān
fyddo

fyddo Duw yn gofwyo truain bechadurieit, yn diddanu y rhai syd' mewn cyfyngder, a chledi, ac yn i cynorthwyo, ac 'n i gwaredu hwy allã o bob angenoctid, wrth hynn y rhyfeddiff oll Gristnogaid' bobl, 'n ddirfawr, ac a dorrant allann, i fawrygu, i gannol, ac i addoli duw, a chlod a mawl anraethawl.

2.Cor.4.7. Y mae genym y cyfryw drysor, mewn llestri prid', fal i bydde ardderchowgrwyd' y meddiãt hwnnw, o dduw ac nid o hanõ ni: sef yw hyny i ddym yn druein ac 'n llestr i gweinieid, fal i chwaneger anrhyd' a gogoniant duw, ac nid yr eiddõ ni.

Dan.3.27. Er ecsampl cymer stori D'aniel, yn wed' i trod' carchar a chaethiwed 'r Iddewon, 'n ogoniant ac yn foliant mawr i dduw. yn Iachawdwr Crist

Io.9.2. sy 'n dangos 'r achos, pam ir ydoed' y gwr yn ddall oi enedigaeth, sef er bod gwrthieu a gweithredoed' duw 'n oleu ac yn eglur ynddo ef.

Heb

Heb law hwnn: y'r oll Broffwydi, Apostolion, a dewisedig duw, drwy bwy rai y gwnaeth ef bethau mawrion, rhyfeddawl, a ddirmygwyd ac a ddistyrwyd, ie weithieu a laddwyd ac a arteithiwyd, fal i gwele, ac i dealle bawb, fod i ffyd', ai gweithred ('rhain oeddynt ddisigl, a chadarn) yn waith duw, ac nid gallu dyn. Ac am hyn i dylid, moli a mawrygu duw, uwchlaw pob peth oll.

Ps.44.11.22.
Act.43.
Ruf.8.36.
2.Cor.4.8.9.
1.Mac.2.52.
2.Mac.5.6.

Pen. 12.

Trwbleth ac adfyd a'n tywysant i rinweddae da, ac i dduwioldeb

Y groes ag adfyd, a darfant, ac a yrrant ymaith bechodae, a wnaethwyd o'r blaen, ac a rwystrant, ac a wrthnebant, bechodae syd' ar ddyfod, a helpant i blanu, i feithrin, ac i chwanegu pob rhinwed' dda, fal i dener ac i dyger y'r anuwiol i edifeirwch, newydd-deb a gwellant

buched', ar duwiol i fyned rhagddo i chwanego rinweddae, a duwioldeb: canys pwy adfyd bynag a ddiod' efo 'r cnawd, y mae yn i boeni yn ddirfawr, gwell o lawer fydde gātho fod yn llawen, yn heddychol ac yn ddihelbul: yr awrhon pob dyn 'chwn syd' gantho ddim rheswm, a wyr yn ddigō da, i fod ef yn dwyn llawer o adfyd ar i wddwf i hun drwy i drachwantae, ai ymwreddiad drwg i hunan: am hyny ef a ddechreu wilio, a gochel yn well o hynny allan fuched' afrwolus ac anllywodraethus, megys achos, gwreiddin, a dechreuad pob blinder, a thristwch: fal hefyd (heb law cosbedigaeth bresennol) na ffor ner ef yn dragwyddol. A hyn a fanegir, ac a brofir yn gyntaf, a chyffelybiaethae, yn ail a thestimoniae or Scrythur lan, ac yn drydyd' drwy hynod a gwybodedig esāpleu. dwfr 'r hwn sy 'n oestadol yn sefyll yn i unlle, er gloy-

gloywed fyddo, y mae yn llygredig ac n ddiffaith: eythr y dwfr syd' rydegog bob āser, pwy fwya i rhua ac i rhed, drwy'r creigiau ar cerrig, teccach, croywach a pherffeiddiach syd' o lawer: felly y gwr duwiol heb y groes, syd' ddiddarbod, dwl, a lluddedig, eythr drwy'r groes, ac adfyd, ef a fywheir, a faethdrinir, ac a chwanegir ymhob daioni. Yr hayarn rhydlyd, cācredic, gā y llif ddur, a loewir, ac a lyfnheir, felly ir hē Adda lygredic, mae'n angenrhaid cael, ing ac adfyd yw ffwrbio ac yw lāhau oddiwrth gācr a rhwd pechod. Cyllell er llyfned fyddo, oni arferir, a gascl rwd, ar rhwd ai difa ac ai hyssiff: eythr pwy fwya ir arferir, er iddi ddarfod peth, etto gloewach fyd': yn'r un mod', er bod llawer un yn naturiol ac yn hynaws etto oni arferir, ac oni feithrinir ef, mewn trwbleth ac adfyd, ef a lygriff gann rwd a chancr pechod.

Eythr drwy'r groes ac adfyd, er

ir rhwn ynill peth o honaw, (oblegit ei ddynawl wendid) etto ef a loywir, a lanheir, ac a wnair yn fwy disclair, ac yn brydferthach drachefn.

Yr had rhwn a hauir, yn y maes, er iddaw oddef gwynt, glaw, eira, rhew a ffob bath ar demestl, etto fe gynyddiff, ag a ffrwythiff, felly 'r ysbrydol had, 'r hwn yw gair duw, pann i derbynir mewn calon dda ddefosionol, ni ddinistrir ddim o hanaw drwy drwbleth, eythr ef a ddwg allan ffrwyth da proffidiol.

Prenn cnau ffrengig pwy fwya i curir, wellwell fydd: felly gwr drwy aml wialennod, a llawer o adfyd, a drn oddiwrth i ddrigioni, ac a wnair yn well.

I galed ac i dewgroen march ne assyn, nid oes dim well na ffrewyl dost yw ffłagellu: felly nid oes dim mwy addas, na mwy buddiol in cnawd afrowiogfalch nineu, na

thri-

thristwch a thrwblech, er i gynhyr-fu ai yrru yn well rhagddo.

Brethyn syd' raid i fynych hau-lo ai frwyssio, rhag (mal y mae yr ddihareb) i yssu gann bryfed: felly yr ysbrydol bryfedae, a gwyfyn-nae, sef, anwired', pechod, a ffieidd-dra, syd' yn llai i grymm i fagu y-nō nineu, os nyni a gurir ag a frwy-ssir mewn amser, gann orthrym-der ac adfyd.

Y cig yr hwnn syd' newyd' lad', yn dyfod or farchnad, ac yn ir, yn brysur a ddiflesiff, ac a gynrhoniff, eythr yr heli, a'r halen ai ceidw yn felus ac yn ddilwgr: felly duw syd' yn taunu ac yn taenellu halen ar-nom nineu, drwy amryw brofedi-gaethae, a gorthrymderae, er ydd-ynt yn halldu, rhag yn llygru a'n cyfergolli mewn pechod.

Y corff rhwn syd dyn oestadawl 'n segur, ac heb wneuthur dim, a ddig-wyd' yn hawd' i glefydon a doluri-

au,

au,eythr cyrff y rhai a weithiant ac a lafuriant,ydynt iachach, ac iſiengach,ac a barhant yn well: felly yr enaid rhwn a faethdrinir, ac a arferir mewn trwblaeth a blinder, ſydd iddaw achoſiō i fod,yn brydferthach yn iachach,ag yn ddiſclairiach.

Mae yn ddihareb wir, pwy toſta yr lleiſw,glana i gylch: felly in natur lygredig,wēwynig nineu, mae yn angenrhaid cael, toſt,a garw feddiginiaeth, a ffwy toſta ſyddo yr adfyd, mwyaf o'r cwbl a ylch ef ymaith o aflēdid,ac āghymeſurwyd'.

I gylla g'wann,drwgfaethus, y mae yr chwerw wermod yn dda, ac yn iachus,felly i enaid lleſc, g'waelus, chwerw drwbl ac adfyd ſyd' iachus ac angērheidiol:coſia yr ddihareb honn.

Pann gaffo yr claf i iechyd.
E fyd' gwaeth,na'chyn ei gleſyd.

Ac am hyny cleſyd ſyd' angērheidiolach iddaw,rhag i waethygu, a

byw

byw yn fwy anwireddus. Bellach,
mi a roddaf i lawr destimonae or
scrythur lan. Duw syd' yn bygwth Levit.26.16
anfon saith mwy pla, ar blant 'r If-
rael, os hwy ni wellhaen pann i cos-
bid, yn yscafn ac yn esmwyth gan-
thaw: gan ddwyn ar ddeall drwy
foeses, fod adfyd a blinder, in dyscu,
i gyweirio, ac i wellhau ein buched'.

Briwiau, cleisiau, a dyrnodiau, Diha.20.30
yn curo celloed' y bol, ydynt scra-
fellau i gosi yr anuwiol.

Ni welir chwaith yn hyfryd, un Heb.12.11
cospedigaeth, tros 'r amser presen-
nol, eythr yn anhyfryd: etto wedi
hynny, heddychol ffrwyth cyfiawn-
der a ryd' hi, irr rhai a fyddant we-
di eu cynefino a hi.

Ac eilwaith fe a ddoedir: gan ddi- 1.Pet.4.1
oddef o Grist trosom ni yny cnawd,
chwithau hefyd arfogwch eich hu-
nain, ar unrhyw feddwl, sef peidio
o hwnn a ddioddefod' yn y cnawd a
phechod: fal na byddo iddo o hyn allā

(tros

tros hynn syd' yngweddillion amser 'n y cnawd, fyw ar ol trachwantae dynion, eythr ar ol ewyllys duw.

A hyn a wnair yn eglurach trwy ecsample. Dann Josua yr enillod' Ios.2.1.2. plant yr Israel, lawer maes, a hwy a yrrwyd i ymlad' yn erbyn i gelynion, ac ni chwympasont, ac ni ysgogasont, oddiwrth yr Arglwyd', nes i dyfod i esmwythdra, ac i gael pob peth yn ddigonawl: hynn sy ecsampl o liaws o bobl.

Jonas Broffwyd pann 'ydoedd Jonas.2.1. ymol y morfarch, a gofiod' ei bechodae, ai newidiod' i hun, a droes, ac a fu vfuddol i dduw.

Y mab colledig, anystywallt, yn gyntaf amser a droes adref att i Luc.13.14. dad, pann ganfu a ffann welod' ei drueni, ai dlodi i hunan.

Craffa, ar arfer beunyddol y byd: nyni a feddyliwn ynom ein hunain yn fynych fal hyn. O pe i bawn yn-

vnwaith etto yn iach, yn wir myfi a ymddygwn, ac amordriwn fy hun mal i dylwn: myfi a gynorthwywn ac a wnawn wasanaeth i bawb, &c. O na bawn gyfoethawg, mi a rannwn ac a roddwn yn llawen ac yn ffyddlon ir tlodion: eythr cyn gynted ac i delom allan o'n perigl, ni a ollyngasom hynn oll yn angof: tra fyddom heb eisiau dim arnom, ni ddichon neb rwystro, nac attal yn camwedd.

Bellach i ddyfod at ecsample. meddwl ddau amryw duy, naill-duawl, vn, yn yr hwnn i cedwir priodas lle i mae gorfoled a llawenyd a ffob daynteth: arall, yn yr hwn y mae vn yn ei glaf-wely ymronn angeu. ynhuy yr briodas lle i mae dawnsio, ir arferir pob hoewder a gwamalrwyd, geirieu anweddus, aflā, cynghaneddion a rhimynau bustleddaid, digwilyd ymwreddiad ag arfereu, hoyw a gwa-

mal drwssiadae, vn a neitia, ac a wing-
ga, fal march: arall a ddilia ei draed
wrth lawr, fal assyn: y trydydd, a ys,
oni feddwo: y pedwerydd ni wnaiff
ddim a fyddo gonest, fal y dichon
gwr ddoedyd yn wir, i bod hwy yn
waeth nac anifeileit. Ond lle i mae
y claf 'n i welu, mae pob peth 'n ddi-
staw, ni ddoedir gair ond a fyddo
gonest, a gwedd'us: pob peth a wnair
'n sobr, yn arafaidd, a chā bwyll. Ar
pryd hyny, nid 'n vnic y gwyr, eythr
y gwragedd, ar plāt hefyd, ar holl du
a arferir 'n dduwiol: hwy a weddiāt,
hwy ai cyssurant i hunain, gā dorri
allan irr rhain, ne irr cyfryw yma-
droddion: pa beth yw dyn? O mor
drancedig ac mor ofer yw 'r oll be-
thau sydd genym ar y ddayar yma?
ond nid fal hyn y bydd yn y byd sydd
ar ddyfod. Ac hefyd o duy 'r briodas
llawer vn a aiff adref yn drymhyr-
ddig, yn drist yn helbulus, ac yn
ddirmygus ei feddwl, am nad yw ef

mor

mor hapus, ac mor ddedwyd', ac e-
raill : ac yn ddisymwth ef a dreisir
gan bryd a gwed', rhyw wraig, ne
forwyn, a welod' ef n y dawns, 'rhō
ai clwyfod' hyd att i galon: A ffann
d'el ef adref, ef a edrych n sarug ar ei
wraig, e fyd' chwerw wrth i blāt, a-
nynad wrth ei deuluy, a neb ni fedr
ryngu bod' iddaw. Ond 'r hwn a
aiff adref o duy'r claf, ai tybia i hun
yn ddedwyd', ac n fendigedig, am
nad yw ef yn gorwed' yn y cyfryw
ddialeddus ing, ac os oes arnaw ef i
hun, ryw ofyd ne flinder, y mae ef yr
awrhō n aplach yw ddioddef n esm-
wythach, ac n fwy ymorthoys, pan i
cyfflybo i ferthur dialeddus, ac i a-
noddefus boen, yr vn syd' ymhoene
Angeu. Ac o achos hynn, mae ef yn
fwy ei ymyned', n hawdgarach, ac n
foneddigeiddiach tuac at ei wraig
ei blant, ai hol' deuluy, ie, ac heb law
hyn, ef a gymmer achos o hyn i wel'
au i ddrwg fuchedd.

Pen.

Pen. 13.

Tristwch ac adfyd, a'n dyscant i ofni, ac i garu duw.

ADfyd, a blinder a fagant ofn duw, yn y Sawl ai goddef, ac hefyd, yn y Sawl a glywant, ac a wyddant o hynny: ac felly mae llawer yn cymryd siampl, ac addysc drwy hynn, ac na amcanant ddim yn amhwyllog yn erbyn ewyllys duw: canys ef yn gyfraithlawn a
Mat.10.28. ddylid i ofni ai arswydo, *rhwnn a ddichon ddwyn, a gosod arnom, bob bath ar ddialeddae, ac syd' iddaw iawn achosiō, a hawl arnō, i, wneuthur hynny: yr awrhonn nyni yn wael ac yn weinieid ni allwn mewn mod' yn y byd, wrthnebu, na gwrthryfela yn erbyn y nerthawg, ac galluawg dduw, nid allwn cymeint a gwrthod ne droi ymaith y diwrnod lleiaf o'r acsus ne o'r crud

cryn-

crynnu: ie, nid allwn i rwystro, irr Ex.7.10.
gwaelaf, ac irr dystyraf, o greadu- Exod.8.6.
riein y byd, yn dialeddu, a'n aflo- Exod.9.1. Exod.10.13.
nyddu: megys, llau, chwain, pryfed, 2.Mach.9.5.
ar cyfryw gymyscbla, rhain, a fei- Act.12.23.
striasont, ac a orfuont, rymus ac ar-
dderchawg frenin yr Aipht.

Mae yn ddihareb wir, llaw a Exod.20.20.
loscwyd unwaith a ofna yr tan, ca- Deut.8.2. Barn.2.22.
nys yn y synwyr ar deuall hwnnw, Barn.3.1.
i ddoedodd Moeses wrth y bobl of-
nus, ich profi chwi y daeth duw, ac i
fod i ofn ef garr eich bronnau, fal na
ffechech. Er ecsampl: pwy fwyaf ir
ymdroe ac ir ymhelie yr Arglwyd' 2.Sa.15.30.
ynghylch Dafydd, dilusach yr oed'
Dafydd yn edrych ar yr Arglwydd
ac yn i ofni: ac nid yn unig Dafydd,
eythr eraill hefyd, pann welsont, a
phā ddeuallasōt ei trueni, ai gwae-
led', a gymerasōt achos o hyn, i ofni 2.Sa.11.27.
duw n fwy nac y gwnaethēt or blae 2.Sa.13.38.
ac yn enwedig pan welsont, y fod 2.Sa.15.14. 2.Sa.16.8.
i cospodd duw lawruddiaeth a godi- 2.Sa.17.23.
neb 2.Sa.18.33.

neb Dafyd', drwy derfyscae, cyfrysed', celaned', ac a cholledau lawer o bobloedd.

Yr Scrythur lan syd' yn gosod o flaen ein llygaid ni, lawer or fath siamplau ofnadwy, fal na byddo i ni brisio ofn duw, yn yscafnbeth, eythr ofni o honom bob anwired', pechod, a ffieidd dra.

Pan ddyger allan vn a fo trosedd-wr y gyfraith i dorri i ben, yw grogi, yw losci, ne mewn rhyw fodd arall yw ddibenyddio: eraill ar ai gwelāt ef, a ddyscant ofni, a gochel y peth ai dyg ef irr diwed' hwn: yn 'r vn mod' pan ddanfono duw ryw ddialedd, naill ai ar ryw rai yn enwedic, ne ar' r oll gyffredin, pawb eraill a ddylent ystyriaw o hyny, fal pe i baent hwy i hun, yn lle y rhai gorthrymedig hynny: ac fal pe i bae adfyd y rheini yn orthrymder yddynt hwy i hunain, ac ofni duw n wel' a gwilio rhag cwympo o honynt

hwythau, i gyfryw ddialedd duw.

Ac yn ddiau mae cymeint o achos ir da, ar duwiol i ofni, ac sydd' ir anwir ar anuwiol. Canys wrth hyn ir ystyr y ffyddlon, fod y tracedig ddialeddae hynn, yn arwyddion ac yn destimoniae eglur, or cospedigaethae tragwyddol, syd' i ddyfod, 'rhai ynt fil filoedd o weithiau n fwy gofidus, ac heb ddiwed' yddynt. erwyd' pahā, yn gystal i adfyd ei hunain, a gorthrymder eraill, a rydd yddynt ddigon o achos i wellau, ac i ymwrthod ar peth, drwy 'r hwn y mae pawb oll, yn dwyn plaeæ tragwyddol, ar i gyddfe ei hunain. Yr Anwir ar anffyddlonieit hwythau (oni fyddāt ry gildynnus, a gwrthnysig, ac o bydd dim rheswm ganthynt) a ddechreuāt hefyd ofni duw, a meddwl ynthynt i hunain fal hyn: gā fod duw 'n gofwyo, n fcyrsio, ac yn ceryddu y da, ar ffyddlō, drwy brynder, ac adfyd, rhai nid ydynt ellyd' mor

Dihar. 11. 31
1. Pet. 4. 18.

Ier. 25. 29.
Ier. 49. 12.
Eze. 9. 5.
Dihar. 11. 31
1. Pet. 4. 8.

anuwiol ac ym ni: pa wedd 'i di-
engwn ninneu 'rhai a haeddasom,
Ier.25.29. ddengwaith, ie, ugeinwaith fwy di-
aleddus cospedigaeth na hwynt
hwy? creffwch ac ystyriwch (medd
y Proffwyd Ieremi) canys wele
mi a ddechreuais ddrygu y ddinas,
yr honn i gelwir fy enw arni, ac a
ddiengwch chwi? Canys yr ydwyf
yn galw am gleddyf ar oll drigoli-
on y ddayar, medd Arglwyd' y llu-
Luc.23.31. oedd. Ac hefyd: os gwnant hyn irr
prenn ir, beth a wnair i'r crin? Yr
amser a ddaeth (medd S. Petr) i
bydd rhaid, irr farn ddechreu ar dy
dduw, ac os ydyw yn gyntaf yn de-
dechreu arnom ni, pa ryw ddiwed'
a fydd i'r rhai ni chredant efengyl
dduw?

Ci diniwed, 'rhwnn ni wnaeth
ddim drwg, a gurir yngolwg y
llew, fal i byddo ir llew, pan wypo
ddigio, a sorri i feistr, fod n fwy i ofn.
A S. Grygor a escrifenna fal hynn.
Os

Os yw duw yn ceryddu cyn drymed y rhai y mae ef yn i caru, pa wedd na chur ef yn doſtach ac yn drymach, y ſawl nid yw ef yn caru ddim o honynt?

Criſtnogion, rhain a ddygant y groes, ac ydynt orthrymedig, a garant dduw a mwy a wyd', yngymeint ag ydd ynt glywed ynghanol i hadfyd, yr hyfryd ddiddanwch, 'rhwnn ſydd yn dyfod oddiwrth ei tad nefol: o drigarog ewyllys pwy vn, nis gallant ãmeu nac anobeitho.

Ei ffyddlon, er ei feiſtr i daro ef, eto fe ai car er hyny, ac a ymlewyd' ac ef drachefn: plentyn da er i guro, nid anllai i ceriff i dad ai fam, gann ddamuno i nawd' eilwaith: felly yn yr vn mod' mae meddylieu y gwir Griſtnogiō, tuac at i tad nefol; eythr y cyfryw blant ac ydynt ddrigionus, ac anhynaws, pann i curer ychydig hwy a ffoant ymaith oddiwrth i rhieni gann furmur a grwgnach yw erbyn.

Pen. 14.

Gorthrymder, ac adfyd sy dda, a buddiol, i ddyscu ymynedd, vfudd-dod, a gostwngeiddrwyd.

PEthenbyd yw balchder, o'r hwn ni ddaw dim daioni: y'r aw'rhon llwyddiant, a ded'wyddwch, trwy wnfyd, a fagant falchder, a dirmyg o eraill: eythr adfyd, a gorthrymder, a fagãt ostwngeiddrwyd', ac vfudd-dod, fal na byddo gwr falch yn ei farn i hun, eythr bod yn fodlon ganthaw, brissio eraill, yn gystal ac ef i hun, gan gyfadde fod 'n angenrhaid iddaw, gael ei help ai cyngor.

Fal i'r arferir o gwttogi ne o dorri yn fyrrach escyll adar, ne ryw hediaid eraill, pan ddechreuont hedeg 'n rhy vchel, ne yn rhybell: felly mae Duw yn lleihau, ein cyfoeth, ein meddianae, ein parch, ein anrhydedd, ein awdurdod, a'n gallu ninneu, rhag mynedd o honõ tros ein terfynae, a balchio gormod or cyfryw ddoniey. Fal y mae'r corff pan flino

no neu pan ddeffygio Gan waith a gorchwyl, yn damuno cael segurud ag esmwythdra i orffwysaw, felly yr enaid, pā i llwyther, ne pā i gorthrymer, gan adfyd, a chledi, a ffan i dyger i gyfyngdra, yno i prysuriff at lonyddwch ag esmwythdra, ac nid oes dim y pryd hyny ai trwblia n llai, na balchder. Nabucodonozor, a Dan. 3.1.
ffrostiod' oi allu, oi weithredoed' buddugoliaethus, oi gostfawr adeilad, Dan. 4.3.
ac ydoed' falch aruthr o honynt, eythr yn ol i gwymp ai gledi, ef a ddyscod' roddi ol' foliāt, anrhydeđ', a gogoniant i dduw. Pawl sy 'n cy- 2.Cor.12,7.
faddef dderbyn o honaw gernod gā 8.&c.
gēnad Satan rhag ymffrostio o honaw allan o fesur, mewn llawndra gweledigaeth. Mae arfer hefyd in dyscu, pa wed' pann dreisier, ne pan ysbeilier gwyr cyfoethawg, godidawg, arbēnig, a beilchiō, oi cyfoeth: hwy 'n ol hyny a fyddāt Ufuddach, difalchach a boneddigeiddiach.

 canys

canys, yno i deallant, mor ansiccr, ag mor ansafadwy, yw pethau amserol trancedig, ac felly, hwy a ddysgant tra fyddont fyw, goelio llai yddynt i hun: gann hynny trwbl ac adfyd ydynt yn fynych mor angenrheidiol i wyr, ac yw bwyd, a diod. Y groes, blinder, ac adfyd, a wnant wr yn war, yn ddof, yn ymynyddgar, yn sobr, yn gariadus ac yn hawddgar, tuac atto i hun ag eraill hefyd.

Dryllo hayarn, ne arian, rhwn a gurir, ne a gymynir a mwrthoyl, a wnair yn lledach yn denevach, yn llyfnach ac 'n feddalach, felly carrcgog a chledion galonnae dynion, drwy orthrymder, ag adfyd, a wnair, yn estwythach, ac yn ystumgarach, fal i galle wr (fal pe i doedid,) i cryd eddu o amgylch i fys.

Ebol-farch gwyllt, lledffrom, a roddir geneu-fach, ne snaffl yn i ben rhag iddaw frathu, y sawl ai teimlaw: felly ffrwyn o adfyd a blinder, an

an lluddia, ac an rhwystra ninau, ('rhai ym bengledion, anosbarthus yn llawn digased', malais, a drigioni) i wneuthur anwired', ffieid'dra, nac angharіadoldeb yn ein bywyd. er ecsampl. Y cynddeiriog, ac cythreulig frenin Manasses, ydoedd 2.Bre.21.1[illegible]
war, a dof ddigon, gwedi vnwaith i rwymo, i ddal yn garcharwr, ai gaethgludo ymaith. Pawl yn agos 2.Cro.33.1[illegible]
at Ddamasco a drawyd i lawr megys blaid' rhuadus, rheibus, eythr ef Act.9.
a gyfodod' i fyny cyn vfudded ag oē.

Pen. 15.

Trwbleth, ac adfyd, a ddyscant i wyr drigaredd, tosturi, ac ymynedd, tuac at eraill.

MAe 'n rhinwed' Gristnogaid' angenrheidiol, drigarhau a thosturio wrth bobl mewn adfyd a thrueni. Eythr y Sawl ni chafod' erioed ddim profedigaeth, adfyd, na gwrthwyneb i hun, ni ddichon ef

Eccl.7.2.
Mat.11.2[illegible]
Ioa.13.14.
Ruf.15.7.
Gal.6.1.

drugarhau na thosturio wrth arall ond ychydig. Un gwr claf, a wyr angẽ ac eisieu y llall, ac vn clawd yn'r vn mod' a wyr oddiwrth y llall: ac felly hefyd, pwy vn syd' mewn trueni, a blinder i hunã a wyr'n well oddiwrth glwyfy sawl syd'n r vn cyflwr

Er ecsãpl. pahã, ne am bwy achos y dichõ yn Archoffeiriad ni, Crist, gymryd y fath drigared' a thosturi arnõ, wir bechadurieit, fal i beiddiwn n hyderus ddyfod hyd attaw ef, ac yn gysurus heb ofn, ac edrych am swckr, cymorth, a diddanwch, ar i law ef? yn ddiau am'r achos hyn a thrwy hynn, fal i doedawd' S. Pawl, (sef) am ddioddef o honaw, a bod profedigaeth arnaw ef i hunan.

Heb. 2. 18.

A chyneffindra ag arfer a ddyscãt hyn hefyd: cans pwy bynac a fu vnwaith i hun yn glaf mewn hospytu, ef a ddichon dosturio yn well wrth eraill a ydynt yn'r vn cyflwr: ac y mae ef byth wedi, yn barotach, ac'n haws

Haud ignara mali, miseris succurrere disco.

haws gantho Gynorthwyo y sawl syd' yn 'r un ffunyd. Yr ardderchawg ac wyrthfawr rinwed' ('rhō a elwir) ymyned', ni chaiff le i ddodi i ffenn yn amser llwyddiant.

Pan tyddo gwr yn iachus, ac yn ddi-ddolur dros hir ámser, ni ddichō ef gymryd i ddolur yn y man, mor ymynyddgar ac i dyle: ac yn 'r un mod' y neb ni chafod' ertoed ddim blinder na chledi, pa hyd bynac i digwyddo dim arno, ef a gythruddir yn ddirfawr gā aniodddefgarwch: eythr adfyd a ddysc i wyr ymyned', ac ai meithrin ynthi: cans 'n gyntaf pā welo gwr fod pob peth 'n myned 'n ol llaw ac n i erbyn ef, heb obaith gwellad, ond waethwaeth: beth syd' iddaw ef āgenach yw wneuthur, na throi 'r angē hyn n rhinwed'. ac felly e syd' bodlō ac abal gāthaw, pa fod' bynag ir elo pob peth gidag ef. Yn ail pann arferir gwr yn oestadawl mewn trwbleth, ac adfyd, 'r arfer ar dde-

ddefod hon a wnaiff hyny yn yscafn
ac yn esmwyth iddaw yn anwedig
Luc.5.3. drwy ystyriaw ir helpa i cynnorthwy
a, ac i confforddia duw ef. S. Pawl a
ddywaid: gorthrymder a ddwg ddi-
Luc.15.19. oddefgarwch, a dioddefgarwch, bro
fiad, a ffrofiad obaith, a gobaith ni
chwilwyddia. Y mab disperod, coll-
edig, a ddyscod' y cyfryw ymyned'
yn i drueni, ai flinfyd, fal y doededd
ef wrth i dad, na chynier ddim o ho-
nof, ac na wna i mi o hynn allan, fal
i fab, ond fal i was cyflog, nid wyf 'n
damuno dim oll, ōd cael trigo 'n dy
duy di: n'r vn mod' i dylē nineu, od'
ef pob peth yn ewyllyscar, a thrwy
ymaros, beth bynac fyddāt, os duw
a gynwys i ni dario o fewn i dy ef.
Ir Ardderchawg, cenedlic wr So-
crates, ir oedd da i wraig anynad,
ddrwgnwydus, er y perwyl hwn, sef
er bod id'aw drwy ddyscu ymyned'
gartref, oddef n well ac n fwy ymar-
hoys, y bobl, rhain i ddoed' iddaw ef
a wnele a hwynt oddigartref.

Pen. 16.

Gorthrymder, ac adfyd, a gledant, ag a gryfhant wyr, ac a ddyscant yddynt sobrwyd' a chymedroldeb.

Ych' rhwnn a ymbawr ar dir mynyddig a soflud' geirwon, syd' gledach i garneu, a gwell i dynnu ac i lafurio, na'r hwnn a borther mewn porfa fraisc, ac adlad' meddalaid':

Y Plant a fegir wrth dan estron ydynt y rhann fwyaf, yn gledach ac yn gryfach, nag yw y rhai a fager yn gu ac yn anwyl, mewn gormoded', hoywder, a mwy na digoned', ynhai i tadau i hunain: felly yn'r un mod', synwyr a meddylieu gwyr, drwy wnfyd a llawndra, a wnair yn fuscrell ac'n weinieid, yn rhianaid' ac yn ddiffrwyth: ond pann i rhwystrer drwy ryw boenus angen, ac

adfyd, hwy a wnair yngledach, 'n gryfach, yn wrolach, ac yn lobrach. Er esiampl.

Y Saincaid' Apostolion anwyl, pwy fwya fydde 'r erlid, ac adfyd arnynt, hyfach, cryfach a mwy Safadwy fyddent, fal i tystia gweithredoed' 'r Apostolion.

2.Cor.12.10. S. Pawl a ddywaid: am hynny yr ymddigrifhaf fi mewn gwendid, mewn ammarch, mewn angen, mewn erlid, ac mewn ing er mwyn Crist, canys pann wyf wann, yna yr wyf gadarn.

Pann wypo 'r Physygwr, y bwytty y claf sy dann i law ef ormod, ac i'r aiff yn rhy dew, ef a ddechreu scario arnaw, a rhoi iddaw i fwyd wrth fesur, ac felly wrth brinhau peth arnaw, ef ai adferiff yw iechyd drachefn ac ai gweryd; yn 'r vn mod' pann gam arferom ninneu, yn warthus, win, yd, bara a diod, ac eraill o ddoineu a chreadurieit

duw,

duw, er mantimio medd-dod, surffedau, gormodoed' ac wttres, yna i cerydd iff duw ni, a newyn, drudaniaeth, tlodi, ne ryw blae eraill, fal i dyscom drwy hynny fod yn gymedrol ac chadw mesur, ac arferu i ddonieu ef yn ddiolchgar. fe a ddoeddir: mae cystud' awr a wna anghofio daintethion. Ac felly i'r anghofiod' Dafyd 'n brysur ei drachwantus wrhydri, ai drythyllwch 'n ollawl, pann yrod' Absalon ef allan oi deyrnas. Eccl. 11.28. 2. Sa. 113.4. &c.

Pen. 17.

Blinder ac adfyd a ddyscãt i wyr ddirmygu, distyru, a dibrissio'r byd, a bod 'n ddiwid, ac 'n ddyfal, mewn pob duwioldeb, a rhinwed'.

Y groes ac adfyd, a dynnant oddiwrthym gariad tu-ac at y byd, ac a darfant ymaith oll beryglus, a dain-

daintethus ÿwnniau, a thrachwantae, y bywyd trancedig hwnn: ni a fynnem pe i baem gyfoethogion, eythr duw a ryd' i ni dlodi: nyni a chwenychwn iechyd corfforawl, eythr, duw sydd 'n rhoddi clefydae, ac felly ef an maethdriniff ac a'n arferiff ni, mewn trueni ac adfyd, fal na wypom hayach, beth yw byw 'n ddaintethawl 'n esmwyth, ac 'n hyfryd: ac fal hynn i dechreuwn ddirmygu, a ffieiddio oll pethau trancedig, a dilyfu pethau eraill gwell, a gwerthfawrocach, sef, y bywyd tragwyddol, lle i diweddir pob adfyd a thrueni.

Y neb a gymero daith yn llaw, ac a aiff i wlad ddieithr, nid hwyrach iddaw pann ddelo ef i ryw dref hyfryd, lle i cydgyfwrdd' a chymdeithion llawen, ac a chyfeillion da, dreiliaw 'r amser, ac aros 'n rhy-hir gidac hwy, ac felly anghofio i deuluy, ai bethau gartref, ond os digwyd'

wyd' iddaw ef vn tramgwyd' gerwin, yn ol vn arall ef a brysuriff adref 'n gynt, at i wraig, ai blant, lle i caiff fwy o esmwythdra, a llonyddwch: yn 'r vn mod' pann ddigwyddo dim or pethau trancedig hynn i ninau, mal, cyfoeth, iechyd, prydferchwch, bud' lawer, anrhydedd', ag vwchelfraint, os bwriadwn vnwaith arnynt, ag ymddigrif-hau ynthynt, yn gymeint, ac i bwriwn ne i prisiwn 'n llai, y nefawl fywyd, yno i gwnaiff duw y ffordd' yn arw, ac yn gnyckus ini, yma yn y byd hwnn, rhag cymeryd o honom y bywyd trancedig yn y byd hwn, yn lle ein iawn wlad naturiol, tu-ac at bwy vn y mae ein taith a'n siwrnai. er ecsampl.

Nid oed' gann blant 'r Israel Psal. 137. fawr chwant, i ganu ac i chwareu ar i hyfryd gerdd-dannau, tra eisteddent fal carcharwyr o ddeutu i afonyd' Babilon.

A hynn a ellir i weled ai brwfio yn eglur yn y rhai y fyd' yr awrhon, mewn rhyw glefyd peryglus, neu mewn carchar caled, ne mewn cyfyngder a thrueni: y rhai oeddynt o'r blaen ry fwythus ar fwyd a diod, rhy hoew mewn dillad, ac 'n ymroi i hunain i ddownsio, i gellwair, i chwareu, i chwerthin, neu i'r cyfryw ddigrifwch fydol. Canys y groes ac adfyd, drwy drist-wch, a escubant ac a lyfant ymaith yr oll bethau hynny, cynn llwyred ac y tawd' yr haul gwresog, yr eira. Heb law hynn, y neb fyd' dlawd, ac 'n gyfing arnynt, ydynt barotach bob amser i ymadel ar byd hwnn, na'r sawl fyd' ganthynt gyfoeth, iechyd, a phob dedwyddwch yn ol i meddwl ai ewyllys: ac am hynny Saint Awstin yn i lyfr ar y gredo, neu de symbolo a scrifenna fal hynn.

Edrych pa fod' i cyflawnod' ac i llan-

i llanwod' duw 'r byd, a chymeint o flinderoed', ac a chymeint o orthrymderon trwblus: y mae efyn chwerw, ac etto fo ai cerir, y mae efyn serfyll ac yn barod, i gwympo, ac etto ef a breswylir: odydi fa'nwyl anwylyd fyd, beth a wnaem ni pe i bait ti felys, safadwy a pharhaus, gān i wneuthur fal hyn 'rawrhonn? O dydi fudr ac aflan fyd, os wyd chwerw, ac etto yn ein twyllo, ac yn ein sommi, pwy nis somit ac nis twyllit pe i bait felys a hyfryd.

Ac nid yw 'r groes 'n vnic 'n ein gwthio ag yn ein cymell rhagom, i bob rhinwed', ac yn ein rhoddi mewn meddwl o bob duwioldeb, eythr y mae yn bywhau, ag yn nynnu ynom hefyd, ddiwydrwyd' ac awyd' i fyned rhagom, ymhob daioni, 'n nerthawg, 'n hyderus, 'n ddysal, ac yn wraid', ac nid yn ddiog, ne 'n fethiant.

Fal y mae 'n rhaid weithiau i wr, sparduno i farch, er i fod 'n farch da, bywiog, er iddo fyned yn i flaen a rhedeg yn ffestach, ac yn brysurach: felly yn 'r un mod' ni allwn nineu fyned rhagom, yn ein swyd' an galwedigaeth mor brysur, na chystal ag i dylem, oddieithr ein gwthio rhag ein blaen, a llymion ysparduunau a frewyllau.

Pann gerydd o y meistr i was diog, diddarbodus, segurllyd, yno ef a weithia yn ddilusach, ac y mae ef 'n fwy buddiol iddaw: felly nineu i gyd y rhann fwya o honom, ydym o natur y cyfryw ddiog a segurllyd weission: 'rhai ni wnawn ddim yn iawn, oddieithr ein cymell a'n gwthio o'n a'nfod', a'n curo a'n chwipio at yn gwaith. Er bod y rheini yn weission diffaith, rhai ni wnant ddim, ont byd' gwr 'n oestadawl ar ffonn ar i cefnille, ie, ac er hynny ni wnant ddim 'n iawn: etto ni

ni ddyle wr byth beidio ai gwthio,
ac ai cymell, nes yddynt ddechreu
gwellau, a gwasnaethu'n ewyllys-
gar ac 'n ufud': felly yn 'r un mod',
er nad eos un gwasanaeth cymellr-
dig yn rhyngu bod' duw, etto arfer
a meithrin mewn daioni beunyd', a
ddichon or diwed', i wneuthur mor
hyfryd ac mor felys i ni, fal i cym-
rom ddifyrwch a fflefer ynthaw.

Pen. 18.

Blinder ac adfyd ydynt achosion, a chymorth, o lawer diogelwch trancedig, a bud', yn y byd hwnn.

Hyd hynn y dyscasom, y bud' ysprydawl syd' yn dyfod o ad-
fyd, drwy bwy un i cynysceiddir ac
i'r addurnir enaid dyn, a doethineb
a ffob rhinwed'. yr awrhon gedwch
weled pa fuddiau bydol, syd' 'n fy-
nych 'n cydgymdeithas, ac yn calyn,

adfyd

adfyd a gorthrymder.

Y Sawl sydd 'n trigo mewn nentyd, ac mewn, isel a dyfnion breswylfeudd, nid chwaith hawdd i niweidir gann felit: yn 'r un modd, y 'r isel o radd, ai cadw ac ai ymddiffin i hun, 'n sicrach ac a llai perigl, yn erbyn pob bath ar demestl.

Mal y mae llysieu ag arogl bethau gwyrthfawr, costus, 'n rhoddi gwell sawr ac arwynt, pann i siger, pann i morterer, ne pann i rhodder ar y tan: felly clod a channmoliaeth rhinwedd, drwy oestadawl arfer, a meithrin, a thrwy adfyd, a daenir oddiamgylch, ac a wnair yn eglur, ag 'n wybodedig ymhob lle: Er ecsampl.

Gen. 20. Pa fawr anrhydedd, a godidawg glod a channmoliaeth ydoedd i Abraham yn y diwedd, am iddo fyned allan oi wlad i hun, ar grwydr, ac yno goddef dirfawr drwbleth, a gorthrymder lawer.

Plant

Plant 'r Israel, a gaethiwyd, ac a orthrymwyd yn aruthr yn 'r Aipht, eythr hwy a dywyswyd allan ac a ryddhawyd drachefn, ar fath ogoniant, ag ardderchowgrwyd', ar nas clywyd, ac nos darllenwyd, erioed, or cyfryw.

Crwydriad Ulisses ar for, dros ddengmlyned', ydoed' achos iddaw ef i feithrin, ac i arferu i ddoethineb, ac eraill oi rinweddae da, yn y cyfāser: fal i cafes ef wrth hynny enw anfarwol ymhlith y cenedloedd'.

Ac i ddoedyd ar ol mod' ac arfer cyffredinol, nid oes vn llawenyd', na gorfoled', heb ryw drisswch a thrymder 'n myned oi flaen.

Wyneb blwyddyn syd' fwy cymeradwy, hyfryd, a chroesafus genym, am i fod yn calyn, ac yn dyfod 'n nesaf, at y garw, ar gerwin avaf.

Yn y rhyfel pwy vosta in amgylchiff ein gelynion', ac i'r ymladdāt in herbyn, mwya fyd' y llaw-

enyd'

enyd' ar gorfoled', pann i gorchfygir, ac i gorefynnir hwy. y sawl a fu orweddiawg, dros amser mawr, ac 'n glwyfus dros hir dymor, wedi iddaw iachau mae iechyd yn dryfor gwyrthfawroccach ganthaw, nag or blaen, cynn iddaw wybod beth oed' glefyd: ac hefyd, y sawl oeddynt alarus a phruddion o blegit i ddolur ef, a lawenychant, ac a orfoleddant yn ddirfawr, pann i'r adferir ef eilwaith yw iechyd. felly mae duw 'n dwyn oddiarnom dros amser, ein golud, ein cyfoeth, a'n llwyddiant, ein gwlad naturiol ein iechyd 'corfforawl, ac eraill o'r cyfryw ddonieu trancedig, er y perwyl hwnn, sef, pann i rhoddo ef hwynt hwy i ni drachefn, fod o honom yn llawenach, ac yn fwy gorfoleddus o honynt.

Mat. 18. 12. Luc. 15. 12. Esampl syd' gennym, o hynn, or ddafad gyfeiliornus, ac or mab disperod, am bwy rai yr ydoed' y fath

lawenyd' pān i caed drachefn, ac ra
bnasse fyth mor fath, pe i buasent heb
golli erioed, yn gymeint ac or blaen
ni chymeresyd gofal nac alar am
danynt.

Yr awrhon oni chawn, ac oni ad-
ferir i ni byth eilwaith, yn y byd
hwn, y peth a gollasom, etto mae'n
cydwybod yn ddiogel ac yn llawen
ynnuw: yr hwnn ddiogelwch a llaw-
enyd', syd' ymhell yn rhagori, ar oll
lawenyd' y byd: ac i ddoedyd mewn
byrr o eirieu, ar ol trwbleth ac ad-
fyd, i calyn pob daioni a dedwydd-
wch. yn gyntaf, yn gymeint a bod
duw, yma yn y byd hwnn, yn gobr-
wyo ac yn ailddalu duwioldeb, ymy-
ned' a duwiol ddianwadalwch, yn
gyflawn ac yn helaeth. yn ail, yn gy-
meint, ac mae hyn yw natur, a phri-
odoldeb duw, sef, tafly i lawr fal i Deut. 32.39.
derchafo eilwaith, a dwyn hyd a 1.Sa. 2.6.
byrth angeu, fal i gallo eilwaith ad- Tob. 13.2.
feru i fywyd. Doeth. 16. 13.

F Rhos

Rhos cochion 'rhai ynt y blodeu prydferthaf, a flagurant, ac a dyfant allan o'r drain pigog: felly, yn 'r vn mod', o fawr boen a thrasaul, y tyfiff y frwyth prydferthaf.

Y wenynen fechan a gascl y mel melysaf, or llysieu ac o'r blodeu chwerwaf; felly gwyr o ddoethineb a dcuall, a gāt, fud' a ffrwyth mawr oi blinder ai adfyd presenol.

Er ecsampl: Ioseph a gas-baed
Ge.37.5.28. gann ei frodyr, ac a werthwyd i wlad bell ddieithr: 'r hwnn beth a droed er mawr anrhyded', bud', a lles iddaw ef, am iddaw fod yn Arglwyd', ac yn llywodraethwr, ar
Ge.41.40. oll frenhiniaeth 'r Aipht.

Pwy fwya yr ymcane y creulon Pharao orthrymu a difa plant 'r Israel allan oi dir, fwyfwy i llwyddent, ac i'r amhlaeut, i rifedi anei-
Exod.1.12. rif. Ni adawod' y cythraul ddim
Iob 1. i'r duwiol wr Iob, cythr ef ai ysbeiliod', ac a ddyg oddiarnaw, cymeint,

meint oll ag a fedde ef, eythr yr Arglwyd a adferod iddaw ef drachefn y cwbl yn ddauperiog, a hynny yn y byd yhwnn. Iob.41.12.

Y neb sy 'n craffu ac 'n ystyr 'n dda gwrs y byd, a ddevall, pa wed i digwyd i wr weithiau yr hwn oed ddifhris 'n i wlad i hun, lle i adweinid ef, ac a yrrid oi wlad: ddyfod at bobl eraill, rhain a dybiant yn dda, ac a wnant yn fawr o honaw: ie, ac ai anrhydeddant yn barchus. Ac felly 'n fynych o amser, adfyd, a gorthrymder gwr i hun, a droes yn fud, ac yn lles godidawg iddaw.

Pen. 19.

Trwbl ac adfyd an cynorthwyant i'r bowyd tragwyddol.

GOrthrymder ac adfyd y duwiol, sy 'n rhoddi iddynt destiolaeth odidawg o anfarwolaeth, o gyffredin farn, ac hefyd o fywyd tragwyddol:

 canys

canys y mae 'n amhossibl fod y cre-
durieit goreu,'n vnic gwedi i ordei-
nio ai creu i bob artaith a phenyd,
ar rhai gwaethaf ac annwiolaf i
ddiainc 'n ddigeryd'; e fydde hyn-
ny yn llwyr yn erbyn cyfiawnder
duw. y rawron mae 'n eglur, na we-
lir gwahanieth ar y ddayar honn,
rhwng Paul a Nero, wrth ystyr
gwobr y ddau: ie, y duwiolaf, ar
mwyaf i rinwed' syd' yn gyffredi-
nol waethaf i hap, a lleiaf i obr: Er-
wyd' paam, mae 'n angenrhaid,
fod bowyd arall i ddyfod, lle i caiff
pob vn ar ol i ryglyddiad yn i fo-
wyd, ar y ddayar honn. a thra-
chefn: y ffordd' groes a ordeiniwyd
i fod yn iawn ffordd', i'r bowyd tra-
gwyddol.

Mal yn gyntaf i dyrnir 'r yd, i
nithir, ac i purir oddiwrth yr vs, ac
yno fe ai rhoir i fynu, ac ai cedwir
yn 'r yscubor: felly Cristnogion ar
y ddayar, a gurir, a labuddir, ac a
am-

amherchir, drwy bwy fod i certhir ac i glanheir hwy, oddiwrth lawer o wyg ac amhured gwag arferu, ac felly hwy a ddygir i'r scubor dragwyddol, sef, teyrnas nefoedd.

Fal na ddichon neb orfoleddu yn y maes, a chael ei goroni, oddieithr iddaw ymlad a rhyfela'n wrawl, (yr hynn beth ni ddichon fod heb perigl mawr, poen, a thrafael,) felly ni ddichon neb gael y goron, o'r bowyd tragwyddol, heb oddef o honaw'n gyntaf drwbleth mawr, tristwch ac adfyd.

Rhaid i'r claf gymryd y ddiod, ar feddyginiaeth, er fured, ac er chwerwed fyddo, er mwyn iddaw gaffael drachefn i iechyd, a diang rhac marw: felly nineu pann oddefom law dduw in rhwoli ac in ordrio, (drwy fod 'n fodlon ac 'n oddefus i hynny) er iddaw ferwino, a dolurio ychydig, etto fe a wnaiff les, ac a'n helpiff, ir bowyd ac i'r iechyd tragwyddol

wyddol

wyddol: yr scrythyr lan a dystia hynn.

Mat.5.4. Gwynn en byd y rhai galarus, canys hwynt a ddiddenir.

Mat.7.14. Cyfing yw'r porth, a chul yw'r ffordd sy'n arwain i'r bywyd ac ychydig syd'yn i chael hi.

Gwyn eich byd y rhai a wylwch 'r awrō, canys chwi a chwerddwch.

Act.14.22. Trwy lawer o gystud' y mae'n rhaid i ni fyned i deyrnas dduw.

Ruf.8.17. Os ydym ni yn blant, yr ydym ni hefyd yn etifeddion, os yn etifeddion i dduw, yna yn gydetifeddion a Christ, ag os cyd-oddefwn ag ef, fe a'n cydogoneddir hefyd gyd ag ef.

Yn y geirieu hyn yn eglur, i dengys S. Pawl fod yn rhaid i'r hwnn a fynno gyd-teyrnasu gida Christ, redeg hefyd trwy'r tan, gidag ef.

1.Cor.11.32. Ac am hynny pann in bernir, ein cospir gann yr Arglwyd', rhag ein damnio gyd ar byd.

Pen.

Pen. 20.

Pawed', ne fa fod' y dichō adfyd a gorthrymder, fod mor fuddiol, a chymeint i rhinwed', gann fod yr anffyddloniett yn myned yn gildynnach, ag yn warrgledach, drwy orthrymder ac adfyd.

HYd hyn i dangoſaſom y bud' ar lles corfforawl ag yſprydawl, trancedig a thragwyddol, 'rhwnn a dderbyn Criſtnogion drwy y groes, adfyd, a gorthrymder: yr hyn ni ddylid y gymryd nai ddeuall fal hynn, ſef, bod y groes ac adfyd, o honynt i hun, ne oi natur i hun 'n gallell dwyn a gweithredu y cyfryw ardderchawg leſad, canys felly y gallaſe Pharao, ac eraill o'r anuwolion, yn i trwbl ai adfyd, droi a bod yn gadwedig hefyd: eythr yſpryd duw ſyd' yn gorffowys yn ddirgel ac yn gorwedd yn guddiedig yn y ffyddloniett dann waſcod a rhiſc gorthrymder ac adfyd, ac ſyd' yn i ca-

carthu, yn i glanhau, yn i cysuro, ac 'n i cadarnhau hwy, ac sy'n gweithio yr oll ragddoededig fuddiau ynthynt hwy.

Yr awron mal y mae'r scrythur lan yn gaddaw gwobr sicr, in gweithredoedd da ni, rhain weithredoedd, er hynny, nid nyni syd' yn i gwneuthur, ond 'r Arglwyd' yr hwnn an cymer ni megys yn offer weithiaw; felly y mae'r groes yn offer weithiaw i ddum, drwy bwy vn y gorchfyga ef ein cnawd ni, in ceidw mewn yscol o gospedigaeth ac a'n cymell mal wrth gil gord' o ddrwg, i dda. Yrawron ple bynac y cymero yr yspryd glan i orffwysle, y rhann fynychaf, ef a ddenfyn arlwy wyr a rhagredegwyr, rhai ynt, tristwch, adfyd, trwblech a gorthrymder, fal y byddo yddynt ddallodi, trafferthu, vfuddhau, darostwng, a dwyn i lawr galon dyn, ac 'n ollawl i gorchfygu, fal y caffo yr yspryd glan fwy lle, i

weithio

weithio pob duwioldeb ynthi.

Ac am hynny beth bynag a ddoedwyd hyd hynn, yn enwedig am yr yspryddol fud', rhwn syd''n dyfod o'r groes, ac adfyd, y mae, ag felly y peru rhag llaw yn wir oll; os dehellir am y ffyddlonieit ar duwiol, rhain a gynesgeiddir, ac yspryd duw, i bwy rai y try pob peth er i diddanwch ai iechydwriaeth. Ac yrawron o'r ty arall er mwyn deall y peth yn well, mi a fynegaf, ac a ddãgosaf pa beth y mae adfyd yn i weithio yn'r anffyddlonieit, ar anwir, rhai ynt ddeffygiol o yspryd duw. yr anffyddlonieit sy yn rhoddi yr achos o'i llwyddiant, ai dedwyddwch, yw doethineb, gweithred ai synwyr i hun; ac nid i dduw: ac oi trychineb ai adfyd, i ryw drwg ddãwain, fal pe i bae allu i ffortun ne i ddãwain wneuthur dim o honi i hun, heb weithredu o dduw.

Cymer Senacheryb Arglwyd' a llywodraethwr yr Assuricit, er ecsampl: 2.Bre.19.35.

 sampl:

sampl: yr hwn drwy hir oddef duw a ddyg 'r oll fyd agos yn ddarostyngedic tano: yr hwnn beth a rodde ef yw allu ac yw synwyr, i hunan, ac nid i dduw: canys ef a gasaod' ac a
2.Cro.32. 23. gablod' wirdduw 'r Israel. Eythr ar fyrder gwedi, y danfnod' duw i Angel, rhwnn a laddodd mewn vn noswaith, gāt, pedwar vgain a ffum mil, oi wyr ef: ac er hynn i gyd ni chydnabydde ef mae duw a wnaethe hyn: tebygu yr oed' oud antur, mae rhyw ffortun, ne ryw beth arall oed' yr achos o hynn: cans pe i base iddo ef gydnabod, fod y cospedigaeth hynn yn dyfod, a gwedi i ddanfon, oddiwrth dduw, ni addolase ef
2.Bre.17.17. fal y gwnaeth, wedi, yn heml eulynawl y gaudduw at d'elw Mesrach.

Yn 'r vn mod', pann ddigwyddo dim trychnebus i'r anuwolion, hwy a feiant yn vnig, ar y peth cyntaf, a feddyliant am dano: ne yn anwire-
1.Bre.18.17. ddus hwy a fwriāt y bai ar 'r oll rai

nid

nid ydynt oi ffyd' ne oi crefyd' hwy: er ecsampl: Pann beidiod' a glawio dros dair blyned', a chwemis, 'n amser Achab brenin Israel, y brenin a edliwiod' hyn i'r duwiol Broffwyd Elias. Yn yr un mod' yn ein amser nineu, pan niweidio temestl yr yd, y gwin, ac eraill o ffrwythae y ddayar, llaweroed' a griant allan ac a ddoedant, nid rhaid i in ddiolch hyn, ond i'r ddyscetdiaeth ar ffyd' newyd' honn: fal pe i baent hwy i hunain mor Saincteid' ac na feiddie dduw, neu na ddylie ef ddim i ccryddu hwy.

Ni ddichon dim ond y defeit truain, gymyscu y dwfr i rwystro i'r blaid' yfed, ie, er nas deuant, ond yn unic ar y dorlan, ac yfed o lann yr afon. Ac hwytheu, hefyd, 'rhai a gowsont beth praw o'r Efangyl, ni fedrant oddef i badfyd yn oddefus, nai cyfaddef i hunain yn euawg: Eythr hwy a fynnent ysc-

wyd y bai oddiarnynt i hun, ai roddi, ar y llywodraethwyr, ne ar y pregethwyr, neu ar ryw beth arall: ac er bod i pechodeu hwy yn benthwir aruthr, ac er bod duw yn ewyllysio, i dwyn i edifeirwch, drwy i cospi, ai ceryddu, etto ni fedrant ystyr trymfaich i pechodae, na gweled eglurwch cyfiownder duw, 'rhwnn ni ddichon adel vn pechod heb gerydду: ac yn gymeint ac na chymerant y bychan, ar yscafn gospedigaeth hyn, yn ddiolchgar, eythr chwenychu diainc yn ddigeryd' bob amser, (o cant i dewis) am hynny y denfyn duw arnynt or diwed', blaee a ffoenus ddialeddae, yn bentyrrae: ag felly y digwyd' yddynt hwy, fal i'r assyn, 'rhwn a roesid i groen, ar y drwm neu'r tabwrd', (yn ol i ewyllys ai ddysyfiad i hun,) ac a gurid yn ddau nwy yno nac erioed or blaen, fal y testiolaetha, Aesop.

Ac

Ac yn gymeint ac ydynt hwy, drwy angrediniaeth a diffig ffydd, (yr hyn yw gwreiddin pob cabledd a ffieidd-dra) na ystyriant ac na chofiant pwy yw ef syd' yn gosod i law arnynt, neu er gwybod mae llaw Dduw ydyw, ni chymerant 'n lle da, ac ni wellant yn amgenach, na chwrf sur yn yr haf, hwy a wnair yn gyffelyb i blant asprus, rhai ni throant, ac ni wellant, er dwrd, nac etto er i curo. Ac am hynny y testia yr Scrythur lan yn dda: un sen a ddychryn y call yn fwy na ffe i baeddid y fol ganwaith. Dihar. 17.10 Er ecsampl: pwy hwyaf a ffwy dostaf y ceryddei Dduw Pharao, cildynnach oed' ef 'n yscogi ac yn llithro oddiwrthaw.

Yr anwir ar anuwiol, nid yn unig ni chymerant achos i gyweiriaw, ac i wellau i buchedd er ei adfyd ai tristwch, eythr hwy hefyd a dywalldant allan, bob bach ar aniodd-efgarwch, chwerwedd, a gwenwyn

atras,

attas, 'n erbyn cyfiawnder duw, gā
ddoedyd, fod i croes hwy yn fwy o
lawer, nai crosseddau, ai bod hwy yn
cael cam, ai ceryddu yn rhydrwm
heb achos. Ac o hynn, mae genym si-
ampl, o un or lladron, yn crogi ar y
groes gida Christ, yr hwn ai cab-
lod' ef gan ddoedyd, os ti yw Crist,
gwared dy hun a ninneu hefyd: yn y
geirieu hyn, mae ef yn dangos i fod
ef yn i farnu i hun, mor deilwng o
gymorth, ac ydoedd Crist mab
duw. fal pe i bae yn rhaid i dduw
angofio i holl gyfiawnder, a helpio
yn y mann bob pechadur cablus, ac
edrych megys drwy i fysedd ar y
byd anwireddus, yr hwn yw un or
cabledd mwyaf a ddichon fod tuac
at dduw. Ac wedi yddyn ymdra-
baeddu yn i pechod, (canys duw ni
helpa ddim, o hanynt, am nad oes
ganthynt goel na gobaith ynthaw)
gann geisio cymorth gann greadu-
rieit, yn gystal yn y nef ag ar y
ddaY-

ddayar, ac heb gael dim, yna y de-
chreu i croes hwy, ai adfyd egoryd
i llygaid, mor llydain, fal y byddo
angenrhaid yddynt weled, a chy-
faddef, digofaint a llaw dduw uwch
i penn.

Ac yna y bydd yr adfyd ar tri-
stwch hwnn oddi allan, yn nyn-
nu ynthynt ofn ac ammeu oddifewn 1.Sam.31.4.
or hwn y tyf 'r anobaith mwyaf, fal
y gwaeddāt ar Ddiawl, yw cynor-
thwyaw, os duw ni ddaw a help y-
ddynt: canys er i bod wedi i dwyn
i adnabod i pechod, ac hefyd, i ala-
ru ac i edifarhau oi plegit, drwy
y groes, (fal yr oedd Cayn a Sudd-
as) etto nid ynt yn credu, nac yn go-
beithaw y delevir, ac y maddeuir
yddynt i pechodae, eythr gwallgo-
fi, ac ymgythreulio a wnant, ai
rhoddi i hunain yn gwbl irr fall.
ac felly hwy a ymadawant yn do-
stur aruthr ar byd yma. o ddystry-
wiant ac o wradwydd pwy rai, y
ca-

Flectere si nequeunt superos, Acheronta movebunt.

canlyn y buddieu hynny: yn gyntaf e fyd' rhaid ydynt beidiaw a gwneuthur chwaneg o helbul, yn eglwys a theyrnas dduw, drwy siampl annwiol i buchedd hwy.

Yn ail fal y gallo yr sawl syd' yn byw ar i hol hwy, ddyscu drwy i siampl ofnadwy hwy, edifarhau a gwellhau mewn amser. Felly wrth a fanegasom hyd hynn, fe ddichon pob Cristion wybod, yn i drwbl ai adfyd, pwy bynnag yw, ai merthyr i dduw, ai i Ddiawl, a ffa fudd ddiaeth, a lles godidawg, y mae yr oll rai yn i dderbyn, ar ydynt ferthyron i dduw, drwy i blinder, i croes, ai merthyrdod.

Pen. 21.

Cymdeithion a chyfeillion mewn adfyd, a blinder sy gonffordddus.

Solamen miseris socios habuisse doloris.

PAm y dengys neb efo i hun yn annoddefgar er goddef y pethe

yr hwn ni ddichon ef drwy ddichell, cyngor, na mod' cyfreithlawn yn y byd i ochlyd, i newidio, i droi ymaith, i ddiwgio, ne i wellau? Y neb syd' synhwyrawl, a wnaiff wir rinwedd or cyfryw angenrheidioldeb, 'rhwn ni ellir mewn vn modd i helpu neu i' wrthod. Yrawron trallod, ac adfyd, ydynt felly yn digwyddo i wr, fal na ddichon ef i gwilio, nai rhwystro, er daed ganthaw: rhaid i wr oddef trallod, a blinder ar y ddayar hon nid oes dewis. A thrachefn: pabam y trallodiff neb efo i hun allan o fesur ynghylch y peth sy gyffredin i bawb, neu i'r rhā fwyaf, ac nid iddaw ef yn vnic? Wrth reswm naturiol, mae yr baich yn yscafnach 'rhwn a ddwg llawer ynghyd. Yrawron peth truan iawn ac alarus yw bowyd dyn, pan fyddo vn yn llwyddo, ac yn cael pob peth Psa.103.15.
wrth i fodd, etto mae arall megys Psa 90.5 6.
llyseuin ne flodeuin y maes, 'rhwnn a Psa.78.37.
flagu-

flaguriff dros ennyd, ac syd' hyfryd
Esa 40.6.7. Eccl. 14.17. a ffrydferth i'r golwg ac ar ol ychy-
dic amser a wyfa an a ddiflanna y-
1.Pet.1.24. Ia.1.10. maith: Tra fom ar y ddayar yma, y
ddym megys mewn maes, ne wer-
syll, lle y mae yn rhaid i ni yn oesta-
dol, luedda, ac ymlad' heb wybod
pwy a dyrr allan yn gyntaf, ne pwy
a ryd' yr arfod cyntaf in erbyn, ne
ymhle, neu ymhwy fod', neu pa am-
ser. weithiau fo restir ac a ddelir
corff y gwr, weithieu i dda ef, wei-
thieu fe ai difuddir oi enw da, wei-
thieu eraill, fe a ddigwyd' iddaw
aflwydd cyffredinawl, mal druda-
nieth, nodeu, rhyfel, rhain weithieu
a barhant yn hir iawn, fal y dichon
gwr ddoedyd yn dda, nad oes vn
aflwydd, eb gydymaith, vn ai ym-
laen ai yn ol. Ac nid oes vn aflwydd
cymeint, ar nas dichon ddamwei-
nio a syrthio ar bob vn o hanom
ni oll.

Or lleiaf mae yn rhaid i bawb o
ho-

honom edrychaim angeu; fal y doedwyd er ystalm wrth ein rhieni cyntaf. Gen.3.19.

Nid oed' ond ffol, ag ofer, adroddi siample o hynn, yn gymeint, ac nad oes neb heb le iddaw i achwyn am ryw beth ne i gilyd': ac er bod rhyw bethau yn damweinio ar ol ein ewyllys ni, etto nid yw hynny heb ryw saws chwerw yn calyn.

Ac yn anwedic yr awrhon, ystyriwn pa fodd y mae pob teyrnas Gristnogaidd o'n amgylch wedi i amgylchu o ddeutuy a thristwch, trallodae, a thrueni? Nid rhaid i ni fwy o edrych nac ar ein gwlad ein hun (sef Germania) nid oes na da, na drwg, duwiol nac anuwiol, heb ryw flinder ne arall; Ac er bod rhai yn medru ymdaro dros ennyd, ac yn medru darbod o hanynt i hunain dros amser, drwy gyfrwysdra, dichell, ffug, a rhagrith neu drwy ryw ffalsedd mewn cyfeillach,

llach, etto ymaent yn i dwyn i hu-
nain or diwedd, i enbydrwydd,
gwarth, a chwilydd mwyaf yn y
byd hwn, ac yn y byd sydd ar ddyfod.

A chann fod pob trallod ac adfyd
yn y byd hwn fil o weithiau, yn ys-
cafnach, ac yn esmwythach, ie, ac a-
gos yn ddiddim wrth y tan tragwy-
ddol, aniffodadwy, 'rhwnn a ddar-
parwyd ac a nynnwyd eusus, i an-
ffyddlonieit, ac anwir elynion duw,
fe a ddyle oll ffyddlonieit a duwiol
bobl, dderbyn a goddef ei gorthrym
deron, ai adfyd trancedic, drwy fwy
ymynedd, yn ewyllysgarach, ac yn
fwy diolchgar, gann ystyr a chofio
oll garedigion duw, 'rhain a orth-
rymwyd, ac a arteithiwyd yn aru-
Gen. 12.14. throl gan i gelynion: Abraham gan
Gen. 19.4. y Caldieit, Lot gā y Sodomitieit,
Gen. 20.2. G n. 32.7. Isac gā Ismael, Jacob gan Esaw,
Nu. 20.2.3. 4.5. &c. Moeses gann i bobl, Dafydd gann
1. Sa. 18.11. Sawl a chan i fab i hun: ac am Job
Iob. 2.7. nid ydoedd vn defnyn o waed o
fewn

fewn i gorff ef heb ddarfod. Joan fe- Mat.14.10.
dyddiwr, y Sancteiddiaf ar aned e- Mar.6.27.
rioed yn anianol o ferch, heb gwrs
ag ordr cyfraith, cyfiawnder a
thestwm, a dorwyd i benn yn y car-
char, fal pe i buasse ddiuw heb wy-
bod dim oddi wrthaw ef.

Y mae genym fil o gydferthyron
ac o gymdeithion yn ein trueni an
adfyd, ac wrth ystyr pa fodd y car-
charwyd, y dirdynnwyd, y crog-
wyd mewn cadwynt, y llosciwyd
mewn tan, ac y difethwyd hwy gan
anifeiliaid gwylltion, ac ffa wedd y
poenwyd mewn moddion eraill, nid
yw yr cwbl y ddym ni yn i oddef
ond gwynt, ne chwareu.

Ond yn anwedig, hynn a ddylid
i ystyr o flaen dim oll, yn ein trallod
an blinder, sef, bod Jesu Ghrist yn Esa.53.3.
gyfell, ac yn gydymaith i ni, ymhob 4 5.6.&c.
adfyd, yr hwn a oddefod' ar y ddaye Mat.27.1.2.
ar yn i gorff bob bath ar ferwindod Mar 15.15.
a ffoen. Yr awrhon, nid yw y gwas M at.10.
Luc.6.48.

bwch

i.Cor.1.30. Gal.4.5. Eph.1.5.6.7.

bwch law i feistr: pa reswm y doedd fod i naturiol fab duw, ('rhwnn y-doedd yn ollawl yn ddibechod) o-ddef mor greulon i faeddu, ai fer-thyru, ac i nineu 'rhai ym i blant ef (nid trwy natur, eythr trwy fab-wysiad a dewisedigaeth ac ymhob pwnc yn edawg) ddiainc yn ddi-friw? Yr awrhonn, gann hynny, pwy bynac sydd a chwilydd ar-naw oblegit y groes, ne syd' ridd-fanus tani, mae yn gwilwyddus ac yn flin gann hwnnw gael Crist yn gyfell ac yn gydymaith iddaw, ac am hynny yr Arglwydd Iesu Grist a fydd cwilydd gantham o honaw ynteu, yn y dydd diwe-ddaf.

YR

YR AIL RHANN OR *llyfr hwnn.*

Pen. 22.

Moddion naturiol, a ffyrdd, drwy bwy rai y gostegir, yr esmwytheir, ac y gorchfygir trallod, ac adfyd.



mod cyntaf. Yn gyntaf, ac yn bennaf ni d'yle neb ym gymyrred' a materion gwyr eraill, 'rhain nid ynt yn perthyn iddaw ef, nai fwrw i hun mewn periel, ac enbydrwydd, heb fod yn rhaid. Canys temptio duw fydde hynny, a gwrthnebus i siampleu ein iachawdwr Crist, ai sanctaid' Apostolion hefyd, 'rhain drwy orchymyn Crist, a ffoesāt weithiau, ac a ochelasant beryglon ac enbydrwydd. Ond ni ddichō gwr bob āser, yn onest ac yn weddaid' i gochel. Mat, 10. 23.

Yr

Yr ail mod': megys ac nad yw y
morwr yn gollwng allan i hwylieu
cynn belled, nas dichon ef i tynnu i
mewn trachefn yn hawdd, o gwyl
ef demestl gar llaw: yn yr vn modd
y dyle bob dyn tra fo pob peth yn
dda, ac yn llwyddianus oi duy ef,
Mat. 16.14. ragweled a darparu mewn amser y
Mat. 17.22. gwrthwyneb: erwydd pahā e ddoe-
Mat. 20. 18. dawdd yr Arglwydd yw ddyscy-
Mar. 8.34. blion ymlaen llaw, oi groes, oi an-
Mar. 9.31. geu, ai ddioddefaint, mal, pā i gwe-
Mar. 10. 33. lent hwy ef, yn goddef ing, a thri-
Luc. 9.44. styd, i bydde yddynt ofni ac yscog
yn llai: yn 'r vn mod' hefyd, y mau
god' ef yddynt ymlaen llaw, yr er-
lidid ac y trallodid hwy, fal y gall
ent edrych am hynny, a bod yn gle-
dach, yn hyfach ac yn gryfach, p
bryd bynac i'r erlidid hwy.

Y trydyd' mod', (ar hwy vn ma
pwys a sylwed' y mater yn sefyll a
yn gogwydd) yw, bod i wr dybie
a barnu yn dda, o'r oll gyfryw be-
thau

thau a ddamweiniāt, ac a ddigwyddant: canys pob peth a fyd' fal y cymerer: os prisia gwr olud bydol yn yscafn:beth (fal y dilid yn ddiau i brisio) ef a ddichon fod heddaw a llai gofid a ffoē. Ac yng wrthwyneb i hynny, o gwnaiff ef dduw o honaw ai briſio yn wyrthfawr, yna ef a ofniff ac a gryniff, ac a gymer yn drwm anfeſurol, pann i'r yſpeilir o hanaw, ne pan y dyger oddi arnaw. Yn'r vn mod', mewn pethau erail', fe a debig ac a feddwl gwr yn fynych yntháw i hun, na ddichon ef oddef, nac aros anffawd yn y byd: pann, pe i yſtyrid yn dda: y drwg preſennol, 'rhwnn yr yddoed' ef yn i ofni cymeint, a welid 'n waelbeth: ac nid aflwyd', eythr 'yn hytrach bendith, a daioni fydde. ac er na byddo ef yſcafn, a bychan yn ſiccr, etto priſier a chymerer ef yn lle yſcafn, yn gymeint ai fod yn dyſod yn vnig ac nad yw yn dwyn dau, tri ne gant

 o gym=

o gymdeithion gidat ef. Cans rhyfeddawl, a mawr wyrthieu duw, ydyw, pan ymysc cymeint o berygls mor anfeidrol, ac mor aneirif, 'rhain a ddarparod', ac a anelod' y byd ar cythraul eusus in erbyn, na ddymchwelid ni yn ollawl bendromwnwgl, ac na ddinistrid ni yn ddisymmwth ganthynt.

1.Pet.5.8.

Ac eto mae duw yn anfon ac yn cymyscu bob amser ryw ddaioni a diddanwch yw mysc. Mal, ond ancur mae iti gorff clwyfus, a dolurus eto mae dy feddwl, ath galon, yn iach, ac yn gref: ne, ond odid, ydd-wyd helbulus, a thrallodus yn dy feddwl, eto mae iti gorff iach dianaf: ne, nid hwyrach, y lledretir, yr yspeilir, neu y dygir oddiarnad, dy olud bydol, ac eraill oth wnfydae trancedic, etto, mae genyt lawer-oed' ac amryw rinweddau Cristnogaid', a godidawg ddonieu o ras, lle i mae fil o weithiau mwy dedwyddwch,

ddwch, nac mewn iechyd, prydferthwch, nerth, cyfoeth, cyfeillach, gwraig, plant, anrhydedd, urddas, a oll allu y byd. Canys ni scrifennwyd yn ofer; o Arglwydd, y ddayar Psa. 104.24
sydd lawn oth ddaioni: yma y dyle galō a meddwl trallodus, cystuddiedic, adel ymaith ystyrieth oi drueni, ai adfyd presēnol, a chofio pa gymmwynasae eraill, oddiwrth dduw sydd eto genym, ne a gowsō ymlaēllaw, neu or lleiaf, pa rai sydd eto i ddyfod, i hol ffyddloniett Gristnogiō. ac am hyny, y mae hen ddihareb, ddaionus yw choffa.

Mewn adfyd cofia lwyddiant:
Mewn llwyddiant meddwl am adfyd.

Heb law hyn: yn fynych, llawer colled ac anffawd, a aiff ymaith drachefn yn hawdd, ac a ddiwygir ryw ffordd arall: mal os dygir rhyw anwyl gydymaith oddiarnat, drwy angeu, di a elli gyffwrdd ai gystal ef yn i le, ne ryw lesad arall a ddichon ddigwydd iti, ynghyfer dy golled o

 fewn

fewn ychydic amser. A bwrw y peru oy drueni ach anffawd tros hir o amser, eto mae pob trallod 'rhwn yddym ni yn i oddef ar a ddayar honn yn drancedic, ac nid yw barhaus a chragwyddol. Hir amser a oftegiff, a esmwytheiff, a ostyngiff, ac a yscafnheiff bob merwindod, poen, a dialedd, os arferir, ac os meithrinir y meddwl ychydic yn iawn. Eto y doeth ni ddyl aros i'r gerwindod ar dialedd ballu, a gwisco ymaith o honaw i hũ, eythr i ragflaenu mewn amser, drwy yr cyfryw foddiõ, ar a ddyscasoin hyd hynn, ac syd' etto 'n calyn. Yn bedwaryd': ni ddylid dirmygu, distyru, na gwrthod moddiõ arferedic. mal y mae meistr llong, pã fyddo ar y mor, ac yn
Act.27.35. rhagweled temestl'n dyfod, yn galw am help a chymorth gã dduw, ac er hyny ai olwg ar y llyw, ac 'n i rwoli mor drefnus, ac mor gelfyd' ac i medr; felly ymhob angenoctid a fferyglon,

ryglō, mae 'n gyfraithlō, ac fe a ddy-
le wr hefyd, arferu pob mod' gonest,
cyfaddas: mal, phyfygwriaeth, a me
ddigyniaethae rhac dolur: poē, a lla-
fur, a chwys or tal, rhac tlodi: gallu
ac awdurdod y swyddog, rhac traw- Gen. 3. 19. Mat. 9. 12.
sineb, cāwri, cynddryged' ac ymry-
sonac: rhyfel, 'n erbyn sawl syd' ely-
niō in gwlad, ar cyfryw a hyn: drwy
na byddo i neb adeilad, na rhoi coel
mewn dim, ond n y gwirdduw hyw
'n unic, 'rhwn a ddichō helpu, gwa-
redu, a diwgio pob peth o honaw i
hun, heb help arall. Y pumed: pan fo
gwr 'n calyn, 'n arferu, ac yn gwas-
naethu crefft onest, a'r alwedigaeth
neu'r swyd' i bwy un y galwyd ef
gā dduw, ac 'n biwriadu i gwneu-
ther, i cyflo'wni, ai calyn yn ddilys
fal y dyle, mae hynny yn gwilltio y-
maith laweroed' o wag feddylieu, a-
llan o feddwl trallodus, 'rhwn a gy-
studdir drwy adfyd, ne ryw ddialed'
arall. Y chweched. megys ac y gw-

golwg gwā, clwyfus, 'n llō, ac 'n hā-
ddenus drwy wyrddio a newyddiō
liwiau hyfrydlawn, felly meddyli-
eu helbulus gorthrymmedic, a ddiodde
nir 'n rhyfeddawl, a fywheir, ac a ad-
ferir eilwaith yw grym, trwy afi-
aith, difyrrwch, a llawenyd' gonest,
gweddaid', cymesurawl; fal, trwy
wrandaw cerddānau musig, drwy
rodio allan, drwy newid yr wybrē,
a thrwy fyned allan or cyfryw leo-
ed', ar ydynt fwll a thywyll. Ac yn
enwedic hyn syd' ddiddanwch ac
esmwythdra daupenniog, i feddwl
cystuddiedig aflonyd', sef, 'n i adfyd,
ymweled ai anwyl garedigion, neu
pan ddelōt hwy i ymweled ac efo: 'n
gyntaf, wrth fanegu i ddialedd, ai
ddolur, wrth i gydymaith, ac ego-
ryd i holl galon, a doedyd i oll fe-
ddwl wrthaw, ef a gaiff esmwyth-
dra godidawg. Ac heb law hynn, y
gwir ar ffyddlon gydymaith, drwy
dosturio wrthaw, a chwynfā iddaw,

ai

helpiff(megys)i ddwyn i faich: ac er na ddichon ef anchwanegu dim o fylwed' i drifdwch ef, etto i galon, ai ewyllys da, ai eirieu caredigawl ydynt ddiddanwch mawr iddaw.

Pen. 23.

Goreu, a siccra cymorth a diddanwch mewn adfyd, sydd yn unig yn nerth, gallu, ewyllys, a daioni duw.

YR awrhon mi a ddangosaf ac a fanegaf, pa wedd y gelliff, ac y dichon duw, helpu ac chynorthwyaw yn ddigonawl, er mwyn Crist; er mwyn pwy vn, y mae ef yn gaddaw i ni, bob bath ar help, cymorth, a diddanwch, ac yn i gyflawni. Myfi a ddangosaf hefyd, drwy ba foddion ac ymha fesur, y mae ef yn gwneuthur hynn. Duw fy yn gweled ac yn edrych arnom, pa fodd yr ym ynglyn, ac yn ymdrech mewn pericl, ac enbydrwydd, ac ef a wyr yn oreu or cwbl, pa wedd a ffa brydd, y

cynorthwya, yr helpa, ac y gwaret-
diff ef ni; fal y chwaneger i ogoniāt
ef, an bud' nineu. Ac nid yw ef yn v-
nic yn gwybod pob peth, ond y mae
ef hefyd yn ollalluog, ac ef a ddichō
wneuthur a dwyn pob peth i bē. Ac
os ein gorthrymderō a chwanegāt,
ac a gynyddant o ddyd' i ddyd' (ac
a ant waethwaeth pwy hwyaf) eto
mae duw fil o weithiau yn alluo-
cach, ac n gryfach nag ynt hwy. ond
ni ddichon duw fod mor alluawg,
nad yw ef hefyd mor rasllawn, ac
mor drigawg, ac mae ganthaw fwy
chwant, a disyfiad, i ddangos ac i e-
glurhau ei galon gowir, ai gariad
tuac attō, nac a fedrwn i, i ewyllysio
nai ddysyfu. Ac er i fod ef in tyb ni,
'n tynnu ymaith 'n ollawl, gwbl o-
leuni ei ras allā o'n golwg ni, eto ef
a beru yn rasllawn ac yn gariadus
tuac atom yn ddirgel ac megys yn
guddiedig. Ac 'n ddiau ni wrthyd ef
ddim o honō, ni ryd' ef ddim o honō
i fy-

i fyny, ac ni edift i ni lynu, ac aros yn oestad, yn y cyfryw drymder, ac enbydrwydd.

Ac nid ein gweithredoedd' da ni, na'n haeddiadae, a'n rhyglyddiadae ni, ai cynhyrfant ef i hyny, eythr anfeidrawl a didranc ryglyddiad a haeddiad Iesu Grist, 'rhwn a bwrcasod' i ni trwy i angeu ai ddioddefaint, faddeuant pechodae, nefawl ddonieu 'r yspryd glā, gostegiad ac esmwythdra o bob trallodae, a gorthrymderae: ac nid yw bossibl, vn ai i bechod, ai i ddiawl, ai i'r byd, ai iol' greadurieit yn y nef ar ddayar, orthrymmu, a gorchfygu y gwr, 'rhwn a gymero afael ar Grist, ac sy ac ef ganthaw. Eythr ef a beru'ac a saif yn dragwyddol dan ascell a noddfa duw. Rhuf 8.1. Psal. 34. 6. Dihar. 24.10

Heb law hyn; yr ollallvog dduw 'rhwn a gymodwyd, ac a heddychwyd a ffob rhyw ddyn, a addawodd' yn gystal i blāt yr Israel, ac i bawb

oll sydd mewn gorthrymder ac adfyd, drwy i weinidogion yn dragowydd, o amser i amser, help, cymorth a diddanwch: yr arglwydd
Ps.147.3. sy yn iachau y rhai briwedic o galon, ac yn rhwymo i gwelieu.

Gwaredaf ef hefyd, am roddi o honaw i serch arnaf mi ai derchafaf
Ps.91.14. am iddo adnabod fy enw.

O pa ryw beth cwnffwrddus, a ffa fawr anrhydedd yw, gael cydymaith mor ffyddlo ac mor alluawg, yr hwn mor gariadus a saif gida ni, ac an cynnorthwyiff. yr awrhon am yr amser: fe helpiff duw mewn amser dledus cyfaddas, ac mae'n rhaid i ni oddef iddaw gymeryd i amser, ai ennyd. Canys fal y gwelo duw drwbleth a gorthrymder i eglwys, pa wedd y cystuddir, felly ef a ordeiniawd amser pen, pa hyd y goddef ef i'r anuwiolion gael i gwnfyd, a ffa bellder yr ant, ac i bwriadant ywerbyn: a ffann ddarffo hynny,

yn

yn hwy, nac ymhellach ni allant fyned.

Mal, caethiwed Babilon a or- 2.Cro.37.
deiniwyd i barhau ddeg mlynedd a Ier.25.12. Ier.29.10.
thrugain, ac yno i beidiaw: ie, pan fo tristwch a thrymder yn y fan eithaf, a ffob un o honom yn tybied ddarfod i dduw yn hollawl yn gwrthod, yna mae duw barotaf in helpio, ac y mae i gymorth ef yn nessa atom. ac i ddoedyd y gwirionedd mae duw yn oestadawl yn ein cysuraw,
ynghanol yn trallod a'n trueni, ac Psal.46.1. Mat.28.9.
nid yw ef un amser oddiwrthym: Ioan.14.1.
tanys y gwr ffyddlon sy ac ysbryd
duw ganthaw yn ei galon, rhwnn Io.4.14.
yw ffynnon a gwreiddin y nefawl ddwfr, o ba un y dwfrheir ef yn oestadawl, i bywheir beunydd, ac i'r adnewyddir, yw fawr gysur.

A ffwy fwyaf y chwanegiff ein tristwch, a'n gorthrymder, mwyfwy help a chymorth a gawn, ac a dderbynniwn gann dduw.

1.Cor.10.3. Duw sy ffyddlawn, 'rhwn ni ad
eich tēptio uwch law hyn a alloch,
eythr gida yr profedigaeth y gwna
2.Pet.2.9. efollyngdawd, fal y galloch ymdda-
ro, yn y geirieu hyn, mae S. Pawl
2.Cor.1.5. yn dyscu 'n gonfforddus, na themp-
tia ac na ffraw duw ddim o hanom,
yn dostach nac 'n drymach, nac y ga-
llom i aros ai oddef. Ac megys yr
amlheir dioddefiadae Crist ynom,
Act.5.40. felly yr amlheir ein diddanwch ni
trwy Grist. er ecsampl. Y sanctaid'
Apostoliō a gadarnhawyd mor ddir-
fawr, 'n i adfyd, mal y llawenychēt,
am i tybied yn deilwng i gael i am-
herchi dros enw Crist. Ac n' r amser
presēnol hwn, mae duw n anfō niwy
diddanwch i ni, nac a ddichon yr oll
ddiawlieit, nar oll fyd i gyd, i anfon
o drymder, tristwch, ac anghysur.

Mal y mae capten yn yr rhyfel 'n
rhoddi cysur yn i filwyr sy danaw,
drwy ymadroddi wrthynt yn wr-
aidd, ac yn gōffwrddus, felly y myn
duw

duw beunyd', gyhoeddu a ffregethu
allan, ei air conffordous ef, er mwyn
diddanu i filwyr, sy'n ymlad' dann
i faner ef. Ac eto nid yw ddigon
ganthaw ein conffordio yn unic a
geirieu, eythr y mae ef i hun yn bre-
sennol gida ni hefyd ai yspryd, yr
hwn yspryd, megys gwarant siccr, Mat. 28. 20.
a chennmogernes, sy'n rhoddi gwy- Rhuf. 8. 12.
bodaeth, ac yn sicrhau ein calonnae
ni, o ras, trigared', a chymorth gān
dduw. Ac fal hynn y conffordia ac
y gwnaiff ef ein calonnae, orfole-
ddu yn ddiffuant, ac y rhyd' ef i ni
ddaechineb, hyder, a nerth, i lue-
dda, ac i ymlad', yn erbyn pob bath
ar elynion, yn gystal ysprydawl, a
chorfforawl.

Er bod prennieu y gauaf yn ed-
rych nid yn unic yn anffrwythlawn
eythr yn ollawl yn feirwon, etto yr
haul drwy i ddyfodiad, wedi i'r ga-
uaf gymeryd i gennad, sy'n me-
ddalhau, yn dattod, ac yn gwresgi, Mat. 24.
yn

yn gystal y ddayar, ar prennieu, fal y blagurant eilchwel, yn wrddleision, gann ddwyn ffrwyth: felly pann briser, ne pann debigir fod y ffyddlawn, yn llesc, ac yn ddiddim, o bob help ac yn ollawl yn wrthodedic, etto mae nesawl yspryd duw, yn llewychu, yn gwresogi, ac yn cadarnhau i calonae i bob daoni.

Megys ac na ddichon dyn bychan, gerdded o honaw i hun, gann wir fechiant rwyd', a dilawch oddieythr i gynnal, ai ddala i fynu, ne i arwain erbyn i law gann y fammaeth. Ac meis, ac na ddichon merch glwyfus, yr honn a wanhawyd gan lawer, a hir ddolur, gerdded vn camm, oddieythr i ryw ferched iach, cryfion, i chymeryd erbyn i braich, ai fforddio, ne i thywysu, i gerdded gida hwynt; yn yr vn mod', nid ym ninneu abl i gerdded o hanom ein hunain oddieythr ein helpio, an cynorthwyo gann ddwu.

Y mae bach ar drîstwch, a merthyrdod, rhac pwy vn yddym yn crynnu, ac yn ysgwyd pann na chlywom ond i henwi: llai o lawer y gallwn, i goddef, ai derbyn, cythr duw ai law nerthog, ac ai allu presennol sy 'n ein cadarnhau, yn ein cynnal, ac yn ein gwaredu.

Yr yspryd sy yn cynorthwyo ac yn helpu ein gwendid, a'n gwaeledd ni. Ac os yw y cythraul drwy ei yspryd ef, yn gwthio ac yn cynhyrfu y bobl, i fod yn barod ac yn ewyllyscar i bob anwired', a ffieidd-dra, (pe i coste yddynt i hoedl) pam na elliff duw drwy ei yspryd ynteu, yn gwneuthur yn grysion, ac yn ewyllyscar ac yn barod i bob daioni, er yr oll drystwch ac adfyd, 'rhai yddym ni yn i goddef? Mae duw weithiau yn lleihau ac yn esmwythau cospedigaethae, fal y gallo gwyr yn haws i gorchfygu. Ruf, 8, 11.

Y

Y capten weithiau, a ryd' rydid y w filwyr, i gymeryd i llonyddwch, i esmwythdra ai disyrrwch, fal y gallant i distinaw ai hamddenu ei hunain, ac ymlad' yn ol hyny 'n wreiddiach, ac yn gryfach, felly ein capten nineu, a ganiadheiff yn fynych i ni, sef Cristnogiō, ryw ddisyrrwch, esmwythdra, a diogelwch, drwy ba rai in esmwythcir ac in hamddenir, fal y gallom ein ymddwyn ein hun yn wrolach yn ein milwriaeth yspryddol. Ac weithiau ef a ryd' yn ollawl i ni ollyngdawd, allan o bob trallod ac aflonyddwch, ac a adferiff drachefn i ni ein oll golledae, a'n rhwystrau, ac an gweryd er ein ragorfraint goddidawg, mawl a chāmoliaeth, ac ef an ceidw ac a'n gweryd oddiwrth bob trueni ac anhedddwch mewn amser i ddyfod. Ac i gyflawni hyn, nid yw duw yn arferu oi yspryd yn vnic, eythr o foddion eraill hefyd, megys yr Angylion,

lion, y ser, yr elfynae, bwyſtfilod, gwyr, a ffob bath ar greadurieit e= raill. Psal 104. Hebr.1.7.

Meis ac y mae gann wr o ryfel well ewyllys, a chalon i ymlad', pann fyddo lliaws o weiſion gwchi= on wrth i gefn ef,'rhain ni adawant iddaw gael camm, felly yr Angyli= on ſanctaid' a'n amgylchant, ac a'n ymddeffynnant nineu, fal y bydd= om hyderus, ac abl i ſefyll, ac i bar- hau yn gryſion, ymhob rhyw adfyd a gorthrymder. Psal.34 7. 2.Brc.6.16.

Elizeus a ddywod wrth i lanc, nac ofna, canys amlach y w y rhai ſyd' gida ni, na rhai ſy gidac hwynt. 2.Brc.6.16.

Y mor coch, ar Iorddonen, a ym- holltaſont fal y galle blant yr Iſ- rael fyned troſod' yn ſych heb vn- waith wlychu i traed. Exod.14.22.

Yr haul, ar lleuad a ſafaſont wrth bleſer Iosua, ac ni fryſiaſont i fa- chludo, nes i'r genedl ddial ar ei ge- lynion, ac nes dal o honaw ef y Ios.4.8. Ios.10.13.

pum

yuni brenin.

1.Brē 17.6. Elias a borthwyd yn rhyfeddol gann gigfrain.

Ester.7.3. Est 8.5.6. Est 9.1. Iudit.13.8. Homo homini Deus. Trwy law merch y gwaredwyd 'r Israelieit oddiwrth lu creulō ofnadwy ei gelynion, ac yngyffredinol, duw a weryd wr drwy wr arall.

Mae hyn hefyd yn enwedic 'n beth cōffordus, sef, bod holl ffyddlonieit, a sanctaid' Gristnogion ar y ddaiar, yn cael cymdeithas a chyfrranniad ynghyd, ymhob rhyw beth, da, a drwg, yn gystal y naill ar llall.

Esa.58.10. Ez.18.7. Mat.25.35. Ac am hynny pa bryd bynac y goddefwy ddim gerwindod, poen, ne drifftwch, mae Crist a oll wir Gristnogion, yn cydoddef a myfi: canys, ni ddiwaid yr Arglwyd', pann newynent, ne pann sychedent, &c. Eythr ef a ddywaid, bym newynog, bym sychedig. &c.

Ac heb law hynn, holl gyneifleidsa Grist, am cynorthwyant, ac am helpant i ddwyn fymaich: canys y sawl

sy

sy aelodae o vn corff a gymerant o-
fal a ffrudd-der y naill tros y llall.
Os briwiff gwadn y troed, oni ddo-
luria'r holl gorff? yr awdwr S. Gal.6.2.
Pawl a eilw oll Gristnogion vn
corff, ac hefyd vn bara, vn cwpan: ac
am hynn pawb eraill o ffyddlonieit
Gristnogion, a dosturiant, ac a drist-
hant trosof, a ffa beth bynac syd' ys-
cafn yddynt hwy, syd' yscafn i mi-
neu: cymer siampl eglur o'r dwywiol
Brofftwyd Jeremi, 'rhwn a achwy-
nai 'n ddirfawr ac yddoed' mewn cy-
fingdra mawr, pan nad oed' iddaw
vn achos, eythr am fod yr Iddewon
i gyd wladwyr ef mewn cymeint o
ddialed' a chamwri.

Pen. 24.

Siamplen godidawg, o gymorth ac o help dduw.

IR perwyl, ac i'r diwedd yma, y dylem ystyriaw hefyd, a chofio

fi.

siamplae, o'r hen ac o'r testament newydd. Pe i base i dduw vn amser wrthod ei ffyddlawn etholedigion, yn ei trallod ai angen, yna y caem ni escus cysion ac achos cyfraithlawn yw anghoelio ef. Ond yn gymeint ac na wrthodwyd neb erioed, a geisiawd dduw, oni ddyle hynny yn diddanu'r ni a siccrhau ini, y saif ef gida nineu hefyd 'n drugarog, yn ein holl adfyd a'n eisieu?

Psal. 37. 8.

Y gwr duwiol Noah, ai feibion, a gwraged ei feibion, a gadwyd gann dduw drwy arch, neu long, (pann gyfergollwyd yr oll fyd onid hynny) gan y diliw: yrawr on os ny ni a gredwn gida Noah, yn y bendigedic bad, yna in cyfrifir ni hefyd 'n rhinweddol gidag ef, ac yn ddaionus o flaen duw, ac in cedwir fal ynteu.

Gen 7. 1.

Gen 3. 15.

Lot a waredwyd oddiwrth blaee a chospedigaeth y Sodomiciaid.

Gen. 19. 16.

Iacob a orfu arnaw ffo, rhag i frawd

Gen. 37. 28.

frawd Esaw a goddef trawsineb, a chamwri mawr, gann i dad ynghyfraith Laban, ac er hynny ef a fendithiwyd, ac a gadwyd gann dduw.

Ioseph pann i gwerthyd gann i frodur, am na chytune ef i wneuthur aflendid a ffieidd-dra, a gwraig ei feistr, a daflwyd yngharchar. eythr duw ai gwaredodd ef ac ai derchafod' i anrhyded' uchel. Gen.39.7. 20.21.

Y brenin Pharao a fygythiodd foeses yn aruthr, a phlant 'r Israel hwychau a fynnēt i labyddio ef hyd farwolaeth, eythr duw ai ymddeffynnod' ef tann i nodded. Exod.14.11.

I blant 'r Israel y rhoes duw ddwfr allan o'r graigle galed, a bara o'r nefoed', a soflieir, yn rhyfeddawl, er cysur yddynt yn i angen ai cledi. Exo,16. 13. Exod.17.6.,

Mor rassawn y cadwod' duw y brenin Dafyd', ac Ezechias yn ei trwbl, ai adfyd, ac hefyd y Proffwydi Ezechiel, a Daniel ymlhith y yr 2.Bre. 19. 6. Eze 32. 21. Dan.6,23.

an-

siamplae, o'r hen ac o'r testament newydd. Pe i base i dduw vn amser wrthod ei ffyddlawn etholedigion, yn ei trallod ai angen, yna y caem ni escus cysion ac achos cyfraithlawn yw anghoelio ef. Ond yn gymeint ac na wrthodwyd neb erioed, a geisiawdd dduw, oni ddyle hynny yn diddanu ni a siccrhau ini, y saif ef gida ninneu hefyd 'n drugarog,
Psal. 37. 8.
yn eimoll adfyd a'n eisieu?

Gen. 7. 1.
Y gwr duwiol Noah, ai feibion, a gwraged' ei feibion, a gadwyd gann dduw drwy arch, neu long, (pann gyfergollwyd yr oll fyd onid hynny) gan y diliw: y rawron os ny ni a gredwn gida Noah, yn y bendigedic had, yna in cyfrifir ni hefyd 'n rhinweddol gidag ef, ac yn ddai-
Gen 3. 15.
onus o flaen duw, ac in cedwir fal ynteu.

Gen. 19. 16.
Lot a waredwyd oddiwrth blaee a chospedigaeth y Sodomicield.

Gen. 37. 28.
Jacob a orfu arnaw ffo, rhag i

frawd

frawd Esaw a goddef trawsineb, a
chaniwyri mawr, gann i dad ynghy-
fraith Laban, ac er hynny ef a ben-
dithiwyd, ac a gadwyd gann dduw.
Ioseph pann i gwerthyd gann i Gen.39.7. 20.21.
frodur, am na chytune ef i wneu-
thur aflendid a ffieidd-dra, a gw-
raig ei feistr, a daflwyd yngharchar.
eythr duw ai gwaredodd ef ac ai
derchafod' i anrhydedd vchel.

Y brenin Pharao a fygythiodd
foeses yn aruthr, a phlant 'r Israel
hwychau a fynnēt i labyddio ef hyd
farwolaeth, eythr duw ai ymdde- Exod.14.11.
ffynnod' ef tann i nodded.

I blant 'r Israel y rhoes duw Exo.16.13.
ddwfr allan or graigle galed, a ba- Exod.17.6.
ra or nefoed', a soflieir, yn rhyfedd-
awl, er cysur yddynt yn i angen ai
cledi.

Mor rassawn y cadwod' duw y
brenin Dafyd', ac Ezechias yn ei 2.Bre.19.6.
trwbl, ai adfyd, ac hefyd y Proffwy- Eze 32.21.
di Ezechiel, a Daniel ymlhith y yr Dan.6,23.
an-

anffyddlonieit: ac yn'r vn mod' y
1.Mac.2.28. ymddeffynnod' ef Iudas Macha-
Act.23.12. beus,ac eraill y pryd hynny. De-
geinwyr a wnaethent addunet n
fwytaent,ac na yfent, nes yddyn
lad' Pawl : eythr ni oddefod' duw
i hynny ddyfod i benn. Y rhain a
cyffelyb siamplae a'rhain,a scrifen
nir er y perwyl hwnn, sef, er i
farnu, a thybied yn gyffelyb, o e
raill or cyffelyb ecsamplae. 'rhai
ni honnwyd ddim o hanynt. Heb-
law hynn: mae 'n eglaer, ac fe
welwyd yn fynych, y rhai mwya
i harswyd, y rhai gwannaf,ac ofnu
saf, wedi i cadarnhau mewn ffyd',
trwy rymm a gallu duw 'n godde
artaith, allwladwriaeth, ac angeu,
yn ewyllyscar, ac yn llawen, gann
gonfforddio hefyd, (a hynny yn er-
byn anian a natur cnawd dyn,) yn
hyderus, y rhai a gydoddefent gi-
da hwy, ie, nid oes vn o hanom ni
oll, ni chafes help, ymddeffyn, a
chy-

ychymorth gann dduw: canys pwy a
ddichon fostiaw, helpu o hanaw ef
ddim, pann y lluniwyd ef ynghroth
ei famm? am hynn o beth darllain
Ddafydd.

Pwy an cadwod' ni hyd hynn tra Psal 119.
fuom yn cyscu? Pwy a bryderod' Psal.27.2.
ne a gymerth ofal am danom ni, tra
beddē yn gweithiaw, neu yn chwa-
reu, neu yn gwneuthur rhyw beth
arall, heb ofalu gymeint ar mynu-
dyn lleiaf am danom ein hunain?
Fe alle y goddefiff duw weithiau i
ni nofio, ond ni oddef ef bythi ni su-
ddo, na boddi.

Ac i ddoedyd ar fyrr o eirieu: pe
bae heb fod cymeint o siamplae o
flaen ein llygaid, pe i baem ond e-
drych ychydic yn ein ol, ac ystyriaw
pa wed' y darfu i ni bassio a diainc
a'r hyd 'r amser aeth heibiaw, yr
hwnn yn ddiau a fu lawn o bery-
glon mawrion, ac enbydrwyd': ni
anfod' fe an cymhellid i gyfaddef
ac

ac i ganiadhau, mae trugarog dd
oni duw a'n cynhaliod' 'n i fynwe
ac an cadwod' oddiwrth amry
enbydus beryglon, mwy, a goruw
oll a'r a fedrem ni byth i feddwl,
fyfyrio, ne i ddychymig.

Yr awrhon, os helpod', ac os gw
redod' duw ni cynn amled, a chy
fynyched, heb ein poen au llafur e
hunain, ac heb gymeint a gofalu
waith, drosom ein hun, pan oedde
heb na gwybod, na meddwl i fod
yn bresennol gida ni, fe ellid' n ba
nu yn wrthnysic, yn aneallus, ac
ynfyd aruthr, oni fwriem o hy
allan ymhob trallod, ac angen
tid, ein pwys arnaw ef, gann adel
ddaw ef ofalu trossom: ond ny
(gwae gann gwilyd') yn y cyfry
gyflwr, a ddechreuwn ameu ac
ni, i fod ef eusus wedi ein gwrth
neu rhac iddaw o hynn allan
rhoi i fyny.

Psal.55.22. Mat.6.25. Luc.12.22. 1.Pet.5.7.

Heb law hynn, os yw duw oi

tur

turiol gariad, cymwynasgarwch, ai wir haelioni, yn rhoddi, yn y bywyd trancedig hwnn, iechyd, nerth cymdeithas, gallu, awdurdod, ac anrhydedd', ar cyfryw a hynn, i'r anwir, ac i'r anuwiol, ni a allwn wybod, a chasclu wrth hynn, y rhyd' ac y cyfrenniff ef fil o weithiau, well, a gwerthfawrochach ddonieu, i'r duwiol, ac ffyddlon Gristnogion, er nas gwelant, ac er na dderbyniant y donieu hynny'n yr amser presennol. Heb law hynn, mae'r Arglwyd' yn ein conffordio ni, gann ddoedyd; os yw duw yn gofalu tros hediaid y nefoed', a llysieu y meusydd', gann ddarparu yddynt fagwriaeth, a dillad, yn wir, ef a wnaiff yn ffyddlonach ac yn gredicach, i ni, rhai ym yn rhagori, ynhell hediaid y nefoed', a gwellt y maes. Luc.12.24. Mat.6.28. Mat.10.29.

H Y

Y RHANN OLAF
or llyfr.

Pen. 25.

Mae yn rhaid i ni vnioni a llwybro, ein ffydd, ein gobaith, an coel yn vnic tu-ac at dduw.



Yd hyn y dyscwyd ac y manegwyd, fod yr iawn, ar gwir help, cymorth a diddanwch yn sefyll ynnuw, trwy Grist, ac er i swyn ef. yrawrhon y dyscir, pa wed' y dylem ni yn llywodraethu a'n ymddwyn esn hunain, trwy ffyd', gweddi, edifeirwch, gwellant buched', ac ymyned', fal y byddo i dduw gyfrannu, rhoddi, ac estyn, ei ras, ai nerthfawr drigaredd law tu-ac attom.

Yn gyntaf oll, er bod yn rhaid ini yn ollawl anobeithaw, o bob bath

ar help, a chymorth gan ddyn, ac er na feddrom mewn vn mod', feddwl, na dychymig, pa ffordd', ne pa wed', y dichon duw ein helpio, a'n cynorthyaw; etto er hynn y mae'n rhaid i ni wrthnebu'n ollawl, a tharfu ymaith, bob trwm feddwl, gwag fwriadau, ac amcaniō ofer, ac na roddom ddim lle y ddynt, eythr rhoddi ein gobaith, a'n crediniaeth 'n ſiccr, ac yn ddiyſcog ar dduw, gann feddwl y gwyr, ac y cymer ef y'r iawn amſer, mewn meſur a moddion in helpu, ac in gwaredu, yn ardderchawg ac yn ogoneddus.

Ymrown ein hunain, gann hynny i dduw, yn llawen, ac yn hyderus, heb ofn: a bit i drigared', ai raſlawn ddaioni ef mwy in llawenychu, ac in diddanu, nac yw holl drueni a thriſtwch dann y nefoed', ac ar y ddaiar, neu yn vffern abl in ofni. ie, ni ddylem ni ofalu, na ffryderu am ddim 'n gymeint, ac am hyn ſef rhac

ein bod yn rhy ofalus, ac yn drafferthus ormod trosom ein hunain, fal pe i bae i dduw fwrw ymaith pob gofal, a ffeidio a meddwl am danom. Canys, meis, ac y mae tad, llywodraethwr, ne wr tuy, yn cymeryd holl ofal, a siars, arnaw i hun, pa fod' y ceidw, y pyrth, ac y cynal ef i dylwyth, ai deulu: ar gweinidogion a ddylēt hwythau or ty arall, garu ei meistrieid, tybied 'n dda o hanynt, ac hefyd gweithiaw, a gwneuthur y cyfryw wasanaeth, a gorchwyl, yn ffyddlawn, i bwy tai i'r ordeiniwyd hwy: felly yn yr un mod', pob trafferth a gofal on plegit ni, sy'n perthynu i dduw, an rhann a'n dled ninneu, yw, gobeithaw a chredu ynthaw ef, ai wasanaethu ef yn ffyddlawn yn y swyd' ar alwedigaeth i'r honn in galwyd, ac in ordeiniwyd gann dduw.

Wrawrhon, gā fod duw yn fuddugoliaethus, ac yn ddiorfod, a chan

fod ei anwyl garedic fab ef hefyd, yn nerth tragwyddawl, yr hwnn ni ddichon byth ballu yn erbyn y cythraul ar byd, a thrachefn, gann fod Crist, a duw i hun, yn eiddom ni trwy ffyd', ac'n trigo ynom, nid oes yn achos, pam i'r ofna y ffyddlawn Gristion, vn ai i gnawd, ai gorff llesc i hun, ai wann ai ddirym oedran, ai etto oll allu y cythraul, pe i rhown iddaw, a bod yn arfog, ag wedi i ymwiscaw i hun, a mil filioed' o fradau a dichellion yw erbyn. Canys os yw pob gorfoled', llawenyd', a dedwyddwch ynnuw, a nineu trwy ffyd' yn i brofi, ac yn i gael ef, yn drugarog, ac yn dduw graslawn, tu ac attom, yna y gallwn yn gyfreithlawn, ymlawenhau ynnuw, ynghanol y tristwch, ar adfyd mwyaf, ar a ddichon fod.

Testiolaeth o hynn. Ni wradwyddir ac ni chwilyddir y neb a obeithiff ynot i. Ac eilwaith. Bwrw Psal. 25.3.

dy ofal ar yr Arglwyd', ac ef ath fa-
etha di, ac ni ad ef ir cyfiawn gwym-
po byth. Beth ellir i feddwl, neu i
ddychymig, mwy hyfryd a chōffor-
ddus? Y wraig o Ganaan gan roddi
ymaith bob gobaith a chonffordd' yn
help a synwyr dyn, sy'n damunaw
help a chymorth gann Grist: Ac er i
fod ef yn rhoddi iddi, y tro cyntaf
atteb garw anghysurus, etto nid
yw hynny yn sannu dim arni, ni syn
hi moi atteb felly ganthaw: yn yr
vn mod', dal dithau wrthaw gida'r
wraig cenedlic, gann ddoedyd a lle-
fain yn ddibaid, Mab Dafydd tri-
garha wrthyf, ac yno y cai glywed
or diwed' y newyd' da, ar rhydd had
conffordus hwn, mawr yw dy ffyd',
bit i ti fal y mynnych. S. Bernard
a ddengys yn gonffordd us iawn, pa
ffyd' oed' ganthaw, yn y gerieu dai-
onus hyn: O Arglwyd', gwell i mi
o lawer oddef adfyd, fal yn vnic y
byddych im emyl na rhwoli yr oll
fyd,

fyd, a byw 'n hyfryd, ac yn ddaintethol hebod ti, mae yn well i mi fod mewn ffwrn boeth danllyd gida thi, na ffe i bawn 'n y nefoed' hebod ti: A ffwy erioed ar a obeithod' yn yr Arglwyd', a wrthodwyd yn y diwed'? Heb law hynn i gyd, mae yr ollalluawg dduw 'n gorchymyn, i ni obeithaw, ac edrych am help in unic ganthaw ef: yr hwn obaith a ddwg gidac ef esmwythdra, a seibiāt o bob merwindod a dialed'.

Mi a obeithaf yn yr Arglwyd', am Psa.27.14.
hynny ni thramgwyddaf. gobeitha Psa.28.7.
'n unic yn nuw, ac felly ith waredir. Rhuf.5.5.
ac hefyd: gobaith ni chwilwyddir, ac ni wradwyddir byth.

Pen. 26.

Gweddi sy angenrheidiol, mewn trallod, a chledi.

YR Scrythur lan syd' in dyscu, ymhob bath ar ing, yngystal

corfforawl, ac yspryddawl, i alw ar dduw, ac i ddiainc atáw: ac ymma mae'n fuddiawl iawn, fod 'n fyddyl- gar oi gilydd' yn ein, gweddi, Ond, am ba beth y dyle wyr weddiaw? yn gyntaf, ac yn enwedic, am faddeu- ainc on pechodae: canys pā gaffoin nawdd' gann dduw am ein pechodae, yna yn ddiau pob clefyd, adfyd, a di- aled' a baid yn ollawl, neu dyrwyr ra- sulawl ewyllus a daoni duw hwy a droir er ein iechydwriaeth. yn ail, ny ni a ddylem, hefyd weddiaw ar dduw, ar iddaw ef, vn, ai yn gware- du, a'n helpio, (nid yn ol dychymig a dyfais ein synwyr ni ein hunain, ond fal y gwelo i dduwiol ddoethi- neb ef fod yn orau) ai gostegu ac es- mwythau, ein poen, a'n dialed', fal na byddo in gwendid ni yn ollawl ballu, a suddaw i'r gwaelod.

Megys ac y mae gwr claf (er nad yw ef yn ammeu dim o ffyddlondeb goneftrwydd', a gofal y Physygwr neu

neu'r meddic tu-ac ataw, etto 'n erfyn arnaw deimlaw, a chrwssiaw, i friw ef yn arafaf i gallo, felly yn 'yr vn mod' y gallwn ninneu alw ar dduw, ar deilyngu o honaw ef roddi i ni beth seibiant, ac esmwythdra on poen, oddieithr bob hynny yn erbyn i anrhydded', ai ogoniant ef. Ac yn enwedic erfynniwn arnaw, gauiadhau i ni nerth rhac pallu o honom, a rhac ein gorchfygu, gann ofn, a mainticli ein tristwch a'n dialed', gannn ymwrthod ac ef, a chwympo i ryw anwired', eythr gallu o honom yn hyerach, yn ol siamplau y sanctaid' Ferthyron, oddef angeu, a ffob artaith anoddefusaf, yn gynt nac i gadawom, neu i gwadom ein ffyd, neu y gwnelom ddim oll yn erbyn ewyllys duw. Ac mae yn angenrhaid i ni weddiaw, gida 'r mab colledic disperod, nid wyf deilwng o hynn allann im galw yn fab i ti, gwna i mi, fal i vn och wei- Luc. 15.17.

 sion

sion cyflog, mi a oddefaf yn ewyllyscar, drisyd, a thrallod ar y ddaiar, megys gweinidog 'rhwn a weithia er i gyflog, os ti a ganiadhei i mi, breswyliaw ac aros yn dy dŷ di yn dragowyd'. Ond yrawron, pa fod' y dylem ni weddiaw? Saint Iago yn ei lith cyntaf a ddysc i ni weddiaw, mewn ffyd', yn ddiyscog: heb ddim ammeu, na wrendu duw ni yn drigarog. Rhaid i ni yn oestadawl edrych ar addewidion duw, ai gosod yn oestad o flaen ein golwg, a cheisiaw, nid yn unic help a chyfferi ar i ddwylaw ef, eythr hefyd gobeithaw ac edrych yn sicer am dano, an gorchymyn ein hun 'n gwbl, gorff, ac enaid, iddaw ef. Galw

Psal. 50. 15. arnaf fi yn dy angenoctid ac mi ath waredaf, a thi am gogoneddi fi:

Psal. 91. 15. Galwed arna fi ac myfi ai gwrandawaf, byddaf gidac ef yn 'r ing, mi ai gwaredaf ac ai gogoneddaf.

Ioan. 14. 13. A thrachefn, yn wir, yn wir, y

doedaf

doedaf wrthych, pa beth bynac a ofynnoch im tad yn fy enw i, (sef yw hynny, mewn gobaith, a choel, ar fy rhyglyddiadae mauti,) ef ai rhyd'i chwi.

Er eceampl: Pawn ddetchafai Moeses i ddwylaw tu'ac at dduw, a ffan weddie ef, i clynnion yr Amalecheitieit a orchfygid. Ex.17.12.

Yddau wr dall, y rhai a lefasont ar ol yr Arglwyd', gann ddoedyd, Mab Dafydd trigarha wrthym, a wrandawyd. Mat.9.27. O'r cyfryw siamplae, mae 'r efangyl yn llawn: Heb law hynn, mewn trallod, ac adfyd, ni a ddylem foliannu duw, a diolch iddaw, am na ollyngod' ef ddim o hanom yn angof, eythr drwy i dadawl ymweliad, i fod ef in galw, a'n tynnu attaw ef, ac yn rasusol in helpu i ddwyn ein baich: felly y molianawd' Saint Pawl dduw yn i adfyd, gan ddoedyd, Moliannus a fyddo duw, sef tad ein

Ar-

2.Cor. 1. Arglwyd' Iesu Grist, tad y drigared', a duw pob diddanwch, 'rhwnn a'n conffordiod' ni ymhob trallod ac adfyd.

Pen. 27.

Edifeirwch, a gwellant buched', mewn trallod, ac adfyd, ydynt angenrheidiol.

YR awrhon-Mae 'n angenrhaid bod gida hynn oll, edifeirwch trymder, ac alar, am y pechodae 'rhai a wnaethō ynlaen, a gwellant buched', cariad tu-ac at dduw, ofn duw, pob rhinwed', a duwioldeb.

2.Cro.33. 12.13. Manasses ydoed' drist, ac edifeiriawl, am i fuched' anuwiol, ai greulondeb, ac am hynny y gwaredod' duw ef, allan o rwymau a chaethiwed Babilon, ac ai adferod' drachefn y w frenhiniaeth yn Israel.

Trwy Ionas y pregethwyd, ac y cyhoeddwyd i Ninifi y ddinas fawr,

fawr, y dinistrid, ac y difethid hi gan dduw, oddi fewn deugain niwrnod. Y Niniféitied a gredasont ir cyhoeddiad, ar bygeth honn, ac a ddechreuasont edifarhau, a gwellau ei buched', drwy fawr ufudd-dod, a gostyngeiddrwyd', ac felly duw o'i drigared', ai arbedod' hwynt. Yr awron ni ftrinhauwyd dim ar galon drigarog dduw, o gwnawn ni fal y gwnaeth y Niniféitieit, ef a ddichon yngwaredu a'n arbed ninneu, fal y gwnaeth ef y Niniféitieit. Ion.3.4. Esa.50.2. Esa 59.1.

Pen. 28.

Cynghorau, a siamplau Cristnogaidd, allan o air duw, i gynhyrfu pobl i ymynedd, mewn blinder ac adfyd.

YMysc yr oll rinweddau, nid oes un angenrheidiolach, nac ymynedd mewn adfyd: nid ymyned' i oddef i bob peth bassio, pwy bynnac

nac fyddo, ai da, ai drwg, ai iawn,
ai cam, gan roddi'r cwbl, ac y disseu:
ond pan fom mewn trwbleth, ac ad-
fyd, ac eb allu mewn vn mod' cy-
freithlawn i gochel, (yn gymeint
ac i ni, yn ol dysysiad ac ewyllys y
cnawd, rwgnach yn erbyn duw, i
wrthod ef, ai roddi ymaith a ffob
bath ar gysiawnder) yna y dylem
wrthnebu, ac ymdrechu yn erbyn
ein truẽni, a'n oll drygnhyrddig fe-
ddyliae, ac megys, gorchfygu, cae-
thiwo, a darostwng ein golygon,
naturiol, ein synwyr an rheswm, i v-
fuddhau duw, gann ein ymroi, a'n
darostwng ein hunain iddaw ef, a
goddef beth bynac a ddigwyddo,
yn barod, ac yn ewyllyscar; ie, pei
bae y chwerwaf a chreulonaf an-
geu, yn gynt nac y llithrom oddi-
wrth air duw.

Ac heb law hyn, ny ni a ddylem
foliannu duw, a rhoddi diolch iddaw
ef, am fod yn wiw ganthaw ef, yn
gof-

gofwyo mor dadawl, ac am na oll-
yngod' ef ddim o honom yn angof:
Honn a elwir yr iawn ymynedd,
Gristnogaidd, canys archiad, a gor-
chymyn duw ydyw, i ni, wilio rhac
grwgnach a manson, yn i erbyn ef
pan fo ef in ceryddu, eythr ymdda-
rostwng ein hun, yn vfuddawl yw
sanctawl ewyllys ef, ac ar ol mod',
dysyfu, sef yw hynny, goddef a der-
byn 'n ewyllyscar, y ceryd', ar cospe
digaeth, drwy bwy rai iddym yn a-
ros ac yn parhau, yn vfuddawl yw
dduwiol gyfiawnder ef.

Na rwgnechwch megys y grwg-
nachod' rai o honynt hwy, ac ai de- Nu.21 6.
strywiwyd gan y dinistryd'. 1.Cor.10 10

Erwyd' paham, ni a ddylē ddan-
gos ymyned', ymhob peth, megys
pwnc o'n dled: ac mae 'n bechod di-
aleddus furmur a grwgnach yn er-
byn barnedigaeth dduw, ne wrthne-
bu i ewyllys ef. Ac nid yw duw yn
unic yn gorchymyn ymyned, eythr
mae

mae ef i hun hefyd, yn oddefus ac yn hwyrfrydig, 'rhwn ni ddinystr y y puteinwyr, a'r treisiwyr ar unwaith a mellt a tharaneu, ac eraill o anwireddus a cholledig bobl, er nad yw ei sanctaidd, ai wir gyfiawnder, ef yn erfyn dim llai. Mae ef yn rhoddi amser ac yspait ddigonawl, i wyr tedifarhau, ac i droi adref drachefn at ras. Am hyn y dywaid S. Pawl. A

Ru.2. dremygy di olud i ddaioni ef, ai ddi-
2.Pet.3.9. oddefgarwch, ai ymynedd, eb gydnabod fod daioni duw yn dy arwein di i edifeirwch? Er bod yn rhaid i ni, ar ol y siampl dduwiol hon, oddef peth yn erbyn ein ewyllys, ac yngwrthwyneb in meddwl a'n dysyfiad, etto ni ddylem ni furmur, na grwgnach, eythr gwellau ein buchedd, a discwyl ac edrych yn oddefus am wellad. Ac yn enwedic, ffyddlondeb ac anraethawl gariad duw, tuac atom, a ddyl yn gyfreithlawn ein cymell a'n cynghori, i o-

ddef

oddef i dduw wneuthur a ni ar ol ie-wyllys ai feddwl ef, canys wrth hynny i ddym yn rhoddi i dduw i anrhydedd, sef yn cydnabod nad yw ef yn gwneuthur i ni ddim trais, na chamwri, eythr i fod ef yn llywodraethu pob peth yn ddoeth, ac yn i fforddio i ddiwedd da.

Or ty arall, y gwr anioddefgar sydd yn murmur, ac yn rhwytho yn erbyn duw, ac sydd lidiawg wrthaw, fal pe i bae i farnedigaethae ai weithredoedd ef yn anghyfiawn, yn gymeint ai fod ef yn goddef, ir anwir, ar anuwiol, fyw mewn rhodres, gwnfyd, a rhydid, a'r rhinweddus, ar duwiol, mewn tlodi, prudd-der, a thrueni. Fe a alle ond antur feddwl a thybied yntham i hunan, fod duw yn rhoddi gormod baich ar i ffyddlon blant, gan oddef yddynt aros yn oestadawl mewn peryglon, angen, ac enbydrwydd, ac na wrendu ef ddim o honynt: ac fal hynn, y mae ef Psal. 37.

mor

mo͡r wenwynig drwy atgasrwyd' a chwerwed', fal y dechreu ef gablu a chasau duw, gan geisio moddion
1.Sa.28.7. anghyfreithlawn y'w helpio ac yw ymadferth, mal y gwnaeth Sawl, gann redeg ar ol swynwy͡r, a chyfareddwy͡r. Erwyd' paham, gwilied pob rhyw Gristion, rhac i dreisiaw gann y cyfryw gythreildeb gwallgofus, a chwerwder, neu o͡r lleiaf rhac i ddala yn hir ynthynt.

Eythr yn y cyfryw brofedigaeth ymladded ef yn wrawl, meis o flaen, ne yngolwg y nefawl Gapten, 'rhwn sy yn gweled ac yn gwybod, pob peth, ac syd' hefyd 'n ymddeffyn i filwy͡r 'n ffyddlawn, ac syd' megys 'n gydymaith neu 'n un o hanynt, ac 'n gobrwyo i oll boen, ai llafur, hyd fil o weithiau, yn y bywyd tragwyddawl.

Heb law hyn, y mae genym ddelw a drych eglur perffaith o flaen ein llygaid, o bob ymyned', 'n ein Argl=

wydd

wyd' Jesu Grist, pa wed' y mae ef Mat.16.25.
i hun,'n ein ordeinio ni iddaw i hun:
gan ddoedyd, pwy bynac am dilyn
i, ymwrthoded ac ef i hun, a chymme-
red i groes a chanlhyned fi.

Pan ddechreuod' i ferthyrdod an- Mat.26.39.
raethawl ef, ai ddioddefaint, ef a Mar.14.
weddiawd': vynhad, os gellir aed y Luc.22.39.
cwpan hwn oddiwrthyf, etto nid fe
ewyllys i namyn dy ewyllys di a
gyflowner: ple darfu iddaw ef vn-
waith fanson neu furmur, ne dy-
wallt allā vn gair chwerw anniodde-
fus, pan y gwatorwyd, pan y dilorn- Esa.53.2.3.4.&c.
wyd, pann y scyrsiwyd, a phan yr
amharchwyd ef yn greulon aruthr.

Printia hynn yn dda, ac yn sicer
yn dy feddwl, sef, pa wed' y gweddi-
awd' ef ar y groes, dros ei elynnion Luc.23.
pennaf, gan ddoedyd: fynhad ma- Act 7.60.
ddeu yddynt, gā na wyddāt beth y
maēt 'n i wneuthur; pe i basse iddaw
efdrwy i nefawl ai dduwiol rym
ai allu, ei waredu ei hunan oi oll
boe-

hoenau, tristwch, a fferyglon, a ffe i
baem ninneu yn ein tristyd, ing, ac
angenoctid, heb gael nerth a gallu
nefawl i orfod oddiwrth Dduw, yna
ni allem ni ddim o'n diddanu ein
hunain, drwy ein iachawdwr Iesu
Grist: ond ni roes ef ymaith i chwe-
rw ddioddefaint, drwy i nerth olla-
lluog: eythr yn hytrach ef ai gorfu
Psal. 97.9. Hebr. 1. 2. 3. 4. 5. &c. trwy wendid. Yrawron, os goddef-
fod' yr hwnn y mae oll Angylion a
chreadurieit, yn y nefoed', ac ar y
ddayar, yn craffu ac yn edrych ar-
naw, (ie, rhwn sy raid iddynt hwy
i gyd, i wasanaethu, ai ofni) yn wi-
rion ac yn ddieuog, drwy bob ymy-
ned' a gostyngeidd rwyd', fwy naca
oddefod' vn Cristion erioed, fe ddy-
le hyn wneuthur i galon pei bae cyn
galeted ar garreg ne hayarn, ymy-
goryd a thoddi, a chymeryd y gor-
thryminderon bychain hynn, rhygly-
ddus, yn oddefgar, ar yn ewyllys-
gar, ai derbyn yn ostyngedicaf.

Ar

A hynny a ddarfu i sanctaid' ddewisedic duw, yn y cynfyd, nid yn unic i synych adroddi, ai ddyscu, ar eirieu, ond hefyd i eglurhau ai gyflawni mewn gweithred.

Yr ydoed' yn groes drom i A- Gen.22.2.
braham, lad' ac offrymmu i anwyl
fab, ac etto ef drwy berffaith ymynedd', ai dangosod' i hun yn vfudd i dduw.

Ac Isaac yntau, er iddaw wybod Gen.22.7.
fod yn sefyll ar i hoedl ef, ac y bydde raid iddaw ef farw, ni wrthnebodd unwaith ac ni egorod' i enau, yn-i erbyn.

Ioseph pann y rhodded ef gan ei Gen.37.28.
frodur ei hun, i ddwylaw'r anffyddloniait Genedloedd rhai oeddynt e-
stronieid iddaw, eto ef a faddeuod' Gen.45.5.
yw frodur, ac a wnaeth ddaioni ydynt hwy am hynny.

Moeses pan i dilornwyd gan yr Exod.17.4.
Israelieit, mal twyllwr, a bradychwr, etto ef a dosturiod' wrthynt,

cy-

cymeint, ac y gweddie ef drostynt,
gan ddoedyd, o Arglwydd, vn ai ma-
Exod.32. ddeu yddynt hwy, ai tynn fi allan
oth lyfr: ymma y mae ef yn fodlon,
Rhuf.9. ac yn barod, y gymeryd holl becho-
dae ac anwireddae'r Israelieit at-
naw i hun fal y cospe dduw ef, dro-
1.Sa.18.12. stynt hwy. Fe orfu i Ddafyd' dros
hir o amser, ffo megys herwr, a di-
ainc i bob lle rhac Sawl, 'rhwn, er
hyn a allase ef vnwaith cyn hawsed
i ddifetha, ai lad', a bwyta tameid o
fara; ac wedi hyny, ef a yrrwyd i ffo
gā ei fab ei hun, ac etto ef a ddywaid
yn ymynyddgar, fal hynn, os gallaf
gael gras, a ffafr, yngolwg duw, ef
am adferiff eilwaith, ond, o dywaid
2.Sam.15. ef, nid oes genyf bleser, na gwnfyd
ynthaw, wele, llyma fi, gwnaed i
mi, fal y gwelo n oreu.

Iob.21. Iob, drych pob ymynedd', pan y-
doed' ef yn llawn cornwydeu yn ei
gorff, yspailedic oi dda, ac ymddi-
fad oi blant, a dywedodd fal hynn

duw ai rhoes duw ai dyg, molian- Iob. 13.
nus a fo enw'r arglwyd: ac ef a ddy
waid ymhellach, pe i lladde dduw fi
etto myfi a ymddiriedaf ynthaw.

Matathias mewn pericl, ac enby-
drwyd' eithaf oi gorff ai hoedel,
pryd y cymellid, ac y gwthid i ddie-
lwaddoliāt, a attebodd' fal hyn i wei-
sion ac i wenidogion Antiochus, ni
syflwn, ac ni ymadawn a'n ffydd, 1.Mac.2.
nac ar llaw ddeau, nac ar y llaw
asswy. Yr Apostolion a orfoleddent
'n ddirfawr, am i tybied 'n deilwng Act.5.
yw scyrsio, yw curo, ac yw dilorni er
enw Crist.

Ny ni a ddylem ddyscu llefain
gida S. Pawl, diogel gennyf, nad
oes nag angau, na bywyd, nac An-
gyliō, na phēnaetheu, na meddiāneu
na phetheu presennol, na phetheu i
d'yfod, nac uchelder, na dyfnder, nac
un creadur arall' a ail' ein gohanu ni Rhuf.8.38.
oddiwrth cariad duw, y syd' yng-
hrist ein arglwyd'. wedi āser y Pro-
phwy-

phwydi, ar Apostolion Sanctaidd
llawer mil o ferthyron (ymysc pw
1.Mac.2. rai y ddoed' llawer o wraged' ty
2.Mac.6.10 meradwy a gwyryfon diwair,
&11.12,&c. phobl ievainc eraill) a ddioddefa
sont artaith, a dialed' aruthrol
mwyn y gwirioned'. Ond yma
gellid doedyd ein erbyn, fal hyn: m
rhyfed' er bod y Sainct gwnfyd
dig, yn dioddef yn llawen, ar yn h
derus, o erwyd' i bod hwy 'n godde
yn wirion, yn ddieuawg, ac yn a
rhyglyddus, ond am dana fi, (m
un) rhaid imi gyfaddef fy mod y
wir druan bechadur a bod yr hyn
yddwyf yn i oddef, am fy heuddi
dae am pechodau, ac am hynny
ddwyf yn goddef yn euawg, ac a
hyn ni ellir mewn un mod', gyst
lu, a chyffly bu fyngorthrymderi,
orthrymder y sainct. fe attebir i h
arfyrr o eiriau: y sainct gwnfyd
pob un o hanynt, o hanynt i hun,
Iob.4.17.18. oi natur i hun, oeddynt wir bech

duriei

durieit, ond eilwaith, yddoeddynt sanctaid', a chyfiawn, trwy Iesu Grist, 'rhwnn a gyfranodd, ac a roddes i ninhau hefyd trwy ffyd' i sanc teiddrwydd ai gyfiawnder.

Iob.13.19.
Esa.44.
2.Pet.2. 20.
Gwel.20.4.

Heb law hyn: y ddwy rinwed', sef gwir ffyd', a christnogaid' ymyned', ydynt mor agos o garennydd, ac mor gyssylltedig ynghyd mewn cymdeithas, fal, y cymorth bob amser y naill y llall.

ffyd' a gynhyrchir, a faethdrinir, ac a roir mewn gwaith, ac arfer, ac a dderbyn gynyddiaeth, a chwaneg o rym, trwy ymyned' mewn blinder, ac adfyd: sef pan fom ni er mwyn Crist, yn erfyn ag yn edrych hefyd, am help a nerth gā dduw, 'n erbyn ein natur, ('rhon ni ddichon ddim, ōd petrusaw, ac anobeithaw) ac hefyd yn erbyn gwēdid y cnawd, 'n erbyn profedigaeth y cythraul, ac 'n erbyn ol' ruthrau a bradau y byd. Trachefn, ymyned', a faethdrinir, a

 bro-

brofir, ac a gryfheir trwy wir ffyd', canys pwy bynac a wyr, ac a gred, fod ganthaw dduw grasawl, trigarog, gida'r hwn ar ol y bywyd trãcedig hwn, y caiff ef fywyn dragwyddol; hwnnw, a ddichõ ddioddef pob trallod, ac adfyd 'n ddioddefgar
Rhuf. 4. 30. Gal. 4. 4. Eph. 2. 5. yn Gristnogaid', ac yn ddiolchgar. Trachefn, trwy ffydd ynghrist, y gwnair ni yn vn, ac in cymodir a duw, ac in gwnair yn sicct oi ras, oi drigared', ac oi gredigrwydd ef, er mwyn Jesu Grist, a heuddiadae i ddioddefaint ef. Er ecsampl: Dafyd' 'n gymeint ac iddaw ef gredu 'n wir ac 'n ddisigl ynnuw, a lefarod' n hyderus ac yn galonawg gã ddoedyd,
Psal. 46. 1. 2. duw yw ein gobaith, a'n porth, ac ef syd' hawd' i gael mewn trallodion, am hyny ni byd' arnõ ofn, cyd ymoter y ddayar, a chyd ysmuder y mynyddoed' i galõ y mor. &c, pob Cristiõ a ddyle fod 'n fodlõ i golli mil o gyrff, a mil o oesoed', (pe bae bossibl

fod

fod cymeint ganthaw) pe i bae am ddim, ond am iddaw glowed, proffi, a chredu yr efangyl. Eythr, pā fyddo gwr 'n aros ac 'n parhau yn anoddefsus, mae yn arwydd' eglur, na bu gan hwnw erioed wir ffyd', neu os bu ffyd' ganthaw, i bod wedi y diffodi, a darfod. Canys anioddefgarwch a gwympa, i furmur, ac i anufuddhau duw, ac a ddechreu i gas-hau, ai gablu ef. Hefyd, gweddi Gristnogaid' sy help a chymorth mawr i ymyned'. Cans 'n ein gweddi y ddym 'n erfyn fod enw duw 'n sancteiddiawl. Yrawrhō, enw duw a foliannir, ac a sancteiddir, pā fom ni yn ein pericl, a'n angen mwyaf, yn rhoi ein pwys a'n goglud ar dduw, trwy ffyd', ac ymynedd, mal ar vn, a lywodraetha bob peth yn dda, ac ai dwg i ddiwedd da. Hefyd, mewn gweddi yr ydym yn gweddio ar ddyfod teyrnas dduw arnom, y- Mat. 6. 10.
rawrhon os gwradwydda ac os Luc. 11. 2.
di-

dinistria duw ynom deyrnas y cythraul, ar cnawd, neu os ef a'n tywys ac a'n arwain yw dduwiol ai nefawl deyrnas ef, drwy y groes, ond cymeint a gweddiaw yn ein erbyn ein hunain, yw, o byddwn ni aniodddefus mewn adfyd.

Y ddym ngweddiaw hefyd, ar ddyfod o ewyllys duw: prawfon, os ewyllys duw yw, gaffael o hanō drisdyd, trallod, ac adfyd ar y ddayar yma, pa fodd y beiddiwn ne y gallwn ni wrthnebu, a grwgnach yn erbyn i ewyllys ef.

Pen. 29.

Siamplae, ac achosion, a dynnwyd allan, o bethau bydawl, ag o waith gwyr Cenedlig, i gynhyrfu pobl i ymynedd mewn adfyd.

Pe i bae heb fod scrythur lan yny byd genym, etto fe alle wr wrth i reswm i hunan, gymeryd siampl wrth

wrth 'r hyn a galwn: sef, wrth anifei-
lieit, wrth bethau naturiol, meis
wrth gorff, ac enaid, ac eraill o ran-
nae naturiol, 'rhain sy berthyna-
sawl yddynt hwy; hefyd, wrth wyr
Cenedlic, wrth 'r Iddewon, wrth
grefftwyr, ac wrth bob stad a grad'
o bobl, ac 'n 'r vn mod' wrth yr An-
gylion, ie ac wrth y cythraul hefyd.
Wrth hwy rai oll y gellir gwybod,
a dyscu, y dyle wr i ymddwyn i hun
yn ymynnyddgar, yn hyderus, ac yn
wrawl mewn adfyd; a gorthrym-
der.

Oen neu ddafad, a ddygir ir lladd- Siampl o anifeilieit.
fa, ni chriant, ac ni egorant vnwaith
i geneuau, ond goddef, a derbyn i
hangeu, yn ymynnyddgar, ac yn ddi-
staw: felly y dyle sanctaidd ddewi-
sedic duw, wneuthur, mal, pann y
melldithier, ac y cabler hwy, na fell
dithiant, ac na chablant drachefn,
pan y trawer na thrawant eilwaith,
eythr goddef pob gerwindod, a phoē

heb egoryd unwaith i genau: nid yw
ein cyrff ni ond bwyd i'r pryfed, ac
Iob.19.26. oni ddylem ni fod yn llawen, ac yn
orfoleddus, pe i ni oddef y rhodd
i anrhydedd' ein prynwr, an iachaw-
dwr Crist.

Megys ac y mae yn fodlon gann
un claf, dolurus, dorri ymaith un oi
aelodae, ai losci, er mwyn caffael
wrth hyny beth seibiant, ac esmwy-
thdra, oi ddircfawr ferwindod, ac oi
oestadol boenau, ('rhain etto nid
ynt ond trancedig) ac er mwyn ca-
ffael i iechyd eilwaith.

Felly y dylem ninau, yn llawen,
ac yn ewyllysgar, oddef in Argl-
wydd dduw, a bod yn ddistaw ac
yn llonyd' pan anfono ef i ni adfyd,
er yn gwaredu, an rhyddhau, o
poenau tragwyddawl, a chaffael ie-
chyd wriaeth, gwnfyd, a gwared in
eneidieu.

Os medri graffu ar ordr, a chwrs
natur (rhwn sy o naturieth yn scri-
fen-

fennedic yn dy galon,) ti a weli ac a ddysci, wrth hynn, y dyle wr fod yn gryf ac yn ddisigl, ac na ddyle ef ymodi er vn merthyrdod, poen, na phrofedigaeth arall, i wneuthur yr hyn sy anweddaidd, ac 'n erbyn gonestrwydd: ac or gonestrwydd yma, 'rhwn a seiliwyd, ac a blānwyd gan natur, y tyfod' dysceidiaeth, a sāplau, y doethion, ar ardderchawg wyr cenedlig gynt, 'rhain a alwn ni Philosophyddion. ymysc pwy rai yr ydoedd hyn yn ddihareb, ac yn araith gyffredin, goddef, a gochel: y gair cyntaf or ddau hyn, sy in dyscu i oddef pob croes yn oddefgar, ac i fod yn fodlon, ac yn vfudd, pann in gofwyir ac adfyd. yr ail gair sy'n arwyddocau, y dylem ni gashau, gochel a gwiliaw, pob rhyw siamplau, geirieu a gweithredoedd, 'rhai a roddant i ni achlysur o ddrygioni. Aristotl yn i lyfr cyntaf oi Ethics sy in dyscu, nad

ἀνέχου, καὶ ἀπέχου. Sustine, & abstine.

yw, dedwyddwch ar daioni mwyaf, yn sefyll, yn unic, mewn iechyd corffolawl, llawnder o dda, ne mewn anrhydedd fydawl, urddas, ac uchelbarch, eythr, yn hytrach, mewn cynefinder ac arfer o rinwedd. Wrth hyn mae yn eglur y dichon gwr sy rinweddawl, fod yn wnfydedig, er maint fyddo i drallod ai adfyd, ac ef a gymmer ac a gyfri, flinder, ac adfyd, megis achlysur ac achos, drwy hwy un y cynhyrfir, ac y cynhyrchir rhinwedd, ac ym hwy un y llewycha, ac y tywynna, rhinwedd, yn ddisgleiriaf or cwbl.

Ac unrhyw Aristotyl, hefyd sy yn cyffelybu gwr gonest rhinweddol, i gapten da. canys, megys ac y mae y capten, yn tywysu ac yn llywodraethu i lu, fal y gwelo ef yr achos yn erfyn: felly gwr rhinweddol, ai ymddwg i hun yn oddefgar, ac yn dda mewn adfyd, ac a wnaiff y gorau o honaw. Mae'r Stoicieit'n dyscu yn eglaer,

Stoici.

eglaer, na ddylid cyfri'n ddrygbeth fyw mewn tlodi, clefyd, a thrueni, eythr, hyn'n vnic sy ddrwg, sef, pymwrchod a rhinwedd, a glynu wrth anonestrwydd.

Cicero vn arddercháwcaf, ac arbenicaf or Rhufeinieit, a scrifenna fal hyn: cofia a chred ynot dy hun, na ddichon dim ddāwain i wr, am bwy vn y dyle ef sannu a brawychu oi blegit, ōd pechod ac anonestrwyd. a thrwy'r siampl yma, y diddaneu gynt vn gwr Cenedlic y llai', drwy ddwyn amgylchoed' o bethau fal y rhain, ac eraill or cyfryw. Mae'n anweddus i wr wylaw, a nadu, fal plētyn neu wraig: a Seneca a scrifenna fal hyn. Mae'n hawdd darostwng a gorfod hol' genedlaeth nac vn gwr vnic: hefyd; nid wyd mwyach blentyn blwyd', ond yddwyd o synwyr, ac o oedrā, ac am hyny fe a edrychir am fwy ar dy law di, na chā blētyn, neu ddyn bach: fe

ath ddygwyd i fynu, ac ath addyscwyd oth ieuengtid mewn duwiol ddoethineb, a gwybodaeth, rhaid iti 'r awrhō arferu o hyny, ai ddangos irr byd: cynn hynn ti a fedrid roddi cyngor a chysur da i eraill, na wna, gan hyny, fal y drwg Physygwyr, rhain a fostiant, ac a gymerant arnynt iachau eraill, ac ni allant ddim or help yddynt i hun. ymlaen llaw, hyd hynn, ti ath ddangosaist dy hun yn wrawl, bydd yr awrhon gann hynny debig i ti dy hun, ac na ddos yn ddolpeth anweddaid' cwilyddus ydyw nined o ddydd i ddydd yn waeth, ac yn wannach.

Er bod y ddyscedigaeth hon gan wyr cenedlig yn hynn, ac ymhynciau eraill yn ganmoladwy, etto mae r storiau yn son am lawer peth anweddaid', a wnaethont hwy, fal hym Coriolanus er chwāt i ddial, a ryfelodd yn erbyn i wlad naturiol, i hun: Cato, ac Antonius, o alar a

thrym-

thrymder, ai lladdasont i hunain: eythr rheswm dynawl a ddichon ddeall, a barnu, am y cyfryw bethau syd' yn erbyn naturieth, ac yn erbyn pob rhinwed', a gonestrwyd'. ond yr ardderchowcaf genedlic, ar rhai goreu o hanynt, a fawlasont, ac a osodasont allann ymynedd nid yn unic ar eirieu, eythr hwy a ddangosasont hynny, wrth i siamplae, ai gweithredoedd: ymlhith y Groegieit, Aristides, gwr rhinweddawl odiaeth, pann i gyrrwyd ymaith oi wlad, a gymerodd', ac a oddefawd' i adfyd yn wrawl, ac yn ymynyddgar: ymhlith y Rhufeinieit, Camillus, ac Attilius Regulus, a hauddent fawr glod a chanmoliaeth, am i ymynedd oidawg, ai gwreidd-dra; rhai a ddangosasont hwy yn i hadfyd. Fe allase Scipio ei amddeffyn, ai ddial i hun ar y Terfyscwyr cynddrygeddus, eythr a chalon uchel, frenhinawl,

ef aeth allan o olwg ei elyniō, dros
amser, ac a oddefodd lawer o drwb-
leth, a chamwri ganthynt, er budd,
a lles yw wlad: rhac yddynt gael
achlysur, i wneuthur chwaneg o
chwerwedd ac atgasrwydd. Je y
ddym 'n darllein o ferched rai (me-
is cornelia) rhai, mewn ing, ac ad-
fyd, ai dāgosesont i hunain n wrawl
ac 'n ddiorfod. Etto mae yn rhaid i
ni bob āser, ystyriaw 'r iawn waha-
nieth, rhwng ymyned y Paganieit
ar Cristnogiō. mal: Socrates yn ei
adfyd, a ryfeddai, wrth anghyfiawn-
der gwyr, ac a dybiai nad ydoedd,
2.Sa. 24. 10. ond damwain a hap iddaw, gaffael
1. Cro. 12. 17. trallodae: eythr Dafydd a wybu, ac
a gyffesawdd, fod i ymweliad ef, ai
adfyd, yn dyfod oddiwrth dduw.

Socrates yn gymeint ac iddaw
oddef 'n wirion, ac yn ddiachos, ni
2. Sa. 24. wyr reswm, pam y dyleu ef ddamu-
naw a diisyfu cospedigaeth, ac ing:
eythr Dafydd (ar ol modd) sy yn da-
mu-

munaw, ac yn ewyllysiaw, caffael y groes, am iddaw wybod, mae ewyllys duw yw, cestiolaethu, ac eglurhau i lid, ai ddigofaint, 'n erbyn pechod, drwy y groes, ac adfyd. Nid yw Socrates yn ei oddefaint, ai wrawl ymyned, yn ceisiaw, nac 'n edrych am ddim help, cymorth, nac esmwythdra, oi flinder, gann dduw. Ar ardderchawg cato, pann glybu ef orchfygu, a darostwng Pompeius, ('rhwn ydoed' wr da) gann Julius Caesar, (yr hwnn ydoed' wr drwg) a ddechreuawd' ameu ac anobeithiaw o help. Eythr Dafyd' trwy ymyned', ac vfudd-dod, a alwod' ar dduw am help, ac ymwared, ac ydoed' siccr, a diogel, fod yr Arglwyd' ollalluawg, yn i gynorthwyo ef, er mwyn y sanctaid', ar bendigedic had, o bwy vn ni wyr y Paganieit oddiwrthaw. Psal. 5. Gen. 3.

Fal hynn wrth gyssadlu y naill ar llall, y gwybyddwn, ac y dehallwn,

llwn, fod dysceidiaeth yr efangyl yn hyfrydach, ac yn dirionach, ac yn ein cynhyrfu i fwy diolchgarwch, tu-ac efangyl Jesu Grist: trwy hwy un, y ddym yn cael cyflawn, a pherffaithgwbl ddiddanwch a chonfforddd.

Yrawron, oddiwrth 'r hen Baganieit, a chenedlic, deuwn a dychwelwn at y Twrcieit, ac Iddewon, yr at raddau eraill o wyr. llawer Twrc, ac Iddew, a oddefai i ferthyru, ai arteithiaw yn greulon, yn gynt, nag i gwediff, ne i gwrthodiff grefyd' Mahomet, ai gauffyd' annuwiol: a pham na bydd, (gann hynny) Cristnogion yn fodlonach, i ddioddef yn wrawl, (o byd' achos) er mwyn y ffyd', ac crefyd' Cristnogaid'?

Merstandwr a wnaiff deithiau, a siwrneiau pell, ac a fentria i gorff, ai dda, ac ni thybia ef ddim yn rhydrwm, ne yn rhy boenus; yn unic,

er mwyn caffael ychydig elw bydawl, a bud' trancedig, ac etto mae i obaith ef yn ansicr pwy un fydd i lwck ef ai da, ai drwg: ac er daed fo ei ddamwain, etto, nid yw yn caffael dim y'w ddwyn adref, ond pethau gwael, trancedig, y rhain a gant ddiwedd', a therfyn.

Yr awrhonn, mae i ni i gyd daith bell, sef oddiar y ddaear, i'r nefoedd', ac oni ddylem ni fod, cyn fodloned, cyn baroted, cyn llawened, a chann ewyllysgared, i oddef pob perigl, ac enbydrwydd', a ddigwydd' ini ar y ffordd', yn gymeint a bod gennym obaith sicr disomedig, o olud didrác, tragwyddawl, 'n y nefoedd', er mwyn Iesu Grist.

Y trafaeliwr, pann el ef oddigartref, er iddaw ymddaith heb law tai teg, a gwairglodydd prydferth lawer, eto gann fod i feddwl yn gwbl ar ei gartref, ni themptia, ac ni rwystra y cyfryw bethau ddim o honaw.

llwn, fod dysceidiaeth yr efangyl yn hyfrydach, ac yn dirionach, ac yn ein cynhyrfu i fwy diolchgarwch, tu-ac efangyl Iesu Grist: trwy bwy un, y ddym yn cael cyflawn, a pherffaith gwbl ddiddanwch a chonfforddd.

Brawron, oddiwrth 'r hen Baganieit, a chenedlic, deuwn a dychwelwn at y Twrcieit, ar Iddewon, yr at raddau eraill o wyr. llawer Twrc, ac Iddew, a oddefai i ferthyrru, ai arteithiaw yn greulon, yn gynt, nag i gwediff, ne i gwrthodiff grefyd' Mahomet, ai gauffyd' annuwiol: a pham na bydd, (gann hynny) Cristnogion yn fodlonach, i oddioddef yn wrawl, (o byd' achos) er mwyn y ffyd', ar crefyd' Cristnogaid'?

Merstandwr a wnaiff deithiau, a siwrneiau pell, ac a fentria i gorff, ai dda, ac ni thybia ef ddim yn rhydrwm, ne yn rhy boenus; yn unic,

er mwyn caffael ychydig elw bydawl, a bud' trancedig, ac etto mae i obaith ef yn ansicr pwy un fydd i lwck ef ai da, ai drwg: ac er daed fo ei ddamwain, etto, nid yw yn caffael dim y w ddwyn adref, ond pethau gwael, trancedig, y rhain a gant ddiwed', a therfyn.

Yr awrhonn, mae i ni i gyd daith bell, sef oddiar y ddayar, i'r nefoed', ac oni ddylem ni fod, cyn fodloned, cyn baroted, cyn llawened, a chann ewyllysgared, i oddef pob perigl, ac enbydrwyd', a ddigwyd' ini ar y ffordd', yn gymeint a bod gennym obaith sicr disomedig, o olud didrâc, tragwyddawl, 'n y nefoed', er mwyn Iesu Grist.

Y crafaeliwr, pann el ef oddigartref, er iddaw ymddaith heb law tai teg, a gwairglodd[ie] prydferth lawer, eto gann fod i feddwl yn gwbl ar ei gartref, ni themptia, ac ni rwystra y cyfryw bethau ddim o honaw,

yn

yn yr vn modd, pryd na byddom ni
neu yn cael ein pleser, a'n gwnfyd
yma, ni a ddylem ein cadarnhau, ein
confforddio, a'n ddiddanu ein hy-
2.Cor. 5. Philip.3. nain, drwy gofiaw, a chofhau, ein
gwlad, an preswylfa yn y nefoedd.

Pann dremyger, a phan ddisty-
ret wr o anedigaeth, a braint vchel,
mewn gwlad estron lle ni adwenir
ef, nid yw cynddrwg gantaw, a
phe y digwydde y cyffelyb iddaw,
yn ei wlad naturiol i hun. yrawr-
hon, mae'n gwlad naturiol ni yn y
Hebr.3.14. nefoedd, ar y ddayar nid ym ond d-
1.Pet.1.3. eithrieit, a phererynion, am hynny,
Phi. 3 20. ny ni a ddylē yn hytrach oddef pob
peth yma yn ymynyddgar, yn vnic,
er mwyn caffael o honom breswyl-
fa ymhlith triganwyr ein tref tad,
a'n gwlad tragwyddawl.

Gwr o ryfel, wrth i baratoi i hun,
a ffob peth angenrheidiol yw filwri-
aeth, er rryfed fyddo ei elyn, etto ef
a anghofi a bob ofn, ac ni feddwl ef

vn

vnwaith am ddyrnodiau, a gwelli-
au, ond yn vnic, am yr oruwchafia-
eth, ac orfodaeth, gan fyned ymaith,
ac ymlad' yn wrawl tal cawr 'n er-
byn i elynnion. a hyn, yn vnig, er
elw a gogoniant fydawl: ond yw
gwylwyddus, a gwarthus i Grist-
nogion, os hwy ni fyddant cyn ba-
roted, cyn ewyllyscared, ac chyn
wroleiddied, i ymlad' yn erbyn ei
gelynnion ysprydawl, er mwy, ac
gadidocach gorfodaeth, bud', ac
elw? Arddwr, neu lafurwr a eiff all-
ann i'r maes a deiliff, a erddiff, a
lyfniff ei dir, ac a gymer boen a ge-
falmawr gidac efo, ac a'i discwyl
ynghyferyd hyny, am ffrwyth ac e-
lw, o honaw. Drwy'r ecsampl hon
mae Iago Sant, yn ein cyffroi, ac Ia. 5. 7.
yn ein cynhyrfu i ymyned'.
Troer maen pedwarochrog ffordd'
y fynner, ac fe a sai er hynny yn oe-
stad: yn yr vn mod' pa delw bynac
y tempter, ac y tralloder y gwir
Grist-

Gristnogion, hwy a barhant er hyny yn vnion ac yn ddifrycheulyd byth.

Pann fo gwr yn chwareu tabler ni fedr ef fwrw bob amser, y petha fynno, eythr mae yn rhaid iddaw wneuthur y goreu o beth bynac a fwrio; i'r chwareu hwn mae Plato, yn cyffelybu bywyd dyn, ymha vn y mae'n digwyddaw lawer peth yngwrthwyneb in ewyllys, 'rhynn sy raid i gymeryd yn oddefgar, ai droi i'r goreu, heb anobaith.

Pan ddamweinio i blentyn, 'rhwn ni ddichon ond 'n brin gerdded, daro i droed wrth garreg, ef a gwympa i lawr yno yn ebrwydd, ac a ddechreu grio, ac wylaw, nes i gyfodi i fyny. Eythr ni ddyle bobl o reswm, a deuall wneuthur fal plant, ond gwneuthur i goreu i iachau, i esmwythau, ac i ddiwygiaw, (cyn brysured ac y bo possibl) y clefyd neu'r gwrthwyneb a ddigwyddawd.

Eccle. 3.17. Plentyn rhinweddawl, ni esclu

fiffeidad yn ei angenoctid, ai ddralł-
od, na gwraig onest ei gwr, ai ffriod,
na gwas ffyddlon ei feistr, A pham,
gann hynny, yr ysclusswn ninneu
dduw, ein tad, neu Grist ein priod,
ein nefawl Arglwyd', an meistr,
mewn trallod, ac adfyd? Y r ofurt-
wyr, y beilchion, y gwag-ogonedd-
us, yr anlladwyr, y puteinwyr, ar
Y 3 achos yw, tlodi ac eisieu gwlad Gymbru o lyfreu yn i hiaith ei hun, ir diwedd ar defnydd hwnn, sef, er rhoddi iachusawl, ac ysprydawl ddiddanwch, ir sawl sydd glwyfus, ne mewn rhyw fodd arall yn orthrymedic. A chyd bac bob gwlad a theyrnas o'n hamgylch, a llyfreu duwiol, daionus ganthynt, yw dyscu yn ffordd yr Arglwydd, ac yn ffydd Grist, yn ddigonawl, eto prin y cawsom ni lyfreu, (yr hynn sydd drwm a gofidus gennyf) yn ein iaith ein hun, in athrawy yngwybodorion, ac ymhyncieu cyntaf y ffydd. Ac er bod y Beibl, yrawrhon yn ddiweddar, wedi i gyfieuthu, ai droi i'r Gambraeg, drwy boen a dyfal ddiwydrwydd, y gwir ardderchawg, ddyscedicaf Wr, D. Morgan

Morgan, (i bwy vn mae holl Gymbru byth yn rhwymedic, nid yn vnic am ei boen ai draul, yn hynn, cyd bae hynny clodfawr ac addas oddiolch, eythr hefyd am iddaw ddwyn y cyfryw drysawr, sef gwir a phurlan air duw, i oleuni yn gyffredinawl i bawb, 'rhwn ydoedd or blaen guddiedic rhag llawer, gann adferu eilwaith yw pharch ai braint, iaith gyforgolledic, ac agos wedi darfod am dani) er bod hwn (meddaf) gennym, ac o honaw i hun yn ddigonawl, i roddi cymorth a chysur, ymhob gwrthwyneb, eto, drwy fod hwn, mal y mae gweddaidd, a chymwys, yn gloedic yn yr Eglwysi, lle nid oes cyrchfa atto namyn vnwaith yn yr wythnos (a hynny sywaeth yn ddiog gann lawer) mae llaweroedd yn ymddifaid o gyngor, yn amser i ymweliad, ac heb wybod pa wedd y mae yddynt i ymddwyn ei hunain, yn ei hadfyd, ai cledi. Ac heb law hynn mae holl leoedd yr Scrythur lan, 'rhain ydynt yn perthynu i'r diwedd, ac i'r pwrpas hwnn, megys ár dayn, ac yn wascaredic, ac am hynn yn flin ac yn anhawdd i neb, ac yn amhosibl i'r anyscedic wybod pa le y cais hwy er i ddiddanu ai gonfforddio ei hun: Eythr pa beth bynac a escrifennir drwy holl gorff y Beibl, er y perwyl hwnn, hynny oll

oll a gynhwysir, a grynhoir, ac a gesclir ynghyd ir vnlle, mewn trefn, ac ordr dda, yn y llyfr bychan hwn, mal y dichon gwr pann i mynno i caffael, yn hawdd ac yn ddiboen, mewn parodrwydd, i fyfyriaw arnynt, yn amser i adfyd ai ofwy.

Trawrhon, y diffig hwnn o lyfreu sy in mysc (gida bod y Preladieit ar gwyr eglwysig hwythau yrhann fwyaf vn ddiog yn ei swydd ai galwedigaeth, heb ymarddel a phregethu ac a deongl, dirgelwch gair duw i'r bobl, eythr byw yn fudion, ac yn aflafar, fal cwn heb gyfarth, clych heb dafodeu, ne gannwyll dann lestr) yw yr achos paham y mae cymeint o anwybodaeth mewn pethau ysprydawl in mysc: mal y digwydd yn fynych, fod mewn amryw leoedd, henafgwyr briglwydion, trigeinmlwydd oed, ne fwy, mor ddeillion, ac mor anyscedic, ac na fedrant roi cyfri o byncian yr ffydd, a'r crefydd Cristnogaidd, mwy na phlant bychain newydd eni. Esa. 56. 10. 11

Hynn yw yr achos pam y tyfodd cymeint o chwynn, gwyg, ac efrae, yngwenithfaes yr Arglwydd, sef cymeint o draddodiadae, a dynawl ddychmygion a gosodigaethae, yn yr Eglwys, yn gymyscedic a gwir, ac a phurlan air duw.

Hynn

Hyn ywyr achos pam y mae cymeint o gaudduwiaeth, delw-addoliant, pereryndod, gweddio ar Sainct meirwon, ar cyfryw ddiwres argoelion in mysc. Hyn yw yr achos, pa ham y mae cymeint, o falchder, a rhodres (a hynny heb droed) ie ymysc rhai gwael, iselradd. Pa faint yw rhwysc cybydd-dod, vsuriaeth, chwant, trais, lledrat ac ysbel, in mysc, fe wyr pawb sy yn dal ac yn craffu, ar gwrs y byd. Puteindra, ac anlladrwydd ni bu erioed fwy: glothineb, brwysc, a medd-dod sy gyffredin; casineb, llid, gelynniaeth, digofaint, ymrysonau, ymgyfreithiaw, anghariadoldeb ac anudonau sy ry aml, ac a gos a gorescyn ein gwlad. Ac ni wnn beth yw yr achos o hyn, ond (gida bod yr Eglwyswyr mal y doedais vchod, rhain a ddylent fod yn siampl ar air a gweithred i eraill, yn ddifraw, ac yn ddiddarbod) ein eisieu o lyfreu, in twysaw, ac in llwybraw yn y ffordd iawn. Ond bellach i bwysaw ar ddiwedd: na fid rhyfedd, na chwith gonyt, paham yr henwais y llyfr hwn yn berl, (gann mae gair Saesonaeg yw perl) nid wyf yn gwneuthyr yn hynn ond fal y gwnaeth fyngwell om blaen, canys darllain y trydydd pennod ar ddeg o Efangyl Sainct Mathew, yn y 45 at chweched wers a deugain, a thi a gai yr vn gair. Heb

law

aw hynn, oni chanlhynais, fy Awdur air
yngair, na feddwl wneuthyr o honof ar
fai: canys weithieu (yr wyf yn cyfaddef)
mi a rois lai, weithieu eraill, mi a rois fwy
nac fydd yn y llyfr Saesonaeg, ond cofia
beth o ddywaid ẏ Bardd lladin *non verbum reddere verbo*, *Curabit fidus interpres.*
my-fi a wneuthym yr hyn a dybiais fod
yn oreu ar dy les.

Na feia am nad oes (y) ymhob mann
o flaen (n) ne (r) lle i dyle fod, canys ni
alle y printiwr wneuthyr amgen, am nad
oedd ganthaw cymaint ac oedd angenrheidiol or llythrennae hynny: ac felly
cymer y (d') yn lle y (dd) ac (l') yn lle (ll)
ac os damwainiodd i vn llythyren ne i
air fod allan oi le, meddwl mae Saeson
ai printiodd, 'rhai oeddynt anghyfarwydd yn yr iaith. cymer bob peth
mewn rhann dda, a thi am anogi
i, ag eraill hefyd, i gymeryd
poen mewn pethau eraill o hyn allan, drosot. yn iach.

John Davis of pentre
Vidog his Booke and
William Jones of Rydirgchen
his Hand
commonly calld Sion Dafydd
Berson
says Rob. Davis ...

Pennod cyntaf.

Pob trwbleth ag adfyd sydd yn dyfod oddiwrth ddiawl



Hwynny oll a gyfrifad yn adfyd, neu fil[illegible] nes, a'r y sydd yngh wich wyneb e wyll[illegible] ys, ne ddyscyfrau[illegible] dyn, megys y [illegible] ...c.12.a.
[illegible] ...ian.17.b.
[illegible] ...clc. 2.24.
[illegible] ...a.9.16.
[illegible] ...a.41.c.
[illegible] ...h.44.b.
[illegible] ...m.28.a.
[illegible] ...14.19.b.
[illegible] ...ar.12.27.
[illegible] ...n.10.18.
colled o dda, [illegible] o dyn [illegible] ...Tim.4.[illegible]
[illegible]
malais neu athrod [illegible]
[illegible]
ag angels: ag yn y [illegible]
wir hefyd, bob bach ar [illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible]
[illegible] edig

edig, ai goleu ag eglur, ai rhyg[illegible]
ddus, ai anrhyglyddus: yn 'r hol' [illegible]
thau hynn (meddaf) fe ddyle bo[illegible]
dyn Christnogaid' ystyried yn gy[illegible]
taf y gwreiddin, r achos, ar dechr[illegible]
ad, fal hynn: sef, y dylem ni gym[illegible]
ryd a derbyn yn ddioddefgar p[illegible]
beth bynac, y mae duw yn i anfon[illegible]
Ge. 13.2. trwyd' hynn sy wir, mae duw y[illegible]
Dihar. 17. 5. [illegible]
Eccle. 2.24. ein creawdr, ein gwneuthurwr, [illegible]
Ps. 9.16. ninnau ym waith [illegible] law ef, [illegible]
Esa. 45.7. yw ein brenin, ein arglwydd' yn ta[illegible]
Esa. 64.8. ag fal nad yw weddus in rwyfa[illegible]
Ierem. 18.6. lon yn erbyn y chrochenudd, felly
Ioan. 19.11. mae anweddeidd-dra a daver [illegible]
Mat. 19.17. ni furmur, ne rwgnach yn erbyn e[illegible]
Mar. 10.18. wyllys, a bendigaeth ein duw. [illegible]
2. Tim. 2.19. Ag er bod yn oestadwy ag ing yn
nodi, ag yn dyfod yn fynych, drwy
ddygioni ein gelynion, annogiad y
cythraul, ne drwy ryw fod' arall, etto
ni ddylem ni feddwl i bod yn dy-
fod o ddamwain ne ddigwyddiad; [illegible]
[illegible] ag ewyllys duw, onid trwy[illegible]

i rag-

iragwybodaeth, i ragordeiniad, ai bwyntmât ef: ag i ddoethyd ngym-wys, yr vn modd yw, tu ac att am ein diogelwch pwy vn bynac syddō yn byw, ai mewn tlodi, ai mewn cy-foeth, yn y tan, ai yn y dwfr, ymysc yn gelynion, ai ymysc yn cyfnesafi-eit, canys mae duw 'n gweled, yn gwybod, yn dosparthu, ag yn llywo-draethu pob peth, mal i tystia llyfr 1. o Samuel: yr Arglwydd sydd yn marwhau, ac yn bywhau, ef sydd yn dwyn i wared ir bedd, ac ef a ddwg i fynu, &c.

Eccle. 11.14. Esa. 45. 4. Ez. 28. 2. 2. Chro. 20. Iudith. 9. Iob. 1. 11. Mat 10. 29. Luc. 12. 6. Doeth. 17.

1. Sam. 2. 6. Deut. 32. 39. 1. Sam. 16. 2. Tob. 13. 2. Iob. 1. 21. Iob. 2. 10. Eccl. 5. 14. 1. Tim. 6. 7. Mat. 10. 29. Luc. 12. 6.

A Job hefyd a dessiolaetha yn i drueni, yr arglwydd ai rhoes, yr ar-glwydd ai dug: a Christ i hun a ddy-weid, na ddescyn vn o adar y to, ar y ddayar, heb ewyllys ych tad; ie mae gwallt ych penn y gyfrife-dig.

Gan fod wrth hynny pob trwbleth a blinfyd yn dyfod oddiwrth dduw ni a ddylē ddarostwng ac vfudhau

ein calonneu a'n meddylieu, iddaw ef, gann dduicf iddaw ef wneuthyr a ni, fal i gwelo i sanctawl ewyllys ef fod yn iawn: pa bryd bynac gann hynny, y byd' iddwyd' stormus, ni weddio ne lad' yd, a ffrwych y ddaear, ne pan in difenwir gan ddrwgddynion, gann godi gwradwydd', ne gabl in erbyn, pam y dylem in rwgnach, ne furmur yn erbyn yr elfynac ne geisio ein dial ar ein gelynnion? erwydd', oni dderchafwn ein meddylie, ag ystyriaw mae Duw sydd' yn gofod i law arnom, ag mae efe sydd' in ceryddu, cyffelib ydyn i gwn (eb ddim gwell) rhain pann i cafler a chareg, a gnoant y garreg, heb ystyr yyw sy yn bafuu at cynt. Ac hefyd ni ddyle ne i fod yn anfoddlawn, neu'n

Mat. 25. 14.
Luc. 19. 13.

annwllyscar i ailodi y dalent ne'r gwystl, rhwn a roddwyd iddaw'n unic er i gadw. Duw sy yn rhoddi iddwyd, iechyd corfforawl, nerth, gwraig plant, cyfnewidion, cyfoeth

anrhydedd, gallu, awdurdod, hedd-
wch, esmwythdra, a diogelwch
dros amser, tra ryngo bodd iddo ef:
yr awrhon, os yr vnrhyw ddüw y-
ma, a ddwg drachefn rai or pethau
hynn, neu r cwbl, nid yw ef yn dwyn
dim onid yr eiddaw i hun, ar peth
yr ym yn d'ledus iddaw o honaw.
Erwydd paham, y mae yn bechod an-
feidrawl, dialeddus, surmur yn
erbyn ewyllys duw, neu wrthryfe-
la yn erbyn i farnedigaethau ef.

Pen. 2.

*Pob trwbleth, gorthrymder, ag ad-
fyd, a ddanfonir arnom ni gann
ddüw, er cospedigaeth am
ein pechodae.*

YR awrhon beth yw'r achos sy
yn peri i ddüw anfon adref hyn
attom, ar ymweled a ni drwy orth-
rymder, ing, a gofyd? am y pwnc y-
ma, ystyr hynn yn dda: pa beth hy-

nac a hauddod', neu a ryglyddawd'
dyn, hynny oll a ddyle ef i d'erbyn,
ai ddioddef yn llawen, ac yn ewyl-
lyscar: Holed, ag ecsammied, pob
dyn i hunan, oni ryglyddawd' ef i
gospi, ai geryddu gan dduw, naill
ai am ryw bechod yspyssol, yr hwn
a wnaeth ef yn brelennol, ne am be-
chodau a wnaeth ef ar amseroed' e-
raill: yr awrhon, yr arglwyd' ein
duw ni, ymhob bath ar gosbedig-
aeth, ac ymweliad, a ddengys ac a
fanega, drefn, ne ordr i gyfiawnder
ai anfeidrawl ddiclloned', a digo-
faint, yn erbyn pechod ag anwired':
Nal. 5. 2. can's ef a ddyweid yn yr ail gorchy
Ex. 20. 5. myn, myfi'r arglwyd' dy dduw di,
Ex. 34. 7. wyf d'uw eid'igus, yr hwn a ymwel
Deut. 5. 9. a phechodae y tadau ar y plant hyd
Deut. 7. 9. y dryded' ar bedwared' genedlaeth
Num. 14. 18. os hwy am casant, &c. Ac yn y pu-
Nah. 1. 2. med llyfr o Moeses: i rhifir yr oll
Deut. 28. 16. ddialeddau ar ol i gilyd', rhain a
dywelltir ar yr anwir, ar annuwiol:
ac

ar yn y trydydd-ar-ddeg o Luc, i Luc.13.5.
doedir fal hynn, oni wellewch ych
buched' fe ach cyfergollir chwi oll.

Ag fal i galloch weled yn eglur-
ach, ac megys o flaen ych llygaid,
pa fod' y mae cospedigaeth, a phla,
yn ddyledus am bechodau, mae
duw yn gosod, ac yn rhoddi y cospe
digaeth, yn gyffelyb ir pechod, fal i
gallo 'r ddau gydgordio, yn gyffal
mewn ffurf a chyffelybrwyd', ac 2.Sa.12.4.
mewn llun a chynhedd: er ecsampl:
mal ir halogod' Dafyd' wraig Uri-
as felly ir halogwyd i wraged' yn- 2.Sa.11.17. 2.Sam.13.2
tau [illegible] efn: ef a barod' lad', Urias, 2.Sa.15.12.
ac [illegible] hynny y lladdod' i fab ynteu 2.Sa.16.6. 2.Sa.17.1.
ei frawd ei hun, ag a gododd' gyndd 2 Sa.20.1.
ryged', a digased' yn erbyn ei dad, 2.Sa.24.15. 1.Chro.22.8
gann i hel ai ymlid allá oi deyrnas,
fal na ddichon neb ddatgan yn ddi
gonol, y dialed', ar trueni, 'rhain, a
fu ar ddafyd', ai bobl, am y cwyly-
ddgar anwired', ar ffieidd-dra,
rhain a wnaethe ef.

Yr awron ystyria, a ffwysa, m[illegible]
gys mewn cowir glorian, yr union-
der yr hwn y mae duw o'r naill d[illegible]
yn i erfyn arnom, a hol' gwys ein b[illegible]
Doeth. 2.23. ched' ninneu, o'r tu aral': pe i buase h[illegible]
Eccles. 17.2. liogaeth dyn, yn ufu' dol i gyfreith[illegible]
duw, ac heb yscogi oddiarnynt, e fu-
asse yn ollawl yn gwbl ddedwydd,
fendigedig, yn dragowydd: ag ni ly-
grase, ag ni wysfase ymaith, fa[illegible]
ffrwyth, ne lyssieu y meusydd: euth[illegible]
ef a yscogodd, ag a gwympodd y tro
cyntaf o'r dechreuad: yn rhieni, 'an
henafieid cyntaf, a ddifrawasont, ag
a wnaethont yn ddiystyr [illegible] ch-
mynnion duw, ac felly nin[illegible]
i cwymp hwy, ydym lygredic, a
chlwyfedig, an holl reswm, synn-
wyr, an deuall a ddallwyd, an ewyl'
ys a wenwynwyd: i ddym yn cly-
wed, ag yn cael ynom ein hun, an-
wireddus wnniae, a rhyachwantae,
gan geisio ein chwant, an pleser yn
y byd hwnn, yn erbyn sancteiddiol
air

eir duw: ac fal pe i bae i assyn ym-
wisco ai ad'urnio i hun mewn croen
llew, a mynnu bod yn llew, etto i
hir glustieu sychion yn bryssur
i datguddie, ag ai gwnae ef yn hy-
nod: yn yr vn mod', er i ninneu yn
trwssiadu, an gosod ein hunain allan,
ag y chydig brydferth, a gogonedd-
us weithredoed', fal na ddichon neb
d'oedyd na bom ni yn gwbl wirion,
ag yn ddifeius mewn llawer o byn-
ciau, er hynn i gyd, mae y nom ga-
loneu budron, aflan, anwireddus, yn
llawn diofalwch, a dirmig o dduw,
gwedi ein rhoddi yn ollawl, in caru
ein hunain a phob difrawch. yr awr
hon, os ni a ymgylchir, ne os ym-
welir a ni, a chlefyd, clodi, rhyfel, ne
gyfryssedd, ni ddylem ni roddi y bai
o hynn, vn, ar swyd'og, arall ar bre-
gethwr ne wenidog gair duw, ne ar
ystyd' ar crefyd', ne ar yr elfynau ar
ser, ne ar dduw i hun, fal pe i bae vn
o rhain yn achos or cyfryw ddia-

 leddau.

leddau: megys ag na ddyle neb fo
awar y Physygwr, (fal pe i baec
yr vnic achos, o ddwfrhaintieu lly
gredig o fewn y corff,) er i fod ef y
i dwyn ac yn i gyrru allã or cnaw
fal i galler yn eglur i gweled, euth
drwg ymwreddiad, ac anghyme
drawl ddeiad y gwr i hun, yw
tawn achos, ar gwreiddyn o hynn,
felly ni ddylem ninneu roddi ba
ar Dduw, o dẽfyn ef arnom ni, dri
wch, penyd, a thrwbleth, eythr med
wl fod hynn, yn feddeginiaeth, ac
yn help addas, in pechodae ni: a
ffob dyn a ddyle roddi 'r achos o
hynn, arno i hun, ai bechodau i hun,
ac nid ar ddim arall. Ar ecsampl
hwnn a ddarfu ir gwyr sanctaid', ar
duwiol henafieit yn y cynfyd, i ddã
gos, i ddatclario, ai adel i ninneu,
gãn roddi 'r achos bob amser, o or
thrwinderae, ac or cyffryw orthrwm
ofydiae, 'rhain a ddigwyddent yn
i hãser hwy, ar i pechodae i hunain:

mal

mal i llefarodd Daniel y proffwyd: Dani.9.5.
o herwydd ein pechodae ni, ag anwi-
reddau ein tadau ni, i dinistriwyd
Caersalē ai phobl gān y sawl syd
amgylch ogylch iddi: erwydd paham
ny ni a ddylē wylo, ag alaru, a chrio
allā, och och, 'n hytrach 'n erbyn ein
pechodau, a'n anwireddau ein hu-
nain, nag yn erbyn y gwendid, y cle Bar.1.13.
fyd, ne 'r adfyd arall ar trwblieth,
'rhain i ddym ni yn i dioddef, o her
wyd ein pechodae. Cans os wylē
ne os tristaē eb fesur, a rheswm, pan
fo duw ddim ond gwneuthur cyfi-
awnder, ag vniondeb ar i elyniō, pa
beth fydde hyn ond bod yn anfod
lō i gyfiawnder duw a charu y peth
'rhwn y mae ef 'n i gasau? a beth yw
hyn, eythr gwir gyfiāwnder, a daont
duw, pann fo ef yn ceryddu, yn mar
thyru, yn darostwng, ac yn gores-
tyn 'n ollawl ynō, y gelyniō pennaf
iddaw ef, a ninneu, hynny yw, ein
pechodeu ni? Gann hynny tristhau,
ag

ag alaru heb fesur ynghanol ein ing an trwblech, yw, yn dangos ein hunain yn gynnideithion i bechod, yr hwnn yw y gelyn mwyaf i dduw, a ninnev: erwyd paham, ni a ddylem yn hytrach foliannu duw, ac ymlawenychu yn ddirfawr, nid yn unic 'n ein adfyd an blinder, ond yng hyfiawn, a grasslawn ewyllys duw, cyfion (meddaf) am iddaw gospi pechod, grasslawn, a thrugarog, am iddaw i gospi yn esmwythach o lawer, nac o gyfiawnder yr heuddasom.

Dan. 9. / Bar. 1. 15.

Pen. 3.

Mae ein oll orthrymderae an blinfyd, yn llai, ac yn esmwythach o lawer, nag i mae ein pechodae ni yn heuddu.

Pa bryd bynac y byddo gwr yn rhoddi yscafn, ac esmwych gospedigaeth, ar vn a haeddod' a fae drymach, y mae n rhesswm iddaw i ddoi-

gioddef, ai dderbyn drwy ymy-
nedd'mal, yn a fo lladdwr celam, os
caiff ef ddiainc er i guro, ne i ffian-
gellu allan o'r dinas neu'r dref, mae
efyn cymryd hynny mewn rhann
dda, gann iddaw wybod yn dda
ddigon, i fod yn haiddu crog.

Y sancteidd-ferch Judith, a dy-
biai fod holl gospedigaethae tran-
cedig, yn esmwythach, ac yn llai nac
yw ein pechodae an anwired' au ni. Iud.8.17.
Erwyd' paham, o goddefi dlodi,
glefyd, ne ryw wrthwyneb arall
ysty'ia, a meddwl ynot dy hun fal
hynn.

Dy amryw bechodae a haedd-
asont fil filioed' o weithiau, mwy
dialeddus cospedigaeth, trymach
dolur, mwy ofnadwy rhyfeloed',
carchar mwy aneirif i oddef: ac pe
i doe oll flinderoed' y byd, ar vn-
waith yn vn pentwr arnat, etto
rhyglyddaist waeth o lawer. Ti a
haeddaist yn dda oddef gwbl allu a

chreu-

chreulondeb diawl, a dānedigaeth tragwyddol,' rhain er hynny a attaliodd, ac a dynnod' duw oddiwrthyt, oi wir drigared', yn unic er mwyn Iesu Christ. Hefyd, y neb a gafes bob amser bethau da, llwyddiannus, ni ddyl ef ryfeddu, er derbyn o honaw weithiau, anffawd, ac adfyd: ie, plant y byd hwnn a ddoedant 'n ddiharebawl.

Ni wn ddyll iawn ddchellwch
i ddewr draw na ddaw awr drwch.

Prawrhon, mor drigarog yw duw, ac na ad ef neb heb i obrwyo a rhyw wobr, ne arall, yn gystal o flaē gorthrymder, ac wedi, ie, ac ynghanol ein blinfyd, mae ef yn rhoddi llawer rhodd ardderchawg, ac arbenigion ddonieu, yn gystal ar les ein eneidieu ni a'n cyrff, yspryddawl a chorfforawl.

Ac am i ddonieu ef o flaen adfyd, a gorthrymder, mae i ni siampl odidog o flaen ein llygaid, o Iob, gann
Iob. 2. 10.

ddoe-

ddoedyd: gan i ni dderbyn cymeint
o lesant, oddi-ar law dduw, pam na
fyddwn ni fodlon hefyd, i dderbyn
y drwg? Hefyd Plinius yr ail, gwr
cenedlig, wrth ddiddanu, un oi gym
deithion a fuase farw i anwylwraig
hriod, ymhlith pethau eraill, a escri-
fenna fal hynn.

Hyn' a ddyle fod yn ddiddanwch
mawr iti (sef) cael, a mwynhau o
honot, berl mor wrthfawr, cyd o ã-
ser: can's pedair blyned' a deugain
y bu hi gida thi, ac ni bu erioed ym-
rafael, ymsennu, nac ymryson rhyn
goch: ar naill, ni ddigiod' y llall, eri-
oed: ie, ond yr awrhon ci a ddoedi,
mae o hynny y mae yn drymach ac
yn anawdd genyt fod hebddi, am i
chwi fyw ynghyd, cyd o amser, mor
heddychol: can's prysur irr angho-
fiwn y pleser, ar cymwynase,
'rhain ni chowson ond tros fyrr
o amser. Ond i atteb hynn y-
ma gochel, a gwilia, rhag dy gael
yn

yn aniolchgar, os ystyri yn unic pa beth a gollaist, heb feddwl pa hyd i cefaist hi yw mwynhau.

Ag hefyd mewn amser ac yng-hanol ein blinfio, 'an trwbleth, mae duw yn rhoddi i ni ras i ystyried, dawnus, a llwyddiannus bethau e-raill, 'rhain sy genym a rhain yddym yn oestadol yn i mwynhau: fal drwy goffadwriaeth ag ystyrietho rheini, ir esmwytheir, y lleiheir, ag ir anchwanegir ein gofid 'an poen.

Er ecsampl: bwrw dy fod yn wann, yn ddirym, ac yn wr clwyfus o gorff, etto fe roddes duw iti gyfoeth yn ddigonol, a da yn rhe-fymol ich gadw: ne os oes arnat brinder ag eisieu da, a chyfoeth, nid oes arnat er hynn ddiffig o iechyd corfforawl.

Yrawrhon oni osodwn y naill o hyn yn erbyn y llall, tebig ym i blant bychain, 'rhain os damwain i wr ychydig twyffro, ne dorri ar i chwa-

chateu, ne ddwyn rhywbeth oddiar-
nynt, yn ebrwydd, hwy a esclusant y
cwyl, ac a gwympant i wylo: felly i
byddem ninne debygol i wneuthur,
pann ddigwydd rhyw anffawd ini, o
digiwn ne o byddwn anfoddlon, heb
gennym na chwant, nac ewyllys i
gymryd ac i swynhau, y da rhwnn
sydd gennym.

Bwrw dy fod ti ymddifad, ne 'n
ysbailedig, o hob didan wch corffo-
rawl, etto yn dy ddwyfron ath galō,
mae genyt wybodaeth o Iesu
Christ, yr hwn, ath ryddhaod di o
uffern, ac o ddamnedigaeth, rhain
oeddynt ddledus iti: i hwy un, nid
yw r ol' ddialeddae ar y ddayar swy
mewn cyfstybrwydd, nag yw un def
nyn o ddwfr wrth 'r oll for.

Heb law hynn hefyd, trwy ffydd i
ddwyd yn clywed ynot, obaith, a sicr
wydd o lawenydd didranc, tragwyd-
ol, Fal i scrifenna S. Paul o hynn, Ruf. 8. 18.
gan ddoedyd: barnu ir wyf nad yw
gofi-

Luc. 15.19. gofidiae'r amser hynn, yw cystadlu âr gogoniant, a ddangosir i ni: mae i ni siampl o hyn, o flaen ein llygaid, or mab creulgar anobeithedic, y hwn, a'i vfuddhaod', ac a'i darostyngod' i hunan, fal na ddysyfai ef mwy
Jo. 8. 12. ach i gyfri yn lle mab, eythr i droi i weithiaw, fal gweinidog ne was cyflog, os yn vnic, e gae aros, ynhuy ei dad. Felly beth bynag y mae duw yn i anfon, ni a ddylem i gymryd, yn ddioddefgar, os yn vnic i cenadheir, i ni bresswylio ynhuy dduw, yn y nefoed', gidac ef 'n dragwyddawl. Yr awrhon, o tybia neb fal hynn, nid yw duw yn ceryddu eraill, a wnaethont anwireddau mwy dialeddus, a chymeint o blae echrys, a doluriae, ag i ceryddda ef ni: amarchus, ag anghristnogaid' yw ei feddwl ef o dduw: can's beth os wyd di dy hun yn fwy anwireddus, na neb arall? Ond bwrw fod eraill yn byw yn fwy anwireddus, ac

yn

yn waethna thi, a wyddost di pa
wed' y mae duw, yn i cospi hwy?
Mwyaf, a gwaethaf poen, a chosb,
iddichon fod, yw, cystud' oddi-
mewn, a dirgel gosbedigaethae y
meddwl, rhain ni welir ar golwg
oddiallan. Ag, er na byddo vn tri-
stwch, na dialed' ysprysol yn eglur
yn ymddãgos ici, ag er nas gwydd-
ost ba beth y mae duw yn i feddwl
yn hynny, etto ti a ddylit, (mal
plentyn yw dad) roddi iddaw ef an-
rhydedd', clod, a moliant, am iddaw
ef ddosparthu pob peth a chyfryw
ddoethineb, ac mewn cyfryw drefn
ac ordr: a phann welo ef i amser, ef a
obrwya, ag a ystyria'r holl gyfryw
bethae, 'rhain a wnaethwyd ym-
laen llaw, yn erbyn i gyfion, ai vni-
on gyfreithiau ef, megys ac ir hae-
ddasont.

Pen.

Pen. 4.

Pob bath ar adfyd a ddanfonir, ac sydd yn dyfod oddiwrth dduw, o feddwl cariadus, tadawl tuac attom.

NId yw ddigon i ni wybod fod pob bath ar flinfyd, yn dyfod drwy ymyned', a dioddefiad duw, oi gyfiawn farnedigaeth ef am ein pechodae ni: erwydd' yn eithawed' profedigaethae, ag yn yr angenion mwyaf, fal hynn i bydd y meddylie, ar dychmygion cyntaf ynom. Yn gymenic ac i ni yn ddialeddus ddigio duw, drwy fymhechodau, am hynny i llidiod' ef wrthyf; ag aeth yn elynn imi, ac a droes i ffafr odd'iwrthyf; ac oni bydd' i ni ragflaenu, a thaflu ymaith mewn amser, y cyfryw wag feddylieu, a bwriadae ofer, hwy a wnant i ni ymwrthod, ac ymadael a duw, gann i gasau ef, a gryngan yw erbyn; megys i gwnaeth Sawl, rhwn a gwbl feddyliod'

...chaw i hun, fod duw yn i geryddu, o lid a digofaint yn erbyn : am hynny calon Sawl a drodd oddi-wrth dduw, ac ai gadawodd ef, ac a erchreuodd i galon ai ffieiddio ef, megys un creulon. Gan hynny mae rhybydd hwnn hefyd yn perthynu, i cyfryw byncian, in dyscwyd ydd hynn: sef, y dylem ni dderbyn yn ddiolchgar bech bynag i mae duw o feddwl tadawl, cariadus, ac nid o ddim digofaint tu-ac attom, yn anfon ini, pwy bn bynac fydd ai hyfrydlawn, ai dialeddus i'r cnawd. Yr arglwydd dduw, a ym- Tob.12.
wel a ni ac amserawl, a thrancedic Iob.5.17. 11 &c.
ddenau, o dadawl a gofalus galon, Dihar.3.12.
chon sy ganthaw tu-ac attom, ac Hose.6.1. 1.Pet.4.9.
nid o ddigasedd a digllonedd i'n er- Iaco.1.2.
byn. Canys duw a gymmodir, ac a Hebr.12.1. 2.&c.
gymmir a Mab Crist ton [illegible] i fab, gwel.3.19.
ac ef ai car hwy o ddyfnder, ac o els
[illegible]
[illegible]

duw

duw in ceryddu, ac in cospi, nid y[...] yn
ef yn gwneuthur hynny o gasine[...] ynn
arnomi, fal pe i gwrthode ef ni, ga[...] fyd,
ein taflu ymaith yn ollawl, eythr [...] ion
fawr dosturi, a thrigaredd, er 'n de[...] hyt
hyn fal ei blant, er yn cadw, an ym[...] igar
ddiffyn, er yn meithrin an arfer, [...] d
yn ufuddhau, a'n darostwng, er y[...] g ew
fymbylu, a'n gwthio rhag ein blai[...] am
fal y byddai i weddi, ffydd, ofn duw, [...]
ufudd-dod, a rhinweddae eraill dyfu[...] hyn
a thyfu ynō, er anrhydedd idd[...] am
aw ef, ag iechydwriaeth i ninne. T[...] ymo
stiolaethae o hynn: yn gyntaf Eze[...] iam y
chiel. 33.

Ezech. 33. 11. Cyn wiried mae byw fi medd y[...]
arglwydd, nid oes gennyf bleser yn[...] Yn
marwolaeth pechadur eythr troi o h[...]
naw, a bod yn gadwedig. Yma mae[...]
duw yn tyngu, nad yw ef yn cosb[...]
er 'n difa, ond er yn llichio, yn denu, [...]
a'n dwyn i edifeirwch.

Dihar. 3. 12. Hefyd y fawl a gar duw, ef ai ce[...]
ryddha, ac er hynny mae gancho bl[...]

fer

y[illegible] ynthynt megys cad yn i blencyn.
n[illegible]hyn sy destiolaeth eglur, nad yw
g[illegible]fyd, trwblech, a blinfyd, yn arwy-
[illegible]ion o lid, a digllonedd duw, eythr
[illegible] hytrach arwyddion sicr, oi rad, oi
[illegible]garedd, ai ffafr, drwy bwy rai, y
[illegible] duw yn sicr-hau i ni, i drigar-
y[illegible] ewyllys, ai dadawl galon, tuac
a[illegible]om. Drachefn fe a ddoedir, ni a Rhuf.8.28.
w[illegible]wod fod pob peth 'n cydweithio
[illegible] hynn gorau, i'r sawl a garant
[illegible]duw. Ac hefyd, fe a'n cosbir, ac a'n 1.Cor.11.32.
[illegible]ydir gann yr arglwydd, rhac yn
[illegible]nn yn euog gida'r byd.

Hynn hefyd i gyd a greffi, ag a
y[illegible]yrri drwy holl stori Iob.]

[illegible] Hyd yr un modd, Ioseph a werth- Gen.37.28.
[illegible]wyd gan ei frodur, ac a rodd wyd yn- Act.7.9.10.11.&c.
[illegible]law'r anffyddlonett, o dwyll, a
[illegible]genfigen, drwy annog, a chyngor y
[illegible] ythr y ffyddlonaf i dduw a
[illegible] hynn er budd, a lles, yn gyffal
[illegible] yr Israel, ac i holl frenhin-
[illegible]yr Aipht. Canys hefyd y darfu i
er[illegible]
Ioseph

Ioseph i hun ddeongl hynny.

Hefyd eglwys Ghrist, (lefyb
hynny) y gynnelleidfa Ghristnogai
yr hon yw priodasferch crist, sy rai
iddi ddioddef adfyd a blinder; ar
ddaear honn, ond yn gymmeint a b
duw yn hoffi priodasferch i anw
fab, ('r honn yw cynnelleidfa y ch
ffyddlon) mae ef yn hwriadu i cho
fforddio hi, a bod yn ddaionus iw
gann hynny, megys ar i cyfodod
i fynyd o angau, Grist i gwr prio
ffenn, ai brenin, felly hefyd i gwa
red ef hithau o bob adfyd, gā rodd
iddi lawenychol fuddigoliaeth, a
bob peth sydd yw gorchymmu: eyth
cyfryw yw gweled a gwenvid
golwc mi, ac nas gallwn graffu
gweled drigarog a charedigol dda
ioni duw, dann i wialen ai scwrs.

Na bydd hynny gann hynny i
ymwelir a nin blinder ne adfyd, y
wis ein dlêdd yw, yn gyntaf gyda
bod a chosti ein pechodau, ar ysty

aw hefyd iau, a gefynnae diawl am bechod, ond ni ddylem ni farnu, na meddwl or cyfryw flinderoed', yn ol meddwl, ac ewyllys diawl (rhwn o frad, a meddwl maleisus, tu-ac attom, ni chais ddim oll, ond dinistriad ollawl, a chyfan wradwyd' pob rhyw ddyn) ond yn hytrach ni a ddylem farnu ac ystyriaw or oll flinderoed' ar gofydiau hynny, ar ol meddwl duw, (ac felly i derbyn) rhwnn oi fawr ddaioni, sy'n troi hwy oll, er bud' a llesant i ni, gann weithiaw drwyddynt hwy, ein perffaith iechydwriaeth ni.

Ymhle bynac ni ddichon y galon, dderbyn y diddanwch hwnn (sef bod duw yn ceryddu, ac yn cosbi, o wir drigarog ffafr, a chariad arno) yna yn angenrheidiol, mae'r profedigaeth, ar dialed' yn drymach, ac yn fwy, ar dyn hwnnw or diwed' a gwympa, ac a syrth i ddirfawr anobaith.

Pen. 5.

Duw yn unic er mwyn Iesu Grist, a hynny oi fawr drigaredd, cariad, a ffafr, sydd in cosbi ac in ceryddu.

YR iawn ar unic achos, o drigarog a chadawl wyllys duw, yw, yn unic rhyglyddiadae Iesu Grist, ac hwy yn, ni a ddylem dderchafu ein calonnau tuar nefoedd, gann feddwl, ac ystyriaw yn ein meddylieu, yn oestadol, fal hynn: yn pechod a'n anwired ni, sy'n haeddu newyn drudaniaeth, rhyfel, nodeu, a ffob rhyw blaee eraill: yr awrhon, Crist a wnaeth ariansiwm a chyfiawn daledigaeth, am yr oll bechodae rhain a wnaethom ni, ef a ailbrynnod', a dalod', a ddigolfod', ac a wnaeth ni ddinewidiol ini, yn oll gamweddau, drwy i chwerw angeu, i suddygolieaethae, ai ufigyffoniad, ac a ddigonaled' gyfiawnder ei dad fal i cestiolaetha

Es. 53. 4. 5. &c.
Io. 1. 29.
Io 3. 16.
Rui. 5. 6. 7.
Ruf 6. 7.
Rut. 8. 1.
1. Cor. 5. 7
Eph. 25.

aetha S. Paul, yn gonffordddus, gan 1. Cor. 1. 30.
ddoedyd: Iesu Grist a wnaethwyd
gan dduw i ni yn ddoethineb, a chy-
fiawnder, a sancteiddrwydd, a ffryn-
nedigaeth: fellyos blinderae an gor-
thrymant o erwydd ein pechodae, a'n
oll bechodae gwedi i digonoli, ai di-
gosti, trwy angeu a dioddefaint Ie-
su, mae'n angenrhaid addef, fod yn ol
blinderoedd yn ddinewidiol ini, ac
na allant ein briwo: ie, Crist trwy i
ddioddefaint ai adfyd, a fendithiodd
ac a sancteiddiodd bob rhyw adfyd,
fal i gwasanaethent, ac fal i byddent,
i oll wir ffyddloniein Gristnogion,
yn lle bud gwyrthfawr, drwy or-
deiniad a rhagweledigaeth duw i ne-
fawl dad: ef yw y gwir Physy-
gwr, rhwnn pann ddehallod, fod
adfyd yn arswydus gennym, a gy-
merodd arnaw i hun, ddioddef pob
bath ar adfyd, blinderoedd, a go-
fydiae mwyaf dialeddus, er tho-
ddi, a gosod terfyn, a ffenni, in
 blin-

blinderoed' nineu, ac hefyd i bendi-
thiaw, ai sancteiddiaw, ie, a gwneu-
thur angeu i hun yn brydferth ac yn
felus i ni. Oh na allem deimlaw,
gweled, ac ystyriaw, ewyllys, a me-
ddwl Crist, pan oed' ef yn ewylly-
scar yn diodef ar y groes, gann o-
ddef i d' ryllio, ai ferthyru mor greu-
lawn, ag mor boenus, eb un achos,
ond fal i galle ef yn ollawl ddirym-
mio oll nerth ein pechodeu ni, gorth
rymder ac angeu, ac hefyd dinistrio
uffern, fal na alle un o honynt bych
wneuthur niwed ini. ymhellach (o)
na allem ystyriaw pa wed' i chwae-
thod', ac irr yfod' ef or cwpan on
blaen ni, fal y gallem nineu, rhain
ym weinied, yfed a chwaethu 'n wel'
o honaw ar i ol ef, yn gymeint ac
na ddamweiniod' iddaw ef ddim
drwg o hynny, eythr yn y mann cy-
fodi o honaw o angeu: oh nas galle
wybodaeth, a chyffadwriaeth o hyn
aros yn iawn yn oestad yn ein ca-
lonnae

lonnae ni, a llewychu bob amser on blaen ni: yno bych ni sefyllem, ac ni ddyffygiem, ac ni byddem anobeithiol, o drugaredd, a daioni duw, er i ni ymladd mewn bateloedd enbydus, a mwyaf dialeddus: ac er i ni'n hunain brofi a theimlaw, y cyfiawn gosbedigaethae, haeddedic am ein pechodae ni. yno y gallem sefyll'n wrawl, ac yn nerthawg yn erbyn pyrth uffern, a phob bath ar drallod, trymder, profedigaeth, ofn, ac anffawd, yn ollawl a ddifethid ac a lyncid i fyny.

A hwnn yw y diddanwch pennaf, a mwyaf, a glowyd, ne a ddarllenwid o honaw, er dechreuad y byd. duw i hun yn unic a ddichon (os ystyriwn o honaw, ac os gafaelwn arnaw, mal y dylem) blannu, ac impio, y cyfryw feddwl ynom, fal y gallom nid yn unic na thristhaom, eithr gorfoleddu a llawenychu yn ein blinder a'n cledi, fal i gorfole-

gymer y goddeſgar'n achlyſur, yw arferu i hun mewn rhinweddae da, drwy bwy rai y cynyrchiff ac y chwanegiff yſprydawl ddoniau gras yn fwyfwy. Cans y ſawl ſyd' oddeſgar, hwy a gadwant y witſſyd', tuac at dduw, hwy a leſant, ac a alwant, ar dduw trwy weddi, hwy ai anrhydeddant, ai molant, ac ai mawrygāt ef, nid yn vnic am iddaw lywodraethu a doſparthu pob peth, eythr hefyd, am iddaw ddwyn pob peth i ddiwed' a diben da, ai cynnal felly yn oeſtadawl. Ac fal hyn drwy ymmyned', y cynyddiff ymmyned'. Ac yngwrthwyneb i hyn, yr anioddeſgar a belliſt beunydd ymhob rhinweddae, ac a yſpailir, ac a anrhaithir fwyfwy o bob daioni. Canys pwy bynac ſydd fodlon ganthaw, ac ſydd yn goddef ir cythraul, ac ir cnawd i lithiaw ai ddenu, ac a rydd le yddynt, mae hwnnw, ynn ymwrthod a ffydd, gweddi ac vfudd-

tuac at dduw, ac yn i gollwng hwy oddiwrthaw, ac felly e fyd' antolchgar yw wir at ffyddlawn dduw; yr rhwn ni ddichon ef oddef yn blud', nai orchymyn i hun iddaw dros amser, fal y bydd iddaw efi anniddeffyn at waredu, yn fwy ac yn well o hynny allan.

Mae ef yn meddwl, nad yw duw yn prisiaw yntaw, ac nad yw ond ofered', obeithaw, a disgwyl am help, conffort', a gwared gan dduw.

Nid yw ef yn cybio dim yntaw i hunan, ond bod duw 'n gwbl ddigofus, ac yn ddigllon wrthaw ef, ac am hyny, ef a glyw arnaw fellditihiaw, a chablu duw, fal pe i bae ef dduw creulō, anrhugarog, ac anghyfiawn, fef, yn dangos mwy cariad, a naturiolveb, ac 'n gwneuthur mwy lles, i'r anwir, nac i'r duwiol: ac o hyn ef a gymer achlysur i geisiew cymorth, help, a diddanwch, gann greadurieit, ac a wnaiff addunedau

i'r Sainct, ac i fyned i bererindota, sef yw hyny, i gapelau delw-addoliant a gau-dduwiau, ac ef a wnaiff amodeu anwiredus, cytundab, ac addewidion yn erbyn duw. Rhai rhac ofn a wrthodant, ac a wadant, y ffyd' Grist'nogaid', ac a dderbyniant grefyd' anwiredus y Pab, gā gydsynniaw i ddelw-addoliant, yn oleu ac yn eglur: ac hwy a wnant dduw yn gelwyddawg, fal, na ddichonef, neu, nad yw ef ewyllyscar i gynorthwyaw yn hynn, neu mewn peth arall o hynn allan, yn ol i amryw addewidion ef, yn y testament hen, ac newydd.

Heb law hynn, Aflonyddwch, a chwanegir, ac a amlheir, trwy anioddefgarwch, fal y digwydd i'r hu sy annoddefus, fod beunyd' yn ddi-stach ac 'n fwy anobeithiawl, naigilyd', gann ffo, pann i dyle ef yn hytrach, barhau yn safadwy: ac nid yw ef yn cael, na heddwch, nac esmwythdra,

wythdra, na diogelwch yn ei gallu. A llawer vn, am na fedr ef ddioddef yn a goddef llodi, ac eraill o'r cyfryw angenoctid, a gwympiff i ddrygioni, meis, i lawrudduaeth, i butteindra i ddwedyd celwydd, i ledrata, i [illegible] i wittresu, i dorri pyrsau, ac ir cyfryw ddigasawg ffieidd-dra.

Hefyd y sawl sy anioddefgar, a genfigenant wrth lwyddiant, a rhwydd-deb rhai eraill: cans hwy a dybiant mae hyny yw'r achos oi croes, ai trisdyd hwy, ac hwy a ymddigiant ynddynt i hun, gan genfigenu, dirmygu, a chablu yn fynych, y gwirion, a hyny yn ddiachos: ie hwy a ymgyphreuliant, ac a wallgofant, gan ddeveg bendro mynwglyw dial i hun. Am yr achos hwnn yn fynych, (mal y testia'r storiau) y [illegible] ar y cowydd, ymrysonau, ryfel, rhyfel, terfysc, ymwallt gwaed, distryw, a dinystr ar eglwysi, crefydd, ac ar holl [illegible].

Coriolanus er mwyn i ddal i hun a ddarparodd ryfel fal gelyn, yn erbyn ei wlad naturiol ei hun.

Mae prawfhydedd ac yn gannolieth mawr, o flaen dynion, o flaen yr Angylion, o flaen y Sainct gwynfydedic, ac hefyd o flaen duw i hun, pann fo gwr yn dangos ymynedd, hyder, a gymmusder mewn adfyd. A thrachefn, mae yn warth, ac yn gywilydd, o flaen holl greaduriaid y byd, ac o flaen y creawdwr hefyd, pann fyddo gwr, yn i ymddwyn ei hun yn anwedddaidd, yn aniodddefgar ac megis un heb obaith, Canys nid yw ymchwel dwr, i ddangos ei hun yn eofn, ac yn hyderus, a bod yn fodlon i waith duw, pann fo pob peth yn damwain, yn llwyddiannus iddaw ef, ac yn ol ei ewyllys ef: eythr hyn sy rinwedd, a ffrwyth ei gelfyddyd i wr, sef, i bod ei feddwl ef yn [illegible] ffrwyth ac yn ddiofalfod, mewn adfyd, ac afflwyddiant.

megys ar mewn yscol o ffeyns, yr vn, ddangosawdd fwya gwrolder, a wyr edd, a gaiff y cannoliaeth ar uchaf wen fwyaf, felly 'n' r vn modd, mae, yn yscol Grist, gorchwyl ar-ddedig, wedi i darparu i ni heu, pan wrthnebom, a ffan orescynnom, ein gelynion ysprydawl, a phan ga-ffom y fuddugoliaeth yn herbyn, sef hwn hwe y cnawd, ar cythraul.

Y gwas a wnythyd effeithir dayar-l, heb achos cyfiawn, a fernir o daen y byd y anffyddlon, yn anwir, ac yn anonest: ac ond yw hyn, bwnc fwy anonestrwydd, ac anffyddlon-deb, sef, gwrthod Crist, ar air, yn amser adfyd, a thaflu y groes, y a ddyry anion degarwch, gwnewchur wnethaf yn erbyn.

Yr hwn a ymargilwyng hoffedigaeth ac medd diwl, sydd fwy canmoladwy, nwy nddas o glwch, nac vn, a ym-ylchawdd, ac a gwilliawd, ddinas adarn: Canys ydoedd o wyr

gwchion,

[illegible]ywist

gwrthiō, yn gystal ymhlith y Crist nogion, ac ymysc y cenedlig sont fawr glod, a chanmolia gyffyndion deb, ei gouesth wyd dianwnnalwch, rhain a ddang sont, 'n'r ing, ac mewn angenoc ac yn anwedig se a ddylid ysty aw, siampl ein iachawdwr Ie Grist, o hwn yn i scrifenna Sa Pawl gan ddoedyd: os dyrchaf Crist, ar ol ei orthrymder, ai vfu dawd, (sef vfuddhawd i angeu,) cyfryw ardderchawg anrhyde a gogoniant, e fyd' hyny yn 'r mod', yn gymorth i ninneu, i ddy i fawr anrhydedd, o chymerwn croes bennyd', ai goddef yn ei yn wrawl. Mae cyncfinder hy ein dyscu, pa wedd, pann fyddo g yn ysiwyd ymaith y groes oddi rhawn, drwy fuddion anghyfiaw -lawn, y cymhellir, ac y gwrthir fyurch, dhanfodd, i oddef cymu neu fwy, drwy gwilydd, ac an

strwyt

rwyd. Judith a ddywaid: y sawl
i chymersont ei croes, ai profedi-
aeth, mewn ofn duw, eythr trwy
wgnach, a murmur, ’n erbyn duw,
r oeddynt anoddefgar, a ddestry-
wyd, ac a ddifethwyd gann Se-
rph.

Heb law hynn, pwy bynac fy-
dd gwr yn goddef, ai yn euog, ai yn
ieuog, o pery ef i furmur, ac i
wgnach, gann fod yn anoddefus, e
oir hynny yn dānedigaeth drag-
wyddawl iddaw ef. Ac eilwaith,
pwy bynac fyddo gwr, ai rhy-
glyddus ai anrhyglyddus, os ef ai
cymer yn oddefgar, mal y dyle, e
fydd hynny fuddiawl iddaw ef, a
chymorth i gaffael y bywyd trag-
wyddawl. Ar holl drifyd, a phoenae
rhai ydynt ar y ddayar, nid ynt ond
megis, brath ednogyn, neu chwan-
nen, chwain sy hawdd i gorfod. Pann
fyddo gwyr yn yr rhyfel, yn chwa-
reu y gweission diog, ac yn gorwedd

yn ddiftraw, ac yn ddiofal, yn
gwerfyll, heb wrthnebu ei gelyn
yn ddewr, ac yn wrawl: ei caredig
on hwy a ddinyftrir, ei tai a ysp
lir, ei pentrefydd a lofcir, ei
gymdeithion a leddir, ac a ar
thir, ei gwragedd, ai merched a
logir, ac a dreifir, a ffob peth a
frodir, ac a ddeftrywir: yn yr
modd, yn y maes, ar rhyfel yfpr
dawl, os nyni a ymrown i'r cnaw
ac i'r cythraul, heb i gwrthnebu
wrawl, ac yn gadarn, yddym yn
taflu ein hunain, i enbydrwyd, tr
eni, ac aflonyddwch tragwyddaw
Ond os ymladdwn yn erbyn ei
gelynnion yfprydawl, yn hyderus,
ac yn ymyneddgar, nyni a enillw
efmwythdra, a diogelwch didran
yn hawdd ac yn ddiboen.

Os y gwr claf a wrthyd y fedd
giniaeth am i bod yn chwerw, ac yn
dost, nid oes rhyfeddod, na chwith
der, er marw o hanaw, yn ei glwyf

ddolur: ond os ef ai ymrydd i hu-
nan, i'r Physygwr, y w ddin ac y w
[illegible]law, ar ol i feddwl ef, fe a alle
[illegible]fod i ddolur, a bod mewn gobaith
gael i iechyd drachefn.

Yn 'r vn modd, holl wir, a ffydd-
onieit Gristnogion, ar y syd 'odde-
[illegible]s, mewn adfyd, a obeithant, ac a
[illegible]redant yn sicrach, y cant ddioge-
[illegible]wch tragwyddawl y w eneidiau,
[illegible]c y w cyrff.

Ac yngwrthwyneb i hynn, y sawl
[illegible]y'n parhau, ac yn aros yn oesta-
[illegible]awl, yn ei anynadrwydd, anhy-
[illegible]weithdra, ai hannoddefgarwch yn
[illegible]rbyn duw y nefawl Physygwr, a
[illegible]oenant, ac a ferwinant am hynny
[illegible]yn dragwyddol; mewn corff ac e-
[illegible]aid. Scrythur lan sy genym i sicr-
[illegible]hau, ac i brofi hynn yma.

Happus y w 'r gwr, a ymoddef
[illegible]brofedigaeth, can's pann fo prawe-
[illegible]dig, i caiff goron y bywyd, 'rhonn a
[illegible]addawodd 'r Arglwydd ir rhai ai ca-
 ro

roes. Ond ni ddichon neb ddoy-
dyd na chasclu allan, o hynn, yn bod
ni yn haeddu, ac yn rhyglyddu, o ha-
nom ein hunain, iechyd tragwyddo-
awl, am ein ymyned': 'r hwn beth, a
wnaeth Crist yn vnig.

Yn ddiweddaf or cwbl, ymy-
ned' syd' fuddiol, ac a ddwg leshad
mawr, nid ynig, ir vn syd' ar rhin-
wed' yma ganthaw, eythr i eraill
hefyd: can's pann ddehallo arall,
dy fod yn safadwy yn y gwirioned',
ef a gymer achos, i arferu y cyffe-
lyb ymyned', a chadernid. Mae'n
eglur trwy amryw hystoriau cre-
dadwy, pa wed', pann oddefod' y
Cristnogion yn eofn, ynghweryl y
ffyd' Gristnogaid', y rhyfeddawd'
rhai oi arteithwyr hwy 'n gymeint,
ac y troesont hwy achlysur o hyn-
ny (ac heb vn achos arall) i ffyd'
Grist. Hefyd, ymyned' a dianwada-
lwch, a wnaethont heddwch i law-
er o wledyd', i'r eglwys, i genedlo-
ed',

..., i ddinasoed', ac i ddrefi lawer. Scipio llywodraethwr godidawg, a ddewisawd' yn hytrach, ymadaw a Rhufain, na darostwng, a gorfod ei elynnion, drwy fin arfeu: yr hwn beth, a droes yn lles mawr, i'r oll wlad. Ac yngwrthwyneb i hynn, meddwl chwerwaid', creulon, anioddefgar, sy'n dwyn ac yn peri, dialed', a dinystr anfeidrawl. Hefyd trwy ein anioddefgarwch mewn adfyd, yddym yn rhoddi achos i'r rhai sy weinieit yn y ffyd', i ammeu, beth yw ein ffyd' ni, ai bod yn wir ffyd' ai nad yw; pann fom yn cyffesu enw duw, ac mae ef yw ein diddanwch yn y byd hwnn, ac yn y byd syd' i dyfod, ac etto yn ein dangos ein hunain mor anobeithawl mewn adfyd, fal pe i bae i dduw, yn gwrthod a'n taflu ymaith yn ollawl.

Erwyd' paham, ny ni a ddylem ein darparu ein hunain, yn erbyn

pob adfyd, mewn amser llwyd... a hawddfyd, ac nid rhoddi ein goglud a'n pwys ar bethau bydawl, trancedig: mal pann fo achos, y gallom fod yn fodlon, ac yn ewyllysgar, yw maddeu, gann aros a pharhau 'n oestadawl, yn ddiserfyll, ac yn ddisigl, yn yr iawn ffyd', ymhwy vn pwy bynac a erys hyd y diwed', a fyd' cadwedig.

I dduw 'r tad, i dduw 'r mab, i dduw 'r yspryd glan, tri pherson, ac vn duw, gogyfuwch, a gogydtragwyddawl, yn vnic, y bo oll anrhydddedd, moliant, a gogoniant yn oes oe soedd. *Amen.*

CYWYDD IR IESV.

Pwy sy benn yn pasio byd?
Pwy oruwchaf pur iechyd?
Pa Arglwydd ymhob eurglod?
Pa Ior glwys y piau 'r glod?
Pa frenin pwy fry iawnwych?
Pwy orau i ged pa wr gwych?
Pwy ond Iesu penn dwysair
Orau mab o wiwryw Mair?
Brenin ar bawb ar aned
Brau vnion cryf brenin Cred
Brenin vchrin vn odrwy
Barwn mawr heb 'r vn mwy.
Awdur y grym wyd ar gras
Arglwydd-walch Ior glew addas.
Di yw yn penn, da yw 'n pwyll,
Dawn cymmes di yw 'n canwyll.
Di yw ffynnon gwirionedd,
Diwyr hynt, di yw yr hedd.
Di yw 'r ffordd vewr hoff vrddas
Di yw 'n grym da yw yn gras.
Di yw 'r hael diwair helynt
Di yw 'r hap da yw yr hynt.

Di yw pob peth ddiseth ddim,
Deg brddas di yw gwirddim.
Bwy ach chwyn beth ydwyd?
Bych un duw ba beth nid wyd?
Iesu ydwyd oes wiwdeg
I hawsshau dyn Iesu deg.
Iesu wrawl oes wiwrym
Iesu Ghrist wiw oesawg rym.
Llew ydwyd llu a edwyn
Llew gwrdd o Iuda llew gwyn
Llew Dafydd oll wiw dyfiad
Llawen yw 'r iaith llawn o rad.
Llawenydd, llywydd, llewych,
Llwyddiannus, foliannus sych
Doethost o'r nef ner Dethawl,
Dyna hap in dwyn o hawl.
Diddefaist ond oedd ofyd
Drom Iesu boen dros y byd
Dygaist drom farnedigaeth
Dygaist ddolur mal eur caeth: (awl
Dyna brynnaist drwy waed brein-
Dyn rhag aer wy drwy diawl:
Nid ag aur bennod gwiwrym
Nid ag arian rhywddlaw rym

Nid

[illegible] mab gwerthfain gwrthfawr
Ail a gofid mynid mawr:
Oed's roddi deinioes
I brynu cred ar bren croes.
Ag yno yn deg anian
Rhwdda yftad rhyddheift mann.
Digonaist Ion deg ynad
Feddwl duw wiw fuddiol dad.
Dioddefaist ffiniaist hoff Ion
Dugaeth mur alaeth creulon,
Cefaist amarch ar wbarch oedd,
A chernodiau chwerw ynoedd:
Poerwyd yn dwyneb purwyn
Paran cwyll fu'r poeriad hwnn.
Cyn yt farw ceit arwain
Cur yn ddrwg coron o ddrain
Croes-hoeliwyd cur tan alaeth
Dy Jawn gorff a fcyrsio yn gaeth
Un o dwyll yna a dyllodd
Dy ystlys anfelys fodd:
Gollyngodd mewn gwall angau
Y gwaed gwirion o'r fron frau.
Dy gorff oll a archollid
Iesu lan ach ais o lid

Ag

Ag yn ol hyn terfyn toll (thon.
Mawr iawn waith marw a wnae-
Ag yn ol dy farwolaeth
Codaist or bedd culwedd caeth
Derchefaist cefaist coswyn (gwn
Ddeheulaw dduw gwiwdduw
Yno ir wyd yn waredwr
I bawb a gais i bob gwr.
Yn frenin haelwin hylaw
Yn llywydd dragywydd draw
Yngarwr dyddiwr diddan
Yn oreu o glod yn ner glan
Yn nodded iawn yn wiwddyn
Yn fab duw, yn dduw, yn ddyn.

Terfyn.

H. Lewys.

...weddi ferr yw doedyd
...mewn adfyd.

PA bryd (Arglwydd) y symudi y baich gorthrwm hwnn oddiwrthyf, pa bryd yr adnewyddi fyniddanwch, ac i gyrri ymaith ofal o'm Calon, drwy dy dyner garedigrwydd, yr hwnn am camweddae a ddigais? Dyre attaf drachefn (o Arglwydd grasusawl) drwy gariad, a llewyched dy wyneb-pryd arnaf: Tynn ymaith y dialeddae hyn, y rhain a haeddais yn rhyglydus: ac fal im cerydd drwy gariad, er fyn'rhoi oddi-wrth fynghāweddae, felly (drugaroc Arglwydd) yr erfyniaf arnat yn ddiffuant, roddi i mi ras, cymorth, a diddanwch eilwaith trwy'r unrhyw gariad, er mwyn dy un mab ein Iachawdwr Iesu Grist. Amen.